



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL TRAWSBLANNU DYNOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
sy'n ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

25 Mehefin 2013

BIL TRAWSBLANNU DYNOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol i'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi ei baratoi gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Rhagfyr 2012, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i mae darpariaethau Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), a gyflwynwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ar 3 Rhagfyr 2012, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

25 Mehefin 2013

Cynnwys	Tudalen
---------	---------

RHAN 1

Disgrifiad	5
Y Cefndir Deddfwriaethol	6
Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	8
<i>Y Pwnc dan Sylw</i>	8
<i>Y Cefndir Polisi</i>	10
<i>Amcanion</i>	13
Preswyliaid	14
Cofrestru dymuniadau – materion cyffredinol	15
Cydsynio: oedolion	16
Cydsynio: plant	17
Pobl nad yw'r gallu ganddynt i gydsynio	18
Oedolion a eithrir	19
Rôl y perthynas agosaf o dan y trefniadau cydsyniad a ystyrir	19
Oedolion sy'n byw y tu allan i Gymru ond sy'n marw yng Nghymru	22
Oedolion nad ydynt wedi byw yng Nghymru yn ddigon hir	22
Pobl sy'n byw yng Nghymru ond sy'n marw yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon	23
Pobl sy'n symud o Gymru	23
Defnyddio organau ar gyfer trawsblannu	23
Canllawiau	24

Y Cynllun Gweithredu a Chyflenwi manwl

Yr amserlenni ar gyfer gweithredu	24
Cyfathrebu â'r cyhoedd	24
Cofrestru dymuniadau – y manylion	29
Esboniad ar sut y bydd pobl yn mynd ati i gofrestru dymuniad o dan y system newydd	30
Pa bryd y bydd pobl yn gallu dechrau cofrestru eu dymuniadau	31

<i>Y perygl os na fydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud</i>	31
<i>Sut y bydd y ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon</i>	31
<i>Sut y bydd y ddeddfwriaeth yn gwella canlyniadau i'r rhai yn y gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi eu hallgáu ohoni</i>	31
<i>Rhychwant tiriogaethol</i>	32
<i>Yr amserlen ar gyfer y ddeddfwriaeth</i>	32
Ymgynghori	33
<i>Sut y mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi helpu i lunio'r ddeddfwriaeth</i>	35
Y p e r i wneud is-ddeddfwriaeth	36
Asesiad Effaith Rheoleiddiol	37/38
RHAN 2 – ASESIAU EFFAITH	
Yr opsiynau	38
Y costau a'r manteision	41
Asesu Cydraddoldeb, Preifatrwydd a Chystadleuaeth	46/47 ac atodiadau
Adolygiad ar ôl gweithredu	61
ATODIAD 1 – NODIADAU ESBONIADOL	78

RHAN 1

Disgrifiad

1. Mae Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) yn rhagnodi sut y mae cydsyniad i'w roi yng Nghymru ar gyfer tynnu, storio a defnyddio organau a meinweoedd dynol at ddibenion trawsblannu. Mae'r Bil yn cwmpasu rhoi organau a meinweoedd ar gyfer trawsblannu a hynny gan roddwyr marw neu roddwyr byw. Mewn perthynas â rhoddwyr marw, mae'n rhoi ar waith ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru. Mae system feddal o optio allan yn system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi ar gyfer tynnu organau a meinweoedd a'u defnyddio ar gyfer trawsblannu oni bai bod y sawl a fu farw wedi mynegi gwrthwynebiad i hynny yn ystod ei oes, a lle y bydd y perthynas agosaf yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad. Nod cyffredin y Bil yw cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael at ddibenion trawsblannu. Bydd hynny o fantais i bobl Cymru gan y bydd yn lleihau nifer y bobl sy'n marw wrth aros i organ addas fod ar gael ac yn gwella bywydau pobl eraill.
2. Mae'r Bil yn nodi mewn un lle y prif ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydsynio i weithgareddau trawsblannu yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn cynnal cyfundrefn drawsffiniol effeithiol wrth weithredu'r rhaglen drawsblannu organau ledled y DU, yn anochel mae cydadwaith â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Deddf 2004), sef y fframwaith deddfwriaethol cyfredol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. O ganlyniad i hyn, mae'r Bil yn ailddatgan, gydag addasiadau, adrannau penodol o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 ("Deddf 2004") yng Nghymru sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chydsyniad at ddibenion trawsblannu. Fodd bynnag, mae rhai darpariaethau eraill yn Neddf 2004, nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chydsyniad, heb eu hailddatgan ond maent yn dal yn berthnasol yng Nghymru, er enghraifft, darpariaethau sy'n ymwneud â'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ac adrannau 8, 33 a 34 o Ddeddf 2004. Fel y disgrifir ym mharagraff 23, ar y cyfan nid oes bwriad gan Lywodraeth Cymru i newid y gyfraith sefydlog yn y maes hwn; y prif newid sy'n cael ei greu gan y Bil yw cyflwyno'r cysyniad o **gydsyniad a ystyrir**.

Nodyn ar y derminoleg a ddefnyddir yn y ddogfen hon

3. Er hwylustod i'r darllenydd, pan ddefnyddir y term "organau", "rhoi organau" neu "rhoi", golyga hynny "rhoi organau a meinweoedd", oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall. Pan ddefnyddir y term "y rhai sy'n agos at y sawl a fu farw", "perthynas agosaf" neu "teulu", oni

bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall, golyga hynny berson sydd â "pherthynas gymhwysol"¹ ag ef, fel yr esbonnir yn y testun.

Y Cefndir Deddfwriaethol

4. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth sy'n ymwneud â chydsynio i dynnu, storio a defnyddio organau a meinweoedd at ddibenion trawsblannu yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006., Mae Pwnc 9 o dan y pennawd Iechyd a Gwasanaethau Iechyd ("*Health and Health Services*") yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn berthnasol yn y cyd-destun hwn ac mae wedi ei atgynhyrchu isod.

Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.

Health and health services

- 9 *Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.*

Exceptions—

Abortion.

Human genetics, human fertilisation, human embryology, surrogacy arrangements.

Xenotransplantation.

Regulation of health professionals (including persons dispensing hearing aids).

Poisons.

Misuse of and dealing in drugs.

Human medicines and medicinal products, including authorisations for use and regulation of prices.

Standards for, and testing of, biological substances (that is, substances the purity or potency of which cannot be adequately tested by chemical means).

¹ Caiff perthnasoedd cymhwysol ("*qualifying relationships*") eu nodi yn adran 17(2) o'r Bil: priod, partner sifil, partner, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, taid (tad-cu) neu nain (mam-gu), yr neu wyres, plentyn i frawd neu i chwaer, llys-dad, llys-fam, hanner brawd, hanner chwaer a chyfaill ers amser maith.

Vaccine damage payments.

Welfare foods.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y Pwnc dan Sylw

5. Mae prinder organau dynol at ddibenion trawsblannu yn parhau i achosi marwolaethau a dioddefaint diangen i gleifion sy'n aros am drawsblaniad ac i'w perthnasau. Yn 2011/12, yn ôl Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT)², Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru a Lloegr, bu farw dros 500 o bobl ar draws y DU wrth iddynt aros am drawsblaniad. Yng Nghymru bu farw tua thri pherson y mis wrth iddynt aros am drawsblaniad organ yn ystod 2011/12. Ar unrhyw un adeg, mae tua 300 o bobl yng Nghymru ar y rhestr aros weithredol am drawsblaniad.
6. Mae llawdriniaethau trawsblannu organau yn un o'r ffurfiau mwyaf effeithiol ar driniaethau meddygol modern o safbwynt clinigol ac mae'n arbed bywydau cleifion sy'n dioddef gan fethiant organau sy'n effeithio ar y galon, yr arennau, yr ysgyfaint, y pancreas a'r afu/iau. O safbwynt hanesyddol mae llawer o'r sylw wedi bod ar drawsblannu i arbed bywydau, ond, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd hefyd nifer o achosion lle'r oedd trawsblannu meinweoedd wedi ei anelu at wella ansawdd bywyd yn hytrach nag arbed bywydau. Mae trawsblannu organau hefyd yn gost effeithiol. Gallai un person sy'n rhoi organau arbed neu wella bywyd hyd at naw o bobl eraill a gallai hyd yn oed mwy o bobl gael cymorth o ganlyniad i roi meinweoedd. Mae rhoi organau yn helpu i leihau costau'r GIG, yn enwedig costau trawsblannu arennau.
7. Mae arolygon yn dangos yn gyson bod llawer o gefnogaeth i'r syniad o roi organau^{3, 4} ac maent hefyd yn dangos y byddai'r mwyafrif helaeth o bobl yn fodlon derbyn organ drwy drawsblaniad⁵. Fodd bynnag, nid yw'r lefel uchel iawn hon o gefnogaeth ddamcaniaethol hon wedi ei hategu gan nifer gwirioneddol yr organau a roddir, nac ychwaith gan ganran y bobl sydd wedi ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau y GIG (CRhO). Hyd yn oed ar ôl cymryd i ystyriaeth y cynnydd calonogol a welwyd yng Nghymru ers 2008/09 yng nghyfraddau rhoi organau, mae prinder organau o hyd ar gyfer y rhai hynny sydd eu hangen.
8. Mae'n bwysig egluro mai dim ond mewn nifer fach o achosion y mae rhoi organau yn bosibl a dim ond o dan rai amgylchiadau penodol y gellir gwneud hynny, fel arfer pan fydd y sawl sydd wedi marw ar

² NHSBT Transplant Activity in the UK Report for 2011/12.

³ Barriers to Joining the Organ Donor Register 2003, RBA Research - on behalf of UK Transplant

⁴ Europeans and Organ Donation Report 2007, Special Eurobarometer, EU.

⁵ Arolwg o 1975 o bobl yn y DU 2009, YouGov ar ran Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

beiriant anadlu mewn uned gofal dwys mewn ysbyty. I roi hyn yn ei gyd-destun felly, mae mwy na 30,000 o bobl yn marw yng Nghymru bob blwyddyn, ac yn 2011/12 roedd tua 250 o roddwyr posibl. Fodd bynnag, dim ond 67 o'r bobl hynny oedd wedi cytuno i roi eu horganau mewn ysbytai yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod cymaint o roddwyr ag sy'n bosibl ar gael, mae angen nodi rhoddwyr posibl ar yr adeg briodol yn y llwybr clinigol diwedd oes ac yna mynd at y perthnasau ar yr adeg iawn i drafod dymuniadau'r sawl a fu farw. Trafodwyd y mater hwn mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan NICE⁶.

9. Yn unol â'r gyfraith gyfredol⁷ a'r codau ymarfer cysylltiedig, ni all organau gael eu rhoi heb y "cydsyniad priodol". Ar hyn o bryd mae hynny'n golygu un o'r canlynol:

bod y rhoddwr wedi rhoi cydsyniad datganedig pan oedd yn fyw, drwy ymuno â'r CRhO er enghraifft;

bod cynrychiolydd a enwebwyd yn rhoi cydsyniad datganedig ar ôl i'r unigolyn farw;

os oedd y rhoddwr wedi marw heb roi unrhyw gyfarwyddiadau o blaid neu yn erbyn rhoi organau, bod rhaid gofyn i'r perthynas agosaf i roi cydsyniad datganedig ar ran y rhoddwr, yn seiliedig ar beth, yn ei farn ef, oedd dymuniad y sawl a fu farw.

10. Yn ôl y ffigurau a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG, yn ystod 2011/2012 dim ond 37 y cant o'r bobl hynny a roddodd organau yn y DU oedd wedi ymuno â'r CRhO. Ar gyfer y 63 y cant a oedd yn weddill, y perthynas agosaf a benderfynodd ar eu rhan.

11. O dan y trefniadau presennol, pan ofynnir i'r perthynas agosaf gydsynio, ar ran y sawl a fu farw, bod organau yn cael eu rhoi, mewn nifer o achosion nid yw'n yn barod i wneud hynny oherwydd nad yw'n si r beth oedd dymuniad y sawl a fu farw. Mae nifer o rwystrau yn atal pobl rhag mynd ati i ymuno â'r CRhO a/neu i ddweud wrth eu teuluoedd beth yw eu dymuniadau, er enghraifft amharodrwydd i drafod marwolaeth. Goblygiad ymarferol hyn oll yw y gallai rhywun gydsynio i roi organau ond, os nad yw wedi dweud hynny'n glir wrth ei deulu, mae'n ddigon posibl na fyddai'r perthynas agosaf yn sicr beth oedd dymuniad yr unigolyn a fu farw, ac o ganlyniad, ar ôl i'r unigolyn hwnnw farw, nid yw'r perthynas agosaf yn cytuno i roi organau. Wrth gwrs, mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir, pan fo teuluoedd yn cytuno i'r organau gael eu rhoi heb wybod nad oedd y sawl a fu farw wedi dymuno rhoi ei organau.

12. Effaith y Bil hwn, yn achos pobl sydd dros 18 oed ac sy'n byw ac yn marw yng Nghymru⁸, fydd cyflwyno cysyniad a elwir yn '**cydsyniad a**

⁶ National Institute for Health and Clinical Excellence: *Organ Donation for Transplantation*. Rhagfyr 2011.

⁷ Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a chodau ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, sef cod ymarfer 1 (Caniatâd) a chod ymarfer 2 (Rhoi Organau Solet at Ddibenion Trawsblannu).

ystyri' ar gyfer rhoi organau. Bydd cydsyniad a ystyri yn bodoli ochr yn ochr â '**cydsyniad datganedig**' fel un o'r ffyrdd i unigolyn gydsynio i roi organau at ddibenion trawsblannu. Bydd unigolion yn cael y cyfle i wneud penderfyniad datganedig, er enghraifft i 'optio allan' yn ffurfiol o roi organau drwy roi eu henwau ar gofrestr. Ond os ydynt yn dewis peidio â gwneud hynny, er iddynt gael y cyfle, yna byddant yn cael eu trin fel pe nad oedd ganddynt wrthwynebiad i roi organau (neu mewn geiriau eraill bydd yn gydsyniad a ystyri). Yn seiliedig ar brofiad gwledydd eraill yn Ewrop â systemau tebyg, byddem yn gobeithio gweld cynnydd yn nifer yr organau sydd ar gael at ddibenion trawsblannu o ganlyniad i hynny.

Y Cefndir Polisi

13. Ym mis Ionawr 2008, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o roi organau yn y DU, cyhoeddodd y Tasglu Rhoi Organau (TRhO) ei adroddiad, *Organs for Transplants*⁹. Yr oedd yr adroddiad yn cynnig 14 o argymhellion gyda'r nod o wella'r seilwaith ar gyfer rhoi organau a'r ffordd y caiff ei ariannu, er mwyn ceisio cynyddu cyfraddau rhoi organau ryw 50 y cant o fewn pum mlynedd. Yn ôl yr adroddiad, yn 2006, y DU oedd â'r cyfraddau isaf o ran rhoi organau yn y byd datblygedig, gydag ychydig llai na 13 o roddwyr a fu farw fesul miliwn o'r boblogaeth. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn nodi, yn genedlaethol, bod gan y DU gyfradd uchel o wrthodiadau gan y perthynas agosaf, sef 40 y cant. Mewn cyferbyniad â hynny, yr oedd adroddiad y Tasglu Rhoi Organau yn dangos bod gan wledydd datblygedig eraill gyfradd llawer uwch o ran rhoi organau (e.e.Sbaen 35 o roddwyr fesul miliwn o'r boblogaeth, UDA 27 o roddwyr fesul miliwn o'r boblogaeth a Ffrainc 23 o roddwyr fesul miliwn o'r boblogaeth) ac roedd y cyfraddau gwrthod gan y perthynas agosaf yn is o lawer (e.e.20 y cant yn Sbaen).
14. Cafodd Grŵp Gweithredu Cymru ar gyfer Rhoi Organau (GGCRhO) ei sefydlu er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu yng Nghymru. Er bod y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr adeg honno yn cefnogi'r argymhellion a wnaed gan y TRhO yn ei adroddiad cyntaf, yr oedd y Gweinidog hefyd o'r farn na fyddent efallai yn mynd yn ddigon pell o ran cynyddu cyfraddau rhoi, ac o ganlyniad cychwynnodd gyfres o ddadleuon cyhoeddus yng Nghymru yn ystod 2008 yn holi a ddylid newid y gyfraith sy'n ymwneud â rhoi organau. Yr oedd y dadleuon hyn yn cynnwys ystyried yr amrywiol opsiynau posibl ar gyfer cynyddu'r gyfradd roi, gan gynnwys:

dewis gorfodol, sy'n golygu y byddai'n rhaid i'r boblogaeth, yn ôl y gyfraith, optio i mewn neu optio allan o roi organau (system wirfoddol neu system sy'n rhwymo mewn cyfraith)

⁸ Mae ffiniau daearyddol y Bil yn seiliedig ar y man lle mae'r gweithgaredd trawsblannu'n digwydd, ond mae'r effaith ymarferol yr un peth.

⁹http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_082122

systemau caled o optio allan, sy'n golygu y byddai organau ar gael i'w trawsblannu ar ôl marwolaeth os nad oedd y sawl a fu farw wedi optio allan, ond na fyddai'r teuluoedd yn ymwneud o gwbl â'r penderfyniad, neu fawr ddim

systemau meddal o optio allan, sy'n golygu y byddai organau ar gael i'w trawsblannu ar ôl marwolaeth os nad oedd y sawl a fu farw wedi optio allan, ond y byddai'r teuluoedd yn dal i ymwneud yn llawn â'r broses.

15. Ym mis Tachwedd 2008, edrychodd y TRhO ar effaith bosibl system optio allan ar gyfer rhoi organau yn y DU a chyhoeddodd ei ail adroddiad, *The potential impact of an opt-out system for organ donation in the UK*.¹⁰ Yr oedd yr adroddiad hwn yn argymhell peidio â chyflwyno system optio allan ar yr adeg honno, gan ddewis canolbwyntio yn lle hynny ar wella'r trefniadau cyfredol, ond yr oedd yn argymhell y dylid edrych ar y sefyllfa unwaith eto ar ôl pum mlynedd. Edrychodd yr adroddiad hefyd ar ddewis gorfodol a systemau caled o optio allan, fel y nodwyd uchod, ond diystyriwyd y rhain yn y gred y byddai trefniadau o'r fath yn creu problemau ymarferol aruthrol, yn anodd eu gorfodi ac yn cefnu'n sylfaenol ar yr hyn sy'n arferol yn y DU.

16. Hefyd yn 2008, gwnaeth Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr adeg honno gynnal ymchwiliad i gydsyniad a ystyrir ar gyfer rhoi organau, ond eu hargymhelliad oedd na ddylai'r Cynulliad geisio cymhwysedd deddfwriaethol bryd hynny. Barn y Pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar fwrw ymlaen ag argymhellion y TRhO. Fodd bynnag, yr oedd y Pwyllgor yn argymhell y dylai unrhyw ystyriaeth a roddid i ddeddfwriaeth ym maes cydsyniad a ystyrir yn y dyfodol, fabwysiadu system feddal o optio allan lle y byddai ymgynghori â'r teuluoedd. Er bod yr adroddiadau hyn yn dyfarnu yn erbyn newid yn y gyfraith bryd hynny, yr oedd canlyniadau'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008 a 2009 yn dangos bod cefnogaeth ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i gamau posibl i gyfeiriad system optio allan ar gyfer cydsynio. Cafodd hyn ei atgyfnerthu mewn arolwg o 1,000¹¹ o bobl a gynhaliwyd gan y BBC/ICM ar Ddydd Gŵyl Dewi 2012 a oedd yn awgrymu bod tua dwy ran o dair o bobl Cymru o blaid newid o'r fath. Mae Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru¹² yn dangos bod lefel debyg o gefnogaeth am newid i'r gyfraith, yn ogystal ag ymwybyddiaeth gynyddol o gynigion Llywodraeth Cymru.

17. O ganlyniad i waith a wnaed gan GGCRhO a grwpiau cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU, ynghyd â mwy o gyhoeddusrwydd ynghylch rhoi

¹⁰

http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_090312.

¹¹ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-17226610> .

¹²

http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/publicattitudesorgandonation/?s_kip=1&lang=cy

organau, gwelwyd mwy o welliannau ers cyhoeddi adroddiad cyntaf y TRhO. Yn ôl ffigurau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, ers 2008, mae'r cyfraddau rhoi organau wedi cynyddu ychydig dros 34 y cant ar draws Cymru a Lloegr. Gwelwyd llwyddiant arbennig yng Nghymru, gyda chynnydd o 49 y cant yn nifer y rhoddwyr organau a fu farw yn ysbytai Cymru rhwng 2007/08 a 2011/12¹³. Fodd bynnag, mae ffigurau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG a roddwyd i Lywodraeth Cymru yn dangos bod cyfradd rhoi organau y DU yn parhau i fod yn isel gyda 16.4 fesul miliwn o'r boblogaeth (ffigurau 2010) o'i gymharu â 32 fesul miliwn o'r boblogaeth yn Sbaen, 30.7 fesul miliwn o'r boblogaeth yng Nghroatia a 30.2 yn Portiwgal¹⁴.

18. Er gwaetha'r gwelliannau hyn, mae tua 300 o bobl o hyd ar y rhestr aros weithredol am drawsblaniad yng Nghymru, ar unrhyw adeg ac yn 2011/12 bu farw 41 o breswylwyr Cymru wrth iddynt aros am drawsblaniad. Mae hefyd cryn dipyn o bryder bod terfynau o ran faint yn fwy y gellir ei gyflawni drwy barhau i weithredu yn yr un modd, ynghyd â phryderon y bydd y bwlch rhwng nifer y rhai sy'n rhoi organau a nifer y rhai sydd angen trawsblaniad yn tyfu hyd yn oed yn fwy os na chaiff camau pellach i ymyrryd yn y sefyllfa eu hystyried. Wrth gwrs, er bod llawer o waith ar y gweill i wella iechyd yn gyffredinol, mae poblogaeth sy'n heneiddio, datblygiadau ym myd meddygaeth a'r ffaith bod pobl yn byw yn hirach gyda chyflyrau cronig yn ffactorau sy'n awgrymu y bydd y galw am drawsblaniadau yn tyfu yn hytrach na lleihau yn y dyfodol.
19. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella cyfraddau rhoi yng Nghymru ac mae o'r farn y caiff hyn ei gyflawni drwy gyflwyno system feddal o optio allan o gydsynio i roi organau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y dystiolaeth sy'n ymwneud â dulliau eraill o gynyddu'r nifer sy'n cydsynio i roi organau. Yn wir, mae lluo o bwyllgorau wedi ystyried llawer o'r rhain, a thrafodwyd hwy'n gyhoeddus. Diystyriwyd yr opsiynau eraill hyn yn fuan, fodd bynnag. Er enghraifft, er nad oes amheuaeth y gallai ymdrechion pellach i gynyddu cyfraddau cydsynio fel rhan o'r system bresennol o optio i mewn arwain at gynnydd cyson, nid ydynt yn debygol o weddnewid agwedd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd nac arwain yn y pen draw at gynnydd sylweddol yn y gyfradd gydsynio. Mae'r opsiynau eraill naill ai'n anymarferol i'w gweithredu a'u gorfodi (dewis gorfodol) neu'n annerbyniol i'r cyhoedd o safbwynt diwylliannol (system galed o optio allan). Nid oes ychwaith ddigon o dystiolaeth ryngwladol i ddangos y byddant yn cael yr effaith a ddymunir. Mae'n credu felly fod yr amser wedi dod i newid yn y gyfraith er mwyn cyflwyno system feddal o optio allan, ynghyd â rhaglen addysg a chyfathrebu helaeth sy'n annog unigolion i wneud penderfyniad ac i sicrhau bod eu teuluoedd yn gwybod beth yw eu dymuniadau. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr organau sydd ar gael ar gyfer trawsblaniadau ac yn creu newid yn y gymdeithas yng Nghymru

¹³ Ffigurau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

¹⁴ Ffigurau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Ile y bydd cytuno i roi organau a meinweoedd yn rhywbeth normal yn hytrach na bod yn eithriad. Dylai cyflwyno system feddal o optio allan leihau'r bwlch rhwng nifer y bobl sy'n dweud y byddent yn fodlon rhoi organ a'r nifer gwirioneddol sy'n dod yn rhoddwyr.

20. Nid yw'n fwriad newid y ffordd y caiff yr organau a meinweoedd eu casglu neu eu dyrannu, a bydd y trefniadau presennol gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn parhau. Mae hynny'n golygu y bydd Cymru yn parhau i rannu rhestr aros am drawsblannu gyda gweddill y DU a chaiff yr organau eu dyrannu ar sail yr angen clinigol ac organ addas sy'n cydweddu. Mae preswylwyr Cymru wedi elwa o ganlyniad i fod yn rhan o drefniadau'r DU gyfan ers blynnyddoedd lawer ac nid oes unrhyw gynlluniau i newid hynny wrth i ni gyflwyno'r trefniadau newydd ar gyfer cydsynio i roi organau yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r organau¹⁵ a'r meinweoedd a roddir yn golygu, o ran organau, yr aren, y galon, yr afu/iau, yr ysgyfaint, y pancreas a'r coluddyn bach, ac o ran meinweoedd mae'r rhain yn golygu yr esgyrn, y croen, y genynnau, y menisgws, falfiau a phibelli'r galon, y llygaid ac, yn anfynych, y bibell wynt. Yn ymarferol, **nid** yw'r trefniadau presennol ar gyfer optio allan yn cynnwys mathau newydd o drawsblannu fel trawsblaniadau'r wyneb neu'r fraich. Yn gyfreithiol, nid ydynt ychwaith yn cynnwys y defnydd o feinweoedd y ffetws neu feinweoedd atgenhedlol. Bellach, mae'r Bil yn rhoi'r p e r i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi pa organau a fydd yn cael eu heithrio yn y trefniadau newydd ar gyfer cydsyniad a ystyrir. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno o ran egwyddor i wneud gorchymyn yn unol ag Adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n diwygio Adran 1 o Ddeddf 2004. Bydd hyn yn galluogi organau a meinweoedd sy'n cael eu hadalw o dan gydsyniad a ystyrir yng Nghymru i gael eu defnyddio ar gyfer trawsblaniad yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Amcanion

21. Prif nod y ddeddfwriaeth yw cynyddu nifer y rhoddwyr organau drwy gyflwyno system feddal o optio allan. Yn ei dro, bydd hyn yn caniatáu i fwy o drawsblaniadau organau ddigwydd, a bydd hynny, o ganlyniad yn atal marwolaethau diangen ac yn gwella ansawdd bywyd mwy o bobl. Mae'r dystiolaeth¹⁶ yn awgrymu y gallai cyflwyno system o'r math optio allan arwain at gynnydd o 25 i 30 y cant yng nghyfraddau rhoi organau pobl a fu farw, cynnydd a allai fod gyfystyr â chael 15 o roddwyr ychwanegol bob blwyddyn yng Nghymru, gyda phob un ohonynt, ar gyfartaledd (a hynny'n seiliedig ar ffigurau Adroddiad Gweithgareddau 2010/11 Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG), efallai yn rhoi 3 organ. Golyga hynny y gallai tua 45 o organau ychwanegol fod ar gael i gronfa'r DU ar gyfer trawsblaniadau.

¹⁵ Y diffiniad o 'organ' mewn rheoliadau cyfredol yw "a differentiated part of the human body, formed by different tissues, that maintains its structure, vascularisation and capacity to develop physiological functions with an important level of autonomy".

¹⁶ Abadie A, Gay G, *The impact of presumed consent legislation on cadaveric organ donation: A cross-country study*, Journal of Health Economics, 2006.

22. Mae'r Bil yn rhagnodi sut y mae cydsyniad i'w roi yng Nghymru ar gyfer tynnu, storio a defnyddio rhannau o gorff person sydd wedi marw – at ddibenion trawsblannu. Mae'r Bil yn ymdrin â materion rhoi organau a meinweoedd ar gyfer trawsblannu gan roddwyr marw a rhoddwyr sy'n dal yn fyw. O ran rhoddwyr marw, gall cydsyniad fod naill ai'n gydsyniad a ystyrir neu'n gydsyniad datganedig ac mae'n cynnwys pob agwedd ar y broses, gan gynnwys unrhyw baratoadau sy'n ofynnol cyn marwolaeth yn unol â chanllawiau moesegol a chyfreithiol presennol.
23. Mae rhai o ddarpariaethau Deddf 2004, sy'n ymwneud â chydsynio i weithgareddau trawsblannu, wedi cael eu hailddatgan yn y Bil, gyda rhai addasiadau. Ac eithrio bod cydsyniad a ystyrir yn gymwys yng Nghymru, nid oes unrhyw fwriad gan Lywodraeth Cymru i newid y gyfraith sefydlog yn y meysydd hyn.

Preswylid

24. Pan fydd rhywun yn marw yng Nghymru o dan amgylchiadau sy'n ei wneud yn rhoddwr posibl, bydd yn rhaid darganfod ym mhle yr oedd yr unigolyn yn byw er mwyn gwybod sut i fwrw ymlaen o ran cydsynio. Dim ond ar gyfer y rhai hynny sy'n byw, ac sy'n marw, yng Nghymru¹⁷ ac sydd wedi cael digon o amser i ddeall y gyfraith ac wedi cael cyfle i optio allan, os mai dyna yw eu dymuniad, y bydd y system feddal o optio allan yn gymwys. Mae cydsyniad a ystyrir felly yn berthnasol i bawb sy'n 18 oed a throsodd, sydd â'r galluedd meddyliol i ddeall y gellid ystyried bod cydsyniad wedi ei roi, sydd wedi bod yn preswylid fel arfer yng Nghymru am gyfnod o 12 mis o leiaf cyn iddynt farw, ac sy'n marw yng Nghymru. Ystyrir bod cyfnod o 12 mis yn ddigon o amser i bobl ddod i wybod am y trefniadau cydsyniad a ystyrir ac i gymryd camau i optio allan os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd y trefniadau cyfathrebu cychwynnol a pharhaol yn digwydd yn ddigon aml i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gyfraith sy'n berthnasol i Gymru. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn eithrio'n bendant unrhyw gategori o unigolyn ar sail lle mae'n preswylid e.e. pobl sy'n astudio yng Nghymru mewn prifysgol neu bobl sy'n ymweld â Chymru neu sy'n gweithio yng Nghymru am 12 mis neu fwy. Bydd ystyried a yw unigolion yn preswylid yng Nghymru yn dibynnu ar fodloni rhai meini prawf, a hefyd yn fater i'w drafod â'r rhai sydd agosaf atynt, ar ôl eu marwolaeth.
25. Mae angen iddi fod yn glir ac yn hawdd penderfynu a yw unigolyn yn byw yng Nghymru, o safbwynt y cyhoedd a'r GIG. Mae'r term "preswylid fel arfer" wedi ei ddefnyddio yn y Bil ond nid yw wedi ei ddiffinio. Y rheswm dros hyn yw bod angen asesu statws "preswylid fel arfer", a hynny'n bennaf ar sail ffaith a gradd. Mae'r cysyniad yn golygu cartref unigolyn mewn lle neu wlad benodol a fabwysiadwyd yn wirfoddol ac at bwrpas sefydlog a rhan o drefn reolaidd bywyd ar y

¹⁷ Fel y cyfeirir ato uchod dyma effaith ymarferol y ddeddfwriaeth, er bod y gyfraith yn gymwys drwy gyfeirio at y lle mae gweithgaredd trawsblannu'n digwydd.

pryd, boed hynny am dymor byr neu hir. Gallai pwrpas sefydlog gynnwys addysg, busnes, cyflogaeth, iechyd neu deulu. Yr unig beth angenrheidiol yw bod pwrpas byw mewn lle yn ddigon parhaol i gael ei ddisgrifio fel sefydlog, ac ar wahân i absenoldebau damweiniol neu dros dro. Yn ymarferol, rhaid i berson fodloni pob un o'r meini prawf mewn prawf tri cham er mwyn i ddarpariaethau adran 4 o'r Bil fod yn gymwys iddynt. Y meini prawf yw:

- a yw cyfeiriad presennol yr unigolyn yng Nghymru;
- a yw'r unigolyn, fel arfer, yn byw yn y cyfeiriad hwnnw am y rhan fwyaf o'r amser; ac
- a yw'r unigolyn wedi byw yn y cyfeiriad hwnnw (neu mewn cyfeiriad arall yng Nghymru) am 12 mis o leiaf cyn iddo farw.

26. Ar gyfer y pwynt cyntaf uchod, caiff cyfeiriad ei drin fel cyfeiriad yng Nghymru os yw'n dod o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae system yn cael ei defnyddio'n eang i chwilio am gyfeiriadau. Fe'i defnyddir er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth o ran a yw'r person yn preswyllo yng Nghymru neu beidio. Ni fydd yn dibynnu ar godau post yn unig, oherwydd nad yw codau post ardaloedd y ffin bob amser yn dilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr, er y byddai'r cod post yn cael ei defnyddio fel rhan o'r dynodydd. Yn ogystal, ni fyddwn yn dibynnu ar leoliad y Meddyg Teulu yr oedd y claf wedi ei gofrestru gydag ef. Rydym hefyd wedi ystyried defnyddio'r 22 o gofrestrau etholwyr yng Nghymru ond nid yw'n ymddangos eu bod yn gallu darparu tystiolaeth awdurdodol yn gl n â ble y mae unigolyn yn byw. Byddwn, fodd bynnag yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

27. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, dylai fod yn ddigon hawdd dod o hyd i dystiolaeth bod y ddau ofyniad arall wedi eu bodloni, a hynny drwy gofnodion meddygol a sgyrsiau gyda'r perthynas agosaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achosion lle nad yw mor hawdd penderfynu a yw person yn preswyllo yng Nghymru. I ddiogelu rhag unrhyw gamgymeriad, bydd unrhyw amheuan o ran a yw person yn bodloni meini prawf bob un o elfennau'r "prawf" tri cham yn cael eu gwirio mewn trafodaeth gyda'r perthynas agosaf. Os nad yw'n bosibl dangos bod y tri maen prawf wedi cael eu bodloni, nid oes modd bod yn gwbl sicr bod y person hwnnw'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, ac nid ystyrir felly bod cydsyniad wedi ei roi. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd modd trafod rhoi organau o hyd, ond gofynnir am gydsyniad datganedig person sydd â pherthynas gymhwysol â'r unigolyn yn lle hynny.

Cofrestru dymuniadau – materion cyffredinol

28. Y mater nesaf i'w benderfynu fyddai a oedd person wedi datgan dymuniad ynghylch rhoi organau. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod diogelwch a chywirdeb yr wybodaeth mewn perthynas â dymuniadau'r unigolyn yn hollbwysig a bydd yr egwyddorion hyn yn sail i'r gwaith o ddatblygu system i'w defnyddio ar gyfer y trefniadau

newydd. Caiff y dull tebygol o gofnodi dymuniadau unigolion sy'n byw yng Nghymru ei drafod o dan y Cynllun Gweithredu a Chyflenwi Manwl ym mharagraffau 56 i 71. Bydd system gofrestr newydd sy'n cipio naill ai ddymuniad unigolyn o ran rhoi organau, neu ddymuniad i beidio â rhoi organau. Bydd angen i'r system fedru cysylltu â threfniadau'r gofrestr ar gyfer gweddill y DU er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddymuniad yn mynd ar goll - er enghraifft, petai unigolyn yn symud i Gymru ond heb fynd ati i gofrestru â Meddyg Teulu. Bydd angen hefyd i'r system weithio i'r gwrthwyneb, ar gyfer y bobl hynny sy'n symud o Gymru. Bydd y gofrestr newydd hefyd yn cofnodi manylion cynrychiolwyr penodedig. Bydd hefyd yn bwysig bod y system yn gallu sicrhau nad oes unrhyw un wedi cofrestru dymuniadau sy'n gwrthdaro. Awgrymodd adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 mai'r ffordd orau o gyflawni'r holl ofynion hyn fyddai ailddatblygu'r CRhO yn eang, er mwyn diwallu anghenion deddfwriaethol holl rannau'r DU mewn modd integredig. Bydd y dull hwn o weithredu'n lleihau'r perygl o wallau yn y dyfodol. Cytunwyd ar ailddatblygu'r CRhO gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Fe gytunwyd hefyd, o ran egwyddor, y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 50% o gost ailddatblygu'r CRhO, gan rannu'r 50% sy'n weddill rhwng y gweinyddiaethau eraill yn y DU. Adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

Cydsynio - oedolion

29. Yn achos oedolion sy'n byw yng Nghymru, y sefyllfa ddiodyn fydd ystyried bod cydsyniad wedi ei roi ar gyfer gweithgaredd trawsblannu yng Nghymru oni bai:

ACHOS 1: bod yr unigolyn yn dal yn fyw, ac os felly mae angen ei gydsyniad datganedig – mae hyn yn cynnwys rhoi organ pan mae'n fyw (e.e. aren);

ACHOS 2: bod yr unigolyn wedi marw a'i fod wedi mynegi dymuniad – naill ai i roi organau neu i beidio â rhoi organau;

ACHOS 3: bod yr unigolyn wedi penodi cynrychiolydd i ddelio â'r mater o gydsynio i roi organau.

30. Mae'n bwysig tynnu sylw at Achos 3, os nad yw'r person penodedig yn gallu cydsynio, er enghraifft os nad oes modd cysylltu ag ef, yna nid ystyrir bod cydsyniad y claf wedi ei roi. Mewn sefyllfaoedd felly, Achos 4 fydd yn gymwys, a byddai'r penderfyniad ar gyfer rhoi cydsyniad yn mynd i'r perthnasau cymhwysol a restrir yn ôl trefn benodol.

31. Yn achos oedolion sy'n byw ac yn marw yng Nghymru, mae'r gyfraith newydd felly yn gwneud cydsyniad a ystyrir yn sefyllfa ddiodyn, oni bai bod un o'r achosion uchod yn gymwys. Nid ystyrir cydsyniad ar ei ben ei hun, ond o fewn cyd-destun ymgyrch gyfathrebu eang iawn a

ddisgrifir yn fanylach isod. Mewn gwirionedd felly, bydd oedolion sydd wedi byw yng Nghymru am o leiaf 12 mis yn cael tri dewis: peidio â chymryd unrhyw gamau (y sefyllfa ddiodyn, pan ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi); datgan dymuniad i roi organau (optio i mewn) neu ddatgan dymuniad i beidio â rhoi organau (optio allan). Bydd unigolion sy'n dymuno cofnodi dymuniad o blaid un o'r opsiynau hyn yn gallu gwneud hynny drwy drefniadau a fydd yn cael eu gwneud ar gyfer cofrestr. Fodd bynnag, mae dau amod sy'n ychwanegol at hyn. Mae'r amod cyntaf yn golygu y gall perthnasau cymhwysol neu gyfeillion ers amser maith wrthwynebu cydsyniad ar sail y ffaith eu bod yn gwybod na fyddai'r sawl a fu farw wedi cydsynio. Trafodir hyn yn adran 4(4) o'r Bil. Ceir trafodaeth bellach ar rôl y perthynas agosaf ar gyfer oedolion ym mharagraffau 41 i 44 isod. A'r ail amod yw bod y gweithgaredd trawsblannu'n cynnwys deunydd o'r math a nodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

32. Yn amlwg, mae'n hanfodol mewn system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi, bod unigolion yn cael digon o gyfle i ddatgan eu gwrthwynebiad, os dyna yw eu dymuniad. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i addysgu'r cyhoedd. Mae angen hefyd hyrwyddo'r syniad o roi organau yn fwy cyffredinol. Mae adran 2 o'r Bil yn gosod Gweinidogion Cymru nid yn unig o dan ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo trawsblannu er mwyn gwella iechyd pobl Cymru, ond hefyd o dan ddyletswydd fwy penodol arnynt i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer cydsyniad a ystyrir. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i gofrestru dymuniad. Mae'r ddyletswydd hon yn sail i ymgyrch eang i roi cyhoeddusrwydd ac i ymgysylltu (ennyn diddordeb) a fydd yn rhan o'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd ac ar ôl hynny. Bydd gosod y gofyniad hwn ar wyneb y ddeddfwriaeth yn sicrhau bod cyhoeddusrwydd parhaus ynghylch y trefniadau a hynny er budd y bobl sy'n symud i Gymru ac o Gymru, a'r bobl hynny sy'n troi'n 18 oed.

Cydsynio: plant

33. Mae cydsyniad a ystyrir yn gymwys i bobl dros 18 oed ac ni fydd yn gymwys i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn newid gallu person o dan 18 oed (y cyfeirir atynt yma fel plant neu bobl ifanc) i ddatgan dymuniad, yn ystod eu hoes, i fod yn rhoddwr organau neu beidio. Bydd y cynigion yn caniatáu i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r trefniadau cofrestr newydd i gofnodi eu dymuniad.
34. Yn ymarferol, os bydd plentyn neu berson ifanc yn marw o dan amgylchiadau lle y mae rhoi organau yn dod yn bosibl, bydd ei ddymuniad i gydsynio i roi organau neu i beidio â chydsynio yn cael ei wneud yn hysbys i'w deulu fel rhan o'r drafodaeth ar roi organau. Byddai'n arferol trafod gyda pherson sydd â chyfrifoldeb rhiant er mwyn cadarnhau a oedd y plentyn yn bodloni cymhwysedd "Gillick" i wneud y penderfyniad. Mae hyn yn golygu y dylai'r plentyn fod yn ddigon aeddfed i allu deall natur a chanlyniadau ei benderfyniad. Os na fydd

plentyn neu berson ifanc wedi datgan dymuniad i roi organau neu i beidio â'u rhoi, yna nid ystyrir ei fod wedi cydsynio. Bydd yn rhaid gofyn wedyn i'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sydd â pherthynas gymhwysol â'r unigolyn wneud y penderfyniad ynghylch rhoi organau.

35. Bydd y bobl ifanc hynny sy'n byw yng Nghymru ac sy'n nesáu at eu pen blwydd yn 18 oed yn cael eu hadnabod drwy systemau'r GIG a chysylltir â hwy chwe mis cyn hynny. Byddant yn cael gwybodaeth am y trefniadau fydd yn berthnasol iddynt hwy ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed – sef, oni bai eu bod wedi datgan nad ydynt yn dymuno rhoi organau, ystyrir eu bod wedi cydsynio i'w rhoi. Byddant yn cael digon o amser i benderfynu a ydynt am optio allan neu beidio. Bydd y bobl ifanc hynny sydd eisoes wedi datgan eu dymuniad i fod yn rhoddwyr organau neu i beidio â bod yn rhoddwyr yn cael eu hatgoffa o'u penderfyniad blaenorol ac yn cael eu hysbysu nad oes rhaid iddynt gymryd unrhyw gamau pellach, oni bai eu bod am newid eu meddwl.

Pobl nad yw'r gallu ganddynt

36. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cadarnhau bod rhaid cymryd bod gan unigolyn y gallu i wneud penderfyniadau os nad yw'r gwrthwyneb wedi ei brofi'. Cydnabyddir y gall pobl fod â'r galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am rai agweddau ar eu bywydau, ond nid am agweddau eraill; na fydd gan rai pobl byth y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw; y bydd rhai pobl yn colli eu galluedd meddyliol; ac yn achos pobl eraill, ei bod yn bosibl i'w galluedd meddyliol amrywio o bryd i'w gilydd.
37. Nid yw'r Bil yn newid gallu presennol unrhyw berson i ddatgan, yn ystod ei oes, ddymuniad i roi organau neu i beidio â'u rhoi. Bydd pobl yn gallu defnyddio trefniadau'r gofrestr newydd i ddatgan eu dymuniad. Wrth wneud hynny, ac yn union fel sy'n digwydd heddiw, ni chaiff galluedd meddyliol ei gwestiynu.
38. Dylid gwneud popeth posibl i hwyluso pethau i'r rhai nad yw'r gallu ganddynt i ddeall y gyfraith newydd ac i wneud penderfyniad yn sgil hynny. Bydd y pwyslais hwn ar hwyluso yn ystod oes unigolyn yn rhan o'n rhaglen gyfathrebu. Ar adeg marwolaeth yr unigolyn, os yw rhoi organau yn bosibilrwydd, yna mewn sefyllfa debyg i'r hyn a ddisgrifiwyd ar gyfer plant a phobl ifanc, caiff dymuniadau'r un sydd wedi marw eu gwneud yn hysbys i'w deulu fel rhan o'r drafodaeth ar roi organau. Pan fydd unigolyn nad oedd ganddo'r gallu i gydsynio wedi datgan dymuniad o blaid neu yn erbyn rhoi organau, nid ystyrir ei fod wedi cydsynio, oherwydd os oes unrhyw amheuaeth o ran a oedd y gallu ganddo i ddeall y gyfraith, fe allai hynny wneud cydsyniad o'r fath yn annilys. Mae'r Bil yn darparu y byddai'n rhaid i oedolyn sydd wedi marw wedi bod heb y gallu i gydsynio am gyfnod digon hir cyn iddo farw fel y byddai person rhesymol yn dod i'r casgliad y byddai'n amhriodol i gydsyniad gael ei ystyried. Cydnabyddir hefyd bod modd i'r

gallu hwn amrywio a bod angen i'r trefniadau fod yn hyblyg yn hytrach nag yn rhy benodol yn y ddeddfwriaeth. Felly, y dull mwyaf ymarferol o benderfynu ar allu unigolyn i gydsynio am y cyfnod gofynnol hwn fyddai cynnal trafodaeth â theulu'r unigolyn, gan ymdrin â'r materion hyn mewn modd sensitif, a hefyd adolygu'r cofnodion meddygol. Ni fydd hyn yn cynnwys asesiad ffurfiol o allu meddyliol rhywun, ond bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl trafod â'r rhai sydd agosaf at y sawl a fu farw. Byddem yn rhagweld y byddai cod ymarfer perthnasol gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn cwmpasu materion o'r fath. Yn dilyn trafodaeth â'r teulu, os teimlir nad oedd gan yr unigolyn y gallu i ddeall y cysyniad o gydsyniad a ystyrir, yna gofynnir i rywun sydd â pherthynas gymhwysol â'r unigolyn wneud y penderfyniad ynghylch rhoi organau.

Oedolion a eithrir

39. **Ni** fydd y trefniadau ar gyfer cydsyniad a ystyrir yn gymwys i unrhyw un o'r bobl ganlynol, sy'n cael eu hystyried yn oedolion a eithrir o dan y ddeddfwriaeth; sef, y bobl hynny:

nad ydynt wedi bod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am o leiaf 12 mis cyn eu marwolaeth;

nad yw'r gallu ganddynt i ddeall y gellid ystyried bod cydsyniad wedi ei roi, yn absenoldeb cysyniad datganedig (gweler uchod).

40. Ni phennwyd categorïau'r bobl y gellir eu heithrio oherwydd eu statws preswyllo, er enghraifft carcharorion, gan fod amgylchiadau'n amrywio'n eang ac y bydd angen gwneud asesiad. Bydd unigolion yn cael eu diogelu gan y bydd trafodaethau â theulu'r sawl a fu farw yn penderfynu a ydynt yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ai peidio. Am y rheswm hwn, yn ymarferol ni fydd pobl nad yw'n bosibl eu hadnabod a/neu nad oes modd cysylltu â'u perthynas agosaf, yn ddarostyngedig i gydsyniad a ystyrir, gan na fydd hi'n bosibl bodloni'r gofynion ynghylch preswyllo nac ychwaith gofynion eraill yn yr achosion hynny heb fod rhywun o'r teulu'n bresennol.

Rôl y teulu a chyfeillion ers amser maith o dan y trefniadau cydsyniad a ystyrir

41. Fel sy'n digwydd heddiw, mae'n hanfodol bwysig bod y perthynas agosaf yn cael ei gynnwys mewn unrhyw sefyllfa lle y gall rhoi organau fod yn bosibilrwydd. Mae hyn am resymau diogelwch ac ansawdd, a phrin iawn y gellir rhoi organau heb ei gyfraniad at y trafodaethau. Yr unig eithriad gwirioneddol yw pobl sydd wedi cydsynio drwy ymuno â'r Gofrestr Rhoi Organau ond sydd heb deulu. Mewn sefyllfa o'r fath, gall staff y GIG wneud asesiad risg er mwyn penderfynu a ellir bwrw ymlaen â rhoi organau. Mae'n bwysig mynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol am roi'r organau. O dan y system bresennol, yn gyfreithiol, dymuniadau'r sawl a fu farw (os ydynt yn hysbys) sy'n cael

blaenoriaeth. Yr unig adeg, o dan y trefniadau presennol, y gall y perthynas agosaf wneud y penderfyniad yw pan nad oes neb yn gwybod beth oedd dymuniad y sawl a fu farw. Yn ymarferol, bydd teuluoedd yn cael gwybodaeth am roi organau, gan gynnwys a yw'r sawl a fu farw wedi datgan dymuniad i roi ei organau, a gofynnir iddynt a ydynt yn barod i gytuno i hynny.

42. O dan y trefniadau newydd, bydd y teulu'n parhau i fod yn gysylltiedig â'r broses mewn modd ymarferol, gan y bydd gofyn o hyd i'r perthynas agosaf gadarnhau manylion am iechyd a ffordd o fyw'r sawl a fu farw, manylion efallai nad oeddent yn eu cofnodion meddygol ac a fyddai'n gallu effeithio ar ba mor addas yw'r un sydd wedi marw i fod yn rhoddwr organau. O ran cydsynio i roi organau, y sawl a fu farw ddylai fod wedi penderfynu naill ai i optio i mewn, optio allan neu ystyried bod ei gydsyniad wedi ei roi – dymuniadau'r sawl a fu farw sy'n hollbwysig. Dylai dymuniadau'r sawl a fu farw, boed yn gydsyniad a ystyrir neu gydsyniad datganedig, gael eu gwneud yn hysbys i'r teulu gan staff y GIG fel rhan o'r trafodaethau. Yn achos cydsyniad a ystyrir, mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r hawl i berthnasau neu gyfeillion ers amser maith gael yr hawl i wrthwynebu'r cydsyniad os gwyddont na fyddai'r sawl a fu farw wedi cydsynio.
43. Un o brif negeseuon yr ymgyrch addysgu a fydd yn mynd law yn llaw â'r ddeddfwriaeth newydd, fydd sicrhau bod unigolion yn sôn wrth eu teuluoedd beth yw eu dymuniad o ran rhoi organau, oherwydd yr hyn sy'n atal llawer o deuluoedd rhag bod yn rhan o'r broses rhoi organau yw ansicrwydd am beth oedd dymuniad eu perthynas. Canlyniad hynny wedyn yw bod derbynnnydd posibl yn colli'r cyfle i gael organ newydd iach.
44. Er mwyn helpu i ddeall effaith y Bil o ran rôl y perthynas agosaf, mae'r gwahanol sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag oedolion sy'n byw ac yn marw yng Nghymru wedi eu nodi isod. Nid yw'r sefyllfaoedd yn cwmpasu cwestiwn galluedd meddyliol nac ychwaith beth sy'n digwydd yn achos plant, oherwydd mae'r rhain wedi cael eu hesbonio ym mharagraffau 33 i 38:

A: Pan na fydd yr un sydd wedi marw wedi cofrestru unrhyw ddymuniad yngl n â rhoi organau (y sefyllfa ddiodyn) ac ystyrir eu bod yn cydsynio: Yn y sefyllfa hon, ystyrir bod yr unigolyn sydd wedi marw wedi cydsynio i roi organau am ei fod wedi cael cyfle i ddatgan dymuniad i beidio â rhoi organau (optio allan) ond heb wneud hynny. Fodd bynnag, mae adran 4(4) o'r Bil yn darparu y bydd perthynas neu ffrind yn gallu gwrthwynebu'r cydsyniad ar sail y ffaith eu bod yn gwybod na fyddai'r sawl a fu farw wedi cydsynio i roi organau. Er enghraifft, gallai'r sawl a fu farw fod wedi trafod y mater â nhw ac wedi datgan barn yn nodi nad oedd yn dymuno rhoi organau. Dylai'r wybodaeth a roir gan y perthynas neu'r ffrind sy'n gwrthwynebu fod yn ddigonol i berson rhesymol dderbyn eu bod yn gwybod na fyddai'r sawl a fu farw wedi cydsynio i roi organau. Nid

oes bwriad i bennu math ac ansawdd yr wybodaeth a fydd yn bodloni'r gofyniad hwn oherwydd mai mater i'w bwysu a'i fesur ym mhob achos unigol fydd hynny. Bydd hyn yn cael ei gynnwys ymhellach yng nghod ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol.

Pan na fydd perthynas neu ffrind yn gwrthwynebu'r cydsyniad drwy gynnig gwybodaeth o'r fath am ddymuniadau'r sawl a fu farw, yna byddant yn y sefyllfa o wybod nad yw wedi optio allan, ac nad yw wedi gwneud unrhyw ddymuniadau pellach yn hysbys. Yn yr achosion hyn, y sefyllfa ddiodyn yw bod y sawl a fu farw o blaid rhoi organau ac, yn ôl y gyfraith, bydd hyn gydsyniad a ystyrir. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd rhoi organau yn bwrw ymlaen yn awtomatig gan y bydd trafodaeth wedyn gyda'r teulu ynghylch y broses o roi organau, gan gynnwys hanes meddygol y sawl a fu farw. Mae gan dimau clinigol hefyd gyfrifoldeb i fod yn sensitif i safbwyntiau a chredoau'r perthnasau sy'n fyw yn unol â chanllawiau arfer da. Mae hyn yn golygu na fyddai timau clinigol yn ychwanegu at drallod teuluoedd. Mae'n bwysig bod yn gwbl glir, fodd bynnag, nad oes gan deuluoedd fetu gyfreithiol oherwydd yn ôl y gyfraith cydsyniad a ystyrir y sawl a fu farw a gaiff flaenoriaeth.

Ystyriwyd a ddylai enwau'r perthnasau neu'r cyfeilion hynny sy'n gallu gwrthwynebu cydsyniad a ystyrir gael eu rhoi ar restr gyfyngedig yn ôl trefn benodol, er mwyn osgoi anghytundeb o fewn teuluoedd. Fodd bynnag, ystyriwyd y dylai unrhyw berthynas neu gyfaill ers amser maith allu gwrthwynebu cydsyniad ar sail safbwyntiau'r sawl a fu farw, gan mai ansawdd yr wybodaeth a ddarperir yw'r peth pwysicaf, yn hytrach na phwy sy'n ei darparu. Yr unig adeg y bydd perthnasau'n cael eu gosod mewn trefn benodol ar y rhestr yw pan roddir cydsyniad datganedig, ar ran plentyn neu oedolyn a eithrir, neu os na fydd cynrychiolydd penodedig yn gallu gwneud penderfyniad.

B: Pan fydd yr un sydd wedi marw yn cofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr organau (optio i mewn): Yn y sefyllfa hon, mae'r unigolyn sydd wedi marw wedi cydsynio'n bendant i roi rhai neu bob un o'i organau ac, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd pan fydd rhywun yn ymuno â'r CRhO, caiff y perthynas agosaf wybod am ei ddymuniadau a bydd hyn yn rhan o'r trafodaethau ynghylch rhoi organau. Mae ystyriaethau yngl n â bod yn sensitif i safbwyntiau a chredoau'r perthnasau sy'n dal yn fyw yr un fath â'r rhai a ddisgrifiwyd uchod, ynghyd â'r ffaith mai, yn gyfreithiol, dymuniadau'r sawl a fu farw sy'n cael blaenoriaeth. Os na fyddai'r organau yn cael eu rhoi, a hynny'n groes i ddymuniadau datganedig y sawl a fu farw, yna rydym yn ystyried y posibilrwydd o ofyn i'r perthynas agosaf lofnodi ffurflen i'r perwyl ei fod wedi deall y sefyllfa. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa bresennol yn yr Alban.

C: Pan fydd yr un sydd wedi marw yn cofnodi penderfyniad i beidio â bod yn rhoddwr organau (optio allan): Yn y sefyllfa hon, mae'r sawl a fu farw wedi datgan ei ddymuniad i beidio â rhoi

organau ac mae'n rhaid derbyn y penderfyniad hwnnw. Dywedir wrth y teuluoedd fod eu perthynas wedi optio allan ac felly ni fyddai'n bosibl rhoi organau. Dim ond os bydd y perthynas agosaf yn dangos tystiolaeth ysgrifenedig, wedi ei llofnodi gan yr un sydd wedi marw, yn nodi ei fod wedi newid ei feddwl, a bod y dystiolaeth honno wedi ei dyddio ar ôl dyddiad cofrestru'r dymuniad i beidio â rhoi organau ar y gofrestr, y gellid derbyn hynny fel cydsyniad y sawl a fu farw, cydsyniad a oedd mewn grym yn union cyn marwolaeth yr unigolyn. O dan yr amgylchiadau hyn, gellid ystyried rhoi'r organau. Mae hefyd yn debygol y byddai'n rhaid gofyn i'r perthynas agosaf lofnodi ffurflen i'r perwyl ei fod wedi deall y sefyllfa.

Oedolion sy'n byw y tu allan i Gymru ond sy'n marw yng Nghymru

45. **Ni** fydd y bobl sy'n marw yng Nghymru (sy'n golygu y byddai'r gweithgaredd trawsblannu'n digwydd yng Nghymru) ond nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r trefniadau ar gyfer cydsyniad a ystyrir.
46. Ym mhob achos, caiff cyfeiriad yr unigolyn sydd wedi marw ei wirio fel y disgrifiwyd ym mharagraffau 25 i 27. Pan fydd y cofnod yn dangos nad oedd yr unigolyn yn byw yng Nghymru a bod y perthynas agosaf yn cadarnhau ei fod yn byw yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, edrychir ar yr CRhO. Pan fo enw'r person ar yr CRhO, golyga hynny bod y sawl a fu farw wedi cydsynio i roi ei holl organau, neu rai ohonynt, a bydd y teulu yn cael gwybod am hyn ac yn rhan o'r drafodaeth am roi organau.
47. Os nad yw enw'r person ar yr CRhO, neu os nad ydynt yn breswylwyr y DU, yna gofynnir i'r perthynas agosaf a yw'n barod i ddatgan ei gydsyniad (hynny yw, rhoi "cydsyniad datganedig") i roi'r organau.

Oedolion nad ydynt wedi byw yng Nghymru yn ddigon hir

48. Pan fydd y cofnod yn dangos bod yr unigolyn sydd wedi marw wedi byw yng Nghymru, ond bod sgysiau â'r teulu yn dangos ei fod wedi byw yma am lai na 12 mis, **nid** ystyrir fod yr unigolyn yn cydsynio am fod y Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i bobl fod wedi preswylio fel arfer yng Nghymru am o leiaf 12 mis cyn marwolaeth er mwyn i'r ddarpariaeth honno fod yn gymwys. Bydd y gofrestr yn dal i gael ei gwirio i weld a oedd yr unigolyn wedi cofnodi ei ddymuniad yn y cyfamser.
49. Pan fydd enw person yn ymddangos fel rhoddwr organau ar y gofrestr neu ar yr CRhO, bydd y teulu'n cael gwybod am hyn ac yn rhan o'r drafodaeth am roi organau.
50. Os bydd person eisoes wedi datgan ei ddymuniad ar y gofrestr i beidio â bod yn rhoddwr organau, yna byddai'r teulu'n cael gwybod am hynny ac ni fyddai organau'n cael eu rhoi, fel yn achos 44C uchod. Os nad yw

enw'r unigolyn ar y gofrestr o gwbl, yna gofynnir i'r perthynas agosaf a yw'n barod i gydsynio i'r organau gael eu rhoi.

Pobl sy'n byw yng Nghymru ond sy'n marw yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon

51. Os bydd rhywun sy'n preswyllo yng Nghymru yn marw yn yr ysbyty yn Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon, byddai darpariaethau presennol Deddf 2004 yn gymwys. Os bydd rhywun sy'n preswyllo yng Nghymru yn marw yn yr Alban, darpariaethau presennol Deddf Meinweoedd Dynol (Yr Alban) 2006 fydd wedyn yn gymwys. Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod staff y GIG yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymwybodol o'r trefniadau yng Nghymru ac yn edrych ar drefniadau newydd y gofrestr i weld a oedd y person wedi datgan dymuniad naill ai i roi ei organau a'i feinweoedd, neu i beidio â'u rhoi. Y rheswm am hyn yw y bydd y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru o dan y ddeddfwriaeth newydd yr un mor ddilys o dan y ddeddfwriaeth sy'n weithredol yng ngwledydd eraill y DU. Pan fydd rhywun sy'n preswyllo yng Nghymru yn marw yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon a'i fod heb ddatgan unrhyw ddymuniad ynagl n â rhoi organau, ni fydd yn bosibl ystyried bod yr unigolyn hwnnw wedi cydsynio i roi organau yn yr un modd ag y byddai petai wedi marw yng Nghymru. Mewn achosion o'r fath, gofynnir i'r perthynas agosaf a yw'n barod i gydsynio bod yr organau yn cael eu rhoi.

Pobl sy'n symud o Gymru

52. Mae'n bosibl y gallai person symud o Gymru, gan adael eu penderfyniad i optio allan ar y gofrestr. Mae hyn yn golygu y bydd angen i staff y GIG ledled y DU fod yn ymwybodol o'r gyfraith yng Nghymru a bydd angen i'r broses sicrhau bod y staff hynny yn ymwybodol o unrhyw benderfyniad a gofnodwyd tra oedd y person yn byw yng Nghymru. Y rheswm am hynny yw y bydd dymuniad sydd wedi ei ddatgan i roi organau neu i beidio â rhoi organau yn parhau i gael effaith o dan y ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu rhannau eraill o'r DU, hyd yn oed os nad yw'r person hwnnw yn byw yng Nghymru mwyach.

Defnyddio organau ar gyfer trawsblannu

53. Mae'n fwriad i organau, a roddir yng Nghymru o dan y drefn lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi, gael eu neilltuo ar gyfer eu trawsblannu ar draws y DU. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno mewn egwyddor i wneud gorchymyn sy'n diwygio adran 1 o Ddeddf 2004 fel bod modd i organau, a adferir o dan y drefn lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi yng Nghymru, gael eu defnyddio'n gyfreithlon yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

54. Bydd yn wir hefyd bod organau sy'n cael eu rhoi yn Lloegr neu yn unrhyw le arall yn gallu dod i Gymru at ddibenion trawsblannu (ar hyn o

bryd, yn achos organau solet, dim ond trawsblaniadau pancreas a'r arennau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru, a hynny yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Caiff yr holl drawsblaniadau organau eraill ar gyfer pobl sy'n preswyllo yng Nghymru, sef y galon, yr afu (iau), yr ysgyfaint etc. eu gwneud yn Lloegr).

Canllawiau

55. Bydd y canllawiau sy'n ymwneud â darpariaethau'r Bil yn cael eu nodi yn y codau ymarfer sy'n cael eu llunio gan yr awdurdod cyfrifol (sef, ar hyn o bryd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol). Caiff y cod(au) ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Bil yn nodi'r ddarpariaeth hon yn adran 14 ac 15. Mae swyddogion o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda swyddogion cyfatebol yn yr Awdurdod Meinweoedd Dynol mewn perthynas â ffurf a chynnwys y cod(au), ac mae drafft dros dro wedi ei ddarparu i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Cynllun Gweithredu a Chyflenwi manwl

Yr Amserlenni ar gyfer gweithredu

56. Mae'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r Bil i'w gweld ar ôl paragraff 76. O ran gweithredu'r trefniadau newydd, bydd cyfnod arweiniol o ddwy flynedd o leiaf o'r adeg y bydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn 2013 i'r adeg y daw'r Ddeddf i rym yn 2015. Mae angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cael ei chynnal ar raddfa fawr, fel yr amlinellir isod, er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt, ac er mwyn sicrhau bod systemau cadarn yn cael eu datblygu i gipio dymuniadau dinasyddion Cymru, mewn ffordd sy'n gywir a diogel.

Cyfathrebu â'r cyhoedd

57. Mae adran 2 o'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am drawsblannu, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cydsyniad a ystyrir. Bydd ymgyrch eang i roi cyhoeddusrwydd i'r mater ac i ymgysylltu yn rhan o'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd a thu hwnt i hynny. Yn ystod trafodion Cyfnod 2 rhoddodd y Gweinidog ei ymrwymiad i ddiwygio'r Bil fel bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o leiaf unwaith bob 12 mis, ac i ystyried a ddylid rhoi adroddiad blynyddol i'r Cynulliad am y gweithgareddau hynny.
58. Mae Strategaeth Gyfathrebu fanwl wedi ei llunio er mwyn cyflenwi'r ymgyrch y mae ei hangen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae hyn yn cwmpasu ymgyrch gyfathrebu gychwynnol am bum mlynedd i roi cyhoeddusrwydd i gyflwyno'r ddeddfwriaeth ac egluro'r dewisiadau fydd ar gael i bobl Cymru. Mae'r Strategaeth yn cydnabod ei bod yn hanfodol targedu cynulleidfaoedd gwahanol a holl sectorau'r gymuned.
59. Mae'r Strategaeth Gyfathrebu yn nodi pedwar cyfnod ar gyfer yr ymgyrch ymwybyddiaeth. Wrth i ddyddiad gweithredu'r ddeddfwriaeth agosáu, bydd y gweithgarwch cyfathrebu'n dwysáu. Nodwyd hefyd bumed cyfnod ar gyfer gofynion cyfathrebu hirdymor y bydd eu hangen am gyfnod hir ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym.
60. Isod mae tabl sy'n dangos y gwahanol gyfnodau cyfathrebu, trosolwg o'r gweithgareddau ac amlinelliad bras o'r dulliau cyfathrebu sy'n debygol o gael eu defnyddio. Fodd bynnag mae'n bwysig pwysleisio y caiff y dulliau cyfathrebu a'r negeseuon eu profi'n drwyadl ymlaen llaw gyda sampl cynrychioliadol o'r boblogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. Mae'r ymchwil hon yn golygu efallai y caiff y dulliau cyfathrebu a amlinellir isod eu haddasu i sicrhau bod yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd mor effeithiol â phosibl.
61. Mae'n bwysig nodi hefyd y caiff y gweithgaredd cyfathrebu ei fesur am ei effeithiolrwydd yn rheolaidd yn ystod yr ymgyrch bum mlynedd. Bydd hyn yn profi ymwybyddiaeth y boblogaeth, eu dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'u hagweddau tuag ati. Mae'r arolwg yn sampl cynrychioliadol o tua 1000 o bobl a gofynnir set graidd o gwestiynau bob tro. Felly gallwn olrhain unrhyw newidiadau o ran canfyddiadau'r boblogaeth ac addasu'r strategaeth gyfathrebu yn unol â hynny. Cynhaliwyd y don gyntaf o'r ymchwil (y llinell sylfaen) ym mis Mehefin 2012, cyn cyhoeddi'r Bil Drafft, a'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar 19 Hydref 2012. Bydd yr ail gam yn dechrau ym mis Mehefin 2013.

Cyfnod	Trosolwg o'r Gweithgareddau	Dulliau Cyfathrebu Posibl
---------------	------------------------------------	----------------------------------

<p>Hyd nes y ceir Cydsyniad Brenhinol</p>	<p><i>Lledaenu</i> Lledaenu manteision y ddeddfwriaeth ochr yn ochr â'r gwaith o addysgu pobl yn raddol ynghylch y broses gyffredinol o roi organau, ynghyd ag annog rhagor o bobl i ymuno â'r CRhO</p>	<p>Cysylltiadau Cyhoeddus: Gweithgarwch rheolaidd a rhagweithiol gan y cyfryngau yn y DU, yng Nghymru gyfan ac yn rhanbarthol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broses ddeddfwriaethol yn ogystal â phwysigrwydd rhoi organau. Mae'r cysylltiadau cyhoeddus yn ddiweddar wedi canolbwyntio ar brofiadau go iawn amrywiaeth o bobl, er mwyn dangos effaith trawsblannu.</p> <p>Ymgysylltiad Uniongyrchol: Mae rhaglen o ymgysylltiad uniongyrchol â chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a grwpiau Ffydd ledled Cymru wedi bod yn parhau, er mwyn nid yn unig godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ond hefyd lywio datblygiad gwybodaeth hygyrch. Nodwyd grwpiau 'anodd eu cyrraedd' eraill, ac mae ymgysylltiad parhaus â sefydliadau cynrychioliadol hefyd yn parhau i sicrhau ymwybyddiaeth ymysg y grwpiau hyn. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y 5 mlynedd.</p> <p>Mae sioeau teithiol sy'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd wedi bod yn ddull effeithiol hefyd o gysylltu wyneb yn wyneb â'r cyhoedd i hybu'r CRhO, cael gwared ar unrhyw fythau am roi organau, trafod manylion penodol am y ddeddfwriaeth ac ateb cwestiynau oddi wrth aelodau o'r cyhoedd.</p> <p>Mae gwybodaeth am y ddeddfwriaeth ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk/rhoiorganau a www.wales.gov.uk/organdonation</p> <p>Ymchwil a Datblygu: Datblygu a phrofi deunyddiau creadigol ar gyfer yr ymgyrch fawr a fydd yn mynd yn fyw ar ôl Cydsyniad Brenhinol.</p>
<p>Ar ôl y</p>	<p><i>Cyhoeddi</i></p>	<p>Yn ychwanegol at y cyfnod blaenorol,</p>

<p>Cydsyniad Brenhinol – y dyddiad i'w gadarnhau</p>	<p>Cyfnod byr i gyhoeddi bod y gyfraith wedi'i phasio a chyfnod gweithredu a fydd yn cychwyn ochr yn ochr ag ymgyrch ddwy flynedd i godi ymwybyddiaeth.</p>	<p>bydd y dulliau canlynol yn cael eu defnyddio:</p> <p>Cysylltiadau Cyhoeddus: Ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus a drefnwyd i nodi sut y caiff y system newydd ei gweithredu, amserlenni ar gyfer y cyhoedd a'r camau y bydd angen eu cymryd pan fydd y systemau yn eu lle. Bydd hyn yn cynnwys cyfryngau'r DU gyfan, nid Cymru'n unig.</p> <p>Gwybodaeth ar-lein: Lansio gwefan bwrpasol am roi organau yng Nghymru, a gaiff ei defnyddio fel un o'r prif ddulliau sy'n galw ar bobl i weithredu drwy'r ymgyrch, ac a fydd yn fan lle y gall pobl gael gwybodaeth ychwanegol am y ddeddfwriaeth.</p> <p>Rhanddeiliaid: Gweithgareddau ar y cyd â rhanddeiliaid i egluro'r broses weithredu. Bydd cydweithio â rhanddeiliad sy'n cynrychioli grwpiau o bobl sy'n anodd eu cyrraedd yn arbennig o bwysig, er mwyn sicrhau bod y rhai hynny nad ydynt yn cael mynediad i'r cyfryngau traddodiadol yn cael gwybod am y newidiadau arfaethedig.</p> <p>Yr ysgol: Gwybodaeth i bobl ifanc drwy'r ysgolion / system addysg.</p>
<p>O adeg cyhoeddi'r Cydsyniad Brenhinol i'r Cyfnod Gweithredu</p>	<p><i>Gwybodaeth</i> Bydd y cyfnod gwybodaeth yn dweud beth yn union a fydd angen i bobl ei wneud. Bydd yn rhoi gwybodaeth fanylach i bobl a dewisir y cyfryngau er mwyn cynnig cymaint o gyfleoedd ag sy'n bosibl i bobl fedru</p>	<p>Yn ogystal â'r dulliau a ddefnyddiwyd mewn cyfnodau blaenorol bydd hysbysebion y telir amdanynt yn cael eu hychwanegu i helpu i sicrhau sylw i'r ddeddf newydd.</p> <p>Hysbysebion y telir amdanynt: Gall y rhain gynnwys y wasg leol, radio masnachol, ar-lein/digidol, hysbysebu yn yr awyr agored gan gynnwys ar fysiau a chyfryngau ategol.</p>

	<p>cnoi cil arnynt. Bydd yn cynnwys sawl cyfnod o hysbysebu mewn nifer o gyfryngau a byddant yn cynyddu o ran dwyster. Bydd y cyfnodau dwys o hysbysebu yn digwydd yn rheolaidd ac yn para sawl wythnos.</p> <p>Bydd yr hysbysebu'n digwydd dros 2 flynedd gyda 3-4 cyfnod o weithgarwch. Bydd y cyfnod cyntaf yn cynnwys negeseuon codi ymwybyddiaeth fel bod pobl yn gwybod y bydd y gyfraith yn newid. Bydd cyfnodau 3 neu 4 yn newid i gynnwys manylion am sut y gall pobl gofrestru eu dymuniadau cyn y gweithredu.</p> <p>Mae amseriad yr hysbysebu'n debygol o fod fel a ganlyn:</p> <p>Cyfnod hysbysebu 1 (4-6 mis ar ôl y cyhoeddiad)</p> <p>Cyfnod hysbysebu 2 (6 mis yn ddiweddarach)</p> <p>Cyfnod hysbysebu 3 (6 mis yn ddiweddarach)</p> <p>Cyfnod hysbysebu 4 (1 mis cyn gweithredu)</p> <p>Hysbysebion na thelir amdanynt: Gwybodaeth sy'n cael ei dosbarthu drwy bartneriaethau ag awdurdodau lleol. Sefydliadau GIG, grwpiau ffydd a rhanddeiliaid eraill a fydd yn ein helpu ni i gyrraedd y rheini nad ydynt o bosibl yn gweld/clywed/cael mynediad i'r cyfryngau traddodiadol.</p> <p>Bydd adnoddau ar gael drwy'r wefan bwrpasol mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch a gwahanol ieithoedd i'w defnyddio gan bartneriaid a rhanddeiliaid.</p> <p>Bydd gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus, gan gynnwys sioeau teithiol a'r cyfryngau cymdeithasol yn rhai parhaol.</p> <p>Bydd ymgysylltiad uniongyrchol ag amrywiaeth o gymunedau a rhanddeiliaid yn parhau yn ystod yr amser hwn, er mwyn sicrhau ein bod</p>
--	---

		<p>yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl (pobl ifanc, myfyrwyr, pobl hyn, yr anabl, carcharorion, cymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl sydd ar ymylon cymdeithas).</p> <p>Gohebiaeth uniongyrchol: Mae'n bwysig ein bod yn cyrraedd pob aelwyd yng Nghymru. Yn ogystal â'r hysbysebion, y ffordd arall o sicrhau hyn yw anfon taflen wybodaeth yn uniongyrchol i bob aelwyd ledled Cymru. Bydd hyn yn digwydd naill ai yn ystod cyfnod 3 neu gyfnod 4. Yn dilyn rhoi'r system newydd ar waith bydd yn bwysig anfon neges i atgoffa'r rhai hynny a allai fod wedi colli neu daflu ar hap y daflen wybodaeth gyntaf, neu er mwyn atgoffa'r rhai hynny na wnaeth ddim byd ar ôl derbyn y daflen wybodaeth gyntaf</p>
Y cyfnod gweithredu, a 6 mis ar ôl gweithredu	<p><i>Gweithredu'r Ddeddfwriaeth</i> Cyn gynted ag y bydd y system newydd yn cael ei gweithredu bydd yr holl gyfathrebu a'r hysbysebion yn newid eu neges er mwyn sicrhau bod pob un yn sylweddoli bod y system optio allan newydd yn weithredol.</p>	<p>Bydd yr ymgyrch i hysbysu'r cyhoedd yn parhau i fod yr un mor ddwys am y 4-8 wythnos gyntaf er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod sut i gofrestru eu dymuniadau ac i sicrhau bod pobl yn gwybod bod y system newydd ar waith. Bydd y dulliau'n parhau fel uchod.</p> <p>Wrth i amser fynd yn ei flaen, bydd yr ymgyrch yn lleihau o ran ei dwyster a bydd yn parhau i atgoffa pobl drwy dulliau cyfathrebu sy'n hirhoedlog, fel safleoedd posteri mewn meddygfeydd, ysbytai, fferyllfeydd, hysbysebion tu allan.</p> <p>Bydd Cysylltiadau Cyhoeddus yn parhau drwy'r DU, a'r cyfryngau yng Nghymru ac yn lleol. Efallai y bydd rhai opsiynau hysbysebu'n parhau am hyd at 6 mis, a bydd eraill yn parhau am gyfnod hirach.</p>
Y tymor hir	<p><i>Cyfnod Atgoffa</i> Nod y cyfnod hwn</p>	<p>Fel yr uchod, caiff y dulliau eu dewis o ran hirhoedledd a chael cymaint o</p>

	<p>fydd cyfathrebu ar gyfer y tymor hir, a gwneir hynny bob 6 mis.</p>	<p>sylw â phosibl, fel dosbarthu posteri drwy'r awdurdodau lleol a thrwy leoliadau'r GIG. Gellir defnyddio rhai safleoedd sydd angen talu amdanynt hefyd er mwyn arddangos posteri'n rheolaidd.</p> <p>Caiff yr opsiynau canlynol eu harchwilio ar gyfer gwybodaeth hirdymor, reolaidd sy'n helpu i gyrraedd preswylwyr newydd a'r rhai sy'n cyrraedd 18 oed:</p> <p>Cyfleoedd drwy'r cwricwlwm ysgolion Cofrestru gyda meddygon teulu ar gyfer cofrestrwyr newydd a rhybuddion i'r rhai sydd ar fin cyrraedd eu 18fed pen-blwydd Prifysgolion a cholegau Cymru Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Negeseuon e-bost drwy UCAS i'r holl fyfyrwyr mewn prifysgolion sy'n dewis astudio yng Nghymru Yr Awdurdodau Lleol – gohebiaeth reolaidd fel biliau treth gyngor Gwybodaeth drwy Asiantaethau Tai yng Nghymru Gwybodaeth yn cael ei dosbarthu drwy gyflogwyr mawr ar gyfer recriwtwyr newydd o'r tu allan i Gymru. Gwybodaeth drwy'r Lluoedd Arfog</p>
--	--	--

Cofnodi dymuniadau – y manylion

62. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r egwyddorion o ran sut yr ydym yn bwriadu cofnodi dymuniadau unigolion. Y prif fwriad yw cael system sydd:

yn saff,
yn ddiogel,

yn ddibynadwy,
yn gynaliadwy ac
yn ddigon hyblyg i fedru ymdopi â symudiadau arferol o fewn y boblogaeth.

63. Bydd un system gofrestr i gofnodi a yw'r unigolyn wedi mynegi dymuniad o blaid neu yn erbyn rhoi organau.
64. Bydd y system gofrestr newydd hefyd yn gallu cofnodi penderfyniadau "rhannol", sef os yw person yn dymuno rhoi rhai o'i organau ond nid bob un. Ni fydd y bobl hynny sy'n penderfynu peidio â datgan dymuniad o blaid neu yn erbyn rhoi organau yn cael eu cynnwys ar y gofrestr.
65. Roedd adolygiad o systemau cofrestru yn 2012 yn argymhell mai'r dull gorau o ddatblygu trefniadau'r gofrestr newydd fyddai ailddatblygu'r CRhO fel y gall gynnig ei swyddogaethau cyfredol i bobl y tu allan i Gymru, a rhoi cyfle i bobl yng Nghymru i optio allan. Bellach, cytunwyd ar hyn gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a gweinyddiaethau datganoledig yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y system yn caniatáu i berson sy'n byw yng Nghymru gofnodi dymuniad i beidio â bod yn rhoddwr (optio allan). Gweler paragraff 52 uchod ar gyfer pobl sy'n symud o Gymru.
66. Bydd ailddatblygu'r CRhO mewn dull integredig yn lleihau'r risgiau o gadw cofnodion am unigolyn sy'n gwrth-ddweud ei gilydd a gwneir hynny drwy gynnal a chadw un gronfa ddata sy'n cynnwys cofnod sengl ar gyfer pob person sydd wedi datgan ei safbwynt mewn perthynas â rhoi organau. Bydd trefniadau'r gofrestr newydd yn cael ei chynnal a'i chadw gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sydd ar hyn o bryd, yn gyfrifol am reoli'r CRhO gyfredol. Mae'r trafodaethau'n parhau â'r gweinyddiaethau eraill yn y DU am fanylion swyddogaethau'r gofrestr newydd.
67. O ystyried y ffaith bod statws cyfreithiol gan ddymuniad a gofnodwyd i beidio â rhoi organau o dan y ddeddfwriaeth bresennol, bydd angen i'r gofrestr newydd ar gyfer unigolion o Gymru fod yn hygyrch, a hynny p'un a oedd yr unigolyn wedi marw yng Nghymru neu yn rhywle arall yn y DU. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn Atodiad 7 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi sut y ceir mynediad at y data. Maes o law, caiff Polisi Diogelu Data a Hysbysiad Prosesu Teg eu llunio.
68. Fan lleiaf, bydd y gofrestr yn cipio'r manylion canlynol, ond mae'n bwysig pwysleisio mai dim ond gwybodaeth sydd ei hangen at y diben fydd yn cael ei dal:
 - Enw;
 - Cyfeiriad;
 - Dyddiad geni;

- Rhif GIG; a
- dymuniad datganedig yr unigolyn o blaid neu yn erbyn rhoi rhai o'i organau, neu bob un ohonynt.

Esboniad ar sut y byddai pobl yn mynd ati i gofrestru dymuniad o dan y system newydd

69. O dan y system bresennol, mae'n bosibl cofnodi dymuniad i roi organau drwy nifer o ffyrdd gan gynnwys drwy'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) a thrwy gynllun Advantage Card cwmni Boots. Yn ogystal mae dolen uniongyrchol i wefan yr CRhO ar wefan Facebook. Bydd y partneriaethau hyn yn parhau i roi cyfleoedd i unigolion gofnodi eu dymuniad i fod yn rhoddwyr organau ond ni fyddant yn cael eu newid ar hyn o bryd i ganiatáu i unigolion ddatgan eu dymuniad i beidio â bod yn rhoddwr organau. Bydd modd cofrestru dymuniadau yn uniongyrchol ar lein, a bydd ffurflenni a chymorth ffôn ar gael hefyd ar gyfer y rhai nad ydynt yn dymuno defnyddio'r rhyngwyd. Bydd pob un o'r dulliau cofrestru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddant yn bodloni arfer da o ran hygyrchedd.

Pa bryd y bydd pobl yn gallu dechrau cofrestru eu dymuniadau

70. Hyd nes y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym yn 2015, dylid parhau i fynd ati i gofrestru dymuniad i roi organau drwy'r trefniadau presennol ar gyfer yr CRhO. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd ati i gefnogi'r ymdrechion i annog unigolion i ymuno â'r CRhO a rhannu eu safbwyntiau â'u teuluoedd. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r modd y bydd y penderfyniadau a wnaed gan bobl sy'n preswyllo yng Nghymru ac sydd wedi ymuno â'r CRhO yn cael eu trin o dan y trefniadau newydd.

71. Caiff dymuniadau pobl sy'n byw yng Nghymru i optio allan eu cipio cyn, ac er mwyn paratoi ar gyfer, gweithredu'r system cydsyniad a ystyrir.

Y perygl os na fydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud

72. Os na fydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei gwneud, ni fydd y gwaith o gyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru yn mynd yn ei flaen. Mae hynny yn rhoi mewn perygl y cynnydd yr ydym yn ei ddisgwyl yn nifer y rhoddwyr organau o ganlyniad i'r cynigion hyn. Bydd llai o bobl yn elwa, ac yn achos bywydau'r rhai a fyddai fel arall wedi cael eu hachub, neu wedi gweld gwelliant yn eu cyflwr, ni fydd hynny'n digwydd.

Sut y bydd deddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon

73. Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu'r trefniadau ar gyfer cydsynio i weithgareddau trawsblannu yng Nghymru. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr organau ar gael i'w trawsblannu, gan arbed bywydau a gwella iechyd y boblogaeth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'n glir y manteision cyffredinol o ran costau.

Sut y bydd y ddeddfwriaeth yn gwella'r canlyniadau i'r rhai yn y gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi eu hallgáu ohoni

74. Bydd ein strategaeth gyfathrebu yn targedu pobl yn y gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi eu hallgáu ohoni er mwyn eu helpu i ddeall y ddeddfwriaeth newydd ac i wybod sut y gallant gofrestru eu dymuniadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rydym yn cydnabod y bydd angen cymryd camau penodol er mwyn cyrraedd pobl mewn rhannau o'r gymdeithas sydd wedi eu hallgáu a hynny drwy weithio gyda'r grwpiau cynrychioli a'r systemau a'r rhwydweithiau cymorth sy'n bodoli eisoes.

75. Yn achos pobl o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mae gobaith penodol o wella'r canlyniadau. Yn y cymunedau hyn mae prinder organau addas a diffyg rhoddwyr a fyddai'n gallu darparu organau a fyddai'n cydweddu'n well o safbwynt clinigol. O ganlyniad, mae canran uwch o bobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn aros am drawsblaniad. Dylai'r ddeddfwriaeth hon gynyddu cyfraddau rhoi organau a bod yn fuddiol i'r rhannau hyn o'r gymdeithas sydd o dan anfantais o dan y drefn bresennol.

Rhychwant tiriogaethol

76. Mae'r Bil yn gymwys o ran cydsynio lle mae gweithgaredd trawsblannu'n digwydd yng Nghymru. Mae'n gymwys i Gymru gyfan, ac nid yw'n effeithio ar rannau ohoni'n unig.

Amserlenni ar gyfer deddfwriaeth

Dyma'r amserlenni a ddisgwylir:

Cyflwyno'r Bil i'r Cynulliad	Rhagfyr 2012
Cydsyniad Brenhinol a chychwyn y darpariaethau cyfathrebu yn Adran 2, ynghyd ag Adrannau 1, 19 a 20	Diwedd haf 2013
Ymgynghoriad ar is-ddeddfwriaeth berthnasol o dan y Bil	Yn ystod y ddwy flynedd cyn i'r prif ddarpariaethau ddod

	i rym yn 2015.
Cychwyn y darpariaethau sy'n weddill	Dwy flynedd o leiaf ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol
Y Cod Ymarfer: datblygu ac ymgynghori; ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo	Tebygol o gael ei gwblhau o fewn blwyddyn ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol
Datblygu trefniadau cofrestr newydd	Cwblhau'r gwaith datblygu 9 mis cyn cychwyn
Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd	O'r Cydsyniad Brenhinol yn 2013 ymlaen; yn cyrraedd ei uchafbwynt 6 mis cyn i'r prif ddarpariaethau ddod i rym yn 2015; gan barhau wedi hynny am gyfnod amhenodol

Ymgynghori

77. Mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud i ymgysylltu ac i ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yngl n â'r mater hwn ers 2008. Lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd gyfres o ddadleuon cyhoeddus ar roi organau yng Nghymru rhwng mis Hydref 2008 a mis Ionawr 2009. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru, a chyfarfod rhyng-ffydd yn un ohonynt. Cymerodd y cyfarfodydd hyn i ystyriaeth sylwadau ysgrifenedig a chanlyniadau arolwg dros y ffôn.
78. Drwy'r gweithgareddau hyn i ymgysylltu â'r cyhoedd, cafwyd bod cefnogaeth i gamau i gynyddu cyfraddau rhoi organau. Cafodd ystod eang o awgrymiadau eu crybwyll am sut i fynd ati i wneud hynny, gan gymwys newidiadau posibl yn y gyfraith yngl n â chydysnio i roi organau.
79. Ym mis Mai 2009, cyhoeddwyd papur ymgynghori gan Lywodraeth Cymru '*Opsiynau ar gyfer newid y system rhoi organau yng Nghymru*'. Roedd canlyniad yr ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gref ymhlith y cyhoedd i newid y gyfraith er mwyn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau yng Nghymru.
80. Gyda'r fath gefnogaeth, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Ddeddfwriaethol 2010/11. Ym mis Ionawr 2011, gosodwyd

LCO gerbron y Cynulliad i estyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o ran cydsynio neu roi awdurdodiad arall ar gyfer rhoi organau a meinweoedd at ddibenion trawsblannu. Lansiodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n gyfrifol am graffu ar yr LCO, ymgynghoriad cyhoeddus yngl n â'r Gorchymyn ar 12 Ionawr 2011. Er hynny, yn dilyn y bleidlais "ie" yn y refferendwm i gael pwerau deddfu ychwanegol ar 3 Mawrth 2011, gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd ddatganiad yn y cyfarfod llawn ar 9 Mawrth 2011 yn dweud ei bod hi wedi tynnu'r LCO yn ôl gan gydnabod mai mater i'r Llywodraeth nesaf fyddai cyflwyno Bil Cynulliad.

81. Yr oedd Maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiadau Mai 2011 yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno system feddal o optio allan at gyfer rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru. Gwelwyd ymrwymiad tebyg ym maniffestos y pleidiau eraill hefyd. Yn dilyn etholiad, pan ddychwelwyd y Blaid Lafur i arwain Llywodraeth Cymru,, rhoddodd Prif Weinidog Cymru Lywodraeth Cymru dan ymrwymiad, yn ei ddatganiad deddfwriaethol dyddiedig 12 Gorffennaf 2011, i ddarparu "*ar gyfer system o ddewis peidio â rhoi organau, gyda chefnogaeth rhaglen gyfathrebu eang*".
82. Dilynodd Papur Gwyn wedyn, yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu ynghylch y mater hwn. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn, o'r enw '*Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd*', ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o ddeuddeg wythnos rhwng 7 Tachwedd 2011 a 31 Ionawr 2012. Yr oedd yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru yn eu dilyn wrth ddwyn y polisi ymlaen ac yr oedd yn gofyn am sylwadau yngl n â sut y dylai'r trefniadau weithio yn ymarferol. Daeth cyfanswm o 1,234 o ymatebion i law.
83. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfres o 13 o gyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru i esbonio'r broses gyfredol, ateb cwestiynau ar sut y byddai'r cynigion yn gweithio a gwrandao ar sylwadau'r rhai oedd yn bresennol. Daeth cyfanswm o 166 o bobl i'r cyfarfodydd. Ar ben hynny, cynhaliwyd wyth cyfarfod gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghori: tri chyfarfod gyda'r GIG yng Nghymru a chyfarfodydd gyda Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol ym maes Rhoi Organau, Cyrff Proffesiynol, y Sector Gwirfoddol a chynrychiolwyr o'r grwpiau ffydd. Yr oedd y cyfarfodydd hyn yn ystyried manylion y cynigion polisi yn y Papur Gwyn ac yn canolbwyntio yn benodol ar y trefniadau ymarferol ynghylch gweithredu'r polisi, sef:

yr angen am eglurder yngl n â rôl y perthynas agosaf;
penderfynu ynghylch preswyliaid yng Nghymru;
y capasiti o ran gofal critigol.

84. Cyhoeddwyd adroddiad Llywodraeth y Cynulliad ar y Crynodeb Ymgynghorol ar 8 Mawrth 2012 a rhoddwyd yn ymatebion i gyd ar y wefan ar 18 Ebrill.¹⁸ Yr oedd yr adroddiad cryno yn cynnwys manylion am y sefydliadau a gafodd eu hysbysu am ymgynghoriad y Papur Gwyn a rhestr o'r ymatebwyr.
85. Nid oedd dogfen ymgynghori'r Papur Gwyn yn gwahodd sylwadau ar gyflwyno system newydd neu beidio ond yn hytrach ar sut i fynd ati i wneud hynny. Fodd bynnag, yr oedd canran uchel o'r ymatebion, 91 y cant, yn nodi barn pobl ar egwyddor y ddeddfwriaeth arfaethedig. Yr oedd 52 y cant o'r holl rai a ymatebodd yn cefnogi cyflwyno system feddal o optio allan ac yr oedd 39 y cant ohonynt yn gwrthwynebu'r syniad.
86. Yn ogystal, comisiynwyd cwmni Beaufort Research Ltd gan Lywodraeth Cymru i gynnal cyfres o Grwpiau Ffocws i gefnogi'r ymarfer ymgynghori ffurfiol. Cynhaliodd yr ymchwilyr chwe gr p ffocws ledled Cymru yn ogystal â saith cyfweiliad manwl er mwyn edrych ar agweddau pobl mewn perthynas â rhoi organau a'r cynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth. Yr oedd y rhai a fu'n cymryd rhan yn y grwpiau ffocws yn cynrychioli ystod oedran eang a nifer o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Dangosodd y gwaith ymchwil bod cefnogaeth eang i roi organau ymhlith y rhai a fu'n rhan o'r grwpiau ffocws. Ar y cyfan, yr oedd pobl yn ei chael hi'n haws i ddadlau o blaid ein cynigion ar gyfer optio allan yn hytrach nag yn eu herbyn. Er mai ymchwil ansoddol gyda sampl fach o bobl oedd y gwaith hwn, roedd yn gyson â'r farn a fynegwyd mewn arolygon ehangach.
87. Ar yr un pryd, yr oedd y gwaith ymchwil yn dangos pa mor bwysig oedd codi ymwybyddiaeth o'r broses rhoi organau yn gyffredinol yn ogystal â'r cynigion ar gyfer system feddal o optio allan.
88. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol rhwng 18 Mehefin a 10 Medi 2012 a daeth bron i 3,000 o ymatebion i law. Roedd mwyafrif helaeth y rhain ar ffurf llythyr safonol yn mynegi pryderon ynghylch y ddeddfwriaeth. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cynhaliwyd saith cyfarfod o randdeiliaid ledled Cymru, a oedd yn agored i aelodau'r cyhoedd. Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at nifer o faterion allweddol yr oedd angen eglurhad neu esboniad pellach arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys rôl aelodau'r teulu, esboniadau ynghylch rhoddwyr â'u hymennydd yn farw, a phryderon eraill am ddiagnosis marwolaeth, yn ogystal â phwyntiau manylach am ddrafftio'r Bil. Rhoddwyd sylw pellach i rai o'r materion hyn yn y Memorandwm Esboniadol hwn, tra bydd eraill yn cael sylw fel rhan o'r Strategaeth Gyfathrebu. Cyhoeddwyd Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad ar 19 Hydref 2012¹⁹ a bydd yr holl ymatebion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

¹⁸ <http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/organ/?skip=1&lang=cy>

¹⁹ <http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/organbill/?lang=cy&status=closed>

89. Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg cynrychiadol o'r cyhoedd yng Nghymru ar yr un pryd â'r adroddiad diweddaraf ar yr ymgynghoriad²⁰, sy'n dangos bod lefel eang o gefnogaeth o hyd am newid yn y gyfraith, gyda bron i hanner y rhai a holwyd yn dweud eu bod o blaid, ac ychydig o dan chwarter yn dweud eu bod yn erbyn. Yn ogystal â hyn, mae'r arolwg yn dangos lefel gymharol uchel o ymwybyddiaeth o gynigion Llywodraeth Cymru i ddeddfu yn y maes hwn, gyda 58 y cant yn dweud eu bod wedi clywed rhywbeth am y newidiadau.

Sut y mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi helpu i lunio'r ddeddfwriaeth

90. Mae dau ymgynghoriad wedi helpu gyda'r gwaith o ddrafftio'r ddeddfwriaeth ac mae nifer o feysydd yn fwy eglur o ganlyniad i hynny. Yn benodol, mae'r Bil wedi'i fireinio i ddarparu darpariaeth gliriach mewn perthynas â phobl nad yw'r gallu ganddynt i wneud penderfyniad a rôl perthnasau cymhwysol a chynrychiolwyr penodedig yn y broses rhoi organau. Cafodd y Bil ei fireinio ymhellach o ran y prosesau gwahanol i'w dilyn ar gyfer y sawl a fu farw a'r rhai sy'n dal yn fyw. Cafwyd hefyd nifer o newidiadau drafftio mewn perthynas â'r cydadwaith â Deddf 2004.

Y p e r i wneud is-ddeddfwriaeth

91. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl isod yn nodi mewn perthynas â phob darpariaeth:

y person neu'r corff y mae'r p e r wedi ei roi iddo;
 ar ba ffurf y mae'r p e r i gael ei arfer;
 priodoldeb y p e r dirprwyedig;
 y weithdrefn a gymhwysir (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn), os o gwbl.

Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Yr adran	I bwy y mae'r p e r yn cael ei roi	Ei ffurf	Priodoldeb y p e r dirprwyedig	Y weithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
4(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bernir ei fod yn addas gan ei fod yn ymwneud â manylion gweithredol	Uwchgadarnhaol	Sensitifrwydd y pwnc dan sylw

²⁰ Gweler troednodyn 12

7(10)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bernir ei fod yn addas gan ei fod yn ymwneud â manylion gweithredol	Uwchgadarnhaol	Sensitifrwydd y pwnc dan sylw
8(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bernir ei fod yn addas gan ei fod yn ymwneud â manylion gweithredol	Uwchgadarnhaol	Sensitifrwydd y pwnc dan sylw
14(3)(f)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Bernir ei fod yn addas gan ei fod yn ymwneud â manylion gweithredol	Uwchgadarnhaol	Sensitifrwydd y pwnc dan sylw
17(4)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Bernir ei fod yn addas gan ei fod yn ymwneud â manylion gweithredol	Uwchgadarnhaol	Sensitifrwydd y pwnc dan sylw
19(1)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Bernir ei fod yn addas gan ei fod yn ymwneud â manylion gweithredol	Dim proses	Cychwyn

Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh)

92. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gwblhau yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn yn Rhan 2.

RHAN 2

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

93. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) hwn yn arfarnu effaith Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) drafft Llywodraeth Cymru. Gwelir bod y manteision sy'n gysylltiedig â chynnydd o un rhoddwr y flwyddyn yn mwy na gwneud iawn am y costau sy'n codi. Mae'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd fel atodiadau.

Yr opsiynau

94. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio, ym mharagraffau 14, 15 ac 19, fod yr opsiynau posibl ar gyfer cynyddu'r gyfradd gydsynio i roi organau, fel dewis gorfodol a systemau caled o optio allan, wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r polisi, ond wedi'u diystyru. Credir felly mai un opsiwn polisi sy'n gallu cyflawni bwriad y polisi: cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer trawsblannu organau a meinweoedd pobl a fu farw yng Nghymru. Mae'r system feddal o optio allan yn system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi ar gyfer tynnu organau a meinweoedd i'w trawsblannu oni bai bod y sawl a fu farw wedi mynegi gwrthwynebiad i hynny yn ystod ei oes, a lle y bydd y perthynas agosaf yn rhan o'r broses benderfynu. Nod cyffredin y polisi yw cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu, a bydd hynny o fudd i bobl Cymru drwy leihau nifer y bobl sy'n marw wrth iddynt aros i organ addas ddod ar gael a thrwy wella bywydau pobl eraill.

95. Diben yr AERh yw canfod effaith y newid arfaethedig yn erbyn llinell sylfaen (hynny yw, yr opsiwn sylfaenol) o 'wneud dim'. Yn yr achos hwnnw, mae llinell sylfaen 'gwneud dim' yn golygu parhau â'r system bresennol o optio i mewn a pharhau i weithredu argymhellion y TRhO.

96. Mae canfod y llinell sylfaen 'gwneud dim' neu'r sefyllfa wrthffeithiol (hynny yw, y sefyllfa pe na bai'r polisi yn cael ei gyflwyno) yn gymhleth am ei bod yn dra amhendant faint o organau fydd ar gael dros y blynyddoedd nesaf o dan y system bresennol. Y rheswm am hynny yw bod y system bresennol yn datblygu o ganlyniad i weithredu argymhellion y TRhO. Felly, nid yw'n briodol canfod beth yw'r sefyllfa wrthffeithiol drwy amcangyfrif o batrymau neu dueddiadau sydd eisoes wedi eu canfod.

Sail y Dystiolaeth i Ganfod Effaith y Ddeddfwriaeth Arfaethedig

97. Mae'r farn gyhoeddus yng Nghymru yn gefnogol i weld system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau yn cael ei mabwysiadu. Yr oedd arolwg a gynhaliwyd yn gynharach eleni o dan nawdd y BBC yn dangos bod 63% o'r rhai a ymatebodd o blaid deddf i dybio bod

cydsyniad i roi organau (*"in favour of a law that presumes consent for organ donation"*²¹). Tebyg oedd canlyniadau'r Arolwg diweddarach o Agweddau'r Cyhoedd, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

98. Yn ei adroddiad ar effaith bosibl cyflwyno system optio allan yn y DU, dyma'r hyn a welodd y TRhO: *"in working with the public we found that the majority – around 60% – would support a change to an opt out system, as long as it was properly implemented to ensure that the rights of vulnerable groups were protected and there was sufficient information to back it up. This is consistent with previous surveys carried out by others"*²²
99. Mewn gwaith arolygu a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd, gwelwyd bod 63% o'r rhai a ymatebodd yn y DU wedi ateb "yes" i'r cwestiwn: *"If you were asked in a hospital to donate an organ from a deceased close family member, would you agree?"*²³
100. Ar y cyfan felly, mae tystiolaeth yr arolygon yn dangos bod posibilrwydd y bydd system optio allan yn gwella'r cyfraddau rhoi organau.
101. Mae gwaith ymchwil eilaidd yn dangos bod ystod eang o ffactorau yn cael effaith ar gyfraddau rhoi, gan gynnwys y system(au) ei hun (eu hunain) ar gyfer rhoi organau ynghyd ag ystyriaethau diwylliannol a seicolegol.
102. Mae canlyniadau gwahanol ar draws gwledydd â systemau tebyg ar gyfer rhoi organau yn dangos bod ffactorau di-rif yn gallu cael effaith ar gyfraddau rhoi organau. Er enghraifft, mae system optio allan ar waith yn Sbaen, ac yno y mae'r gyfradd uchaf yn y byd o bobl sy'n rhoi organau, gyda rhyw 32 o unigolion marw fesul miliwn o'r boblogaeth yn rhai a ddewisodd roi eu horganau. Mae gan wlad Groeg hefyd system optio allan ac yno, ceir cyfraddau isel o ran rhoi organau - tua 4 rhoddwr marw fesul miliwn o'r boblogaeth²⁴.
103. Roedd Abadie a Gay²⁵ yn awgrymu y gallai systemau optio allan wella'r cyfraddau rhoi organau, ac yn awgrymu hefyd y gallai cyfraddau rhoi organau mewn gwledydd lle y mae systemau optio allan fod 25-30% yn uwch o'u cymharu â gwledydd lle y mae systemau eraill ar waith.
104. Mewn adolygiad cynhwysfawr o effaith systemau optio allan ar gyfraddau rhoi organau, adolygodd Prifysgol Efrog astudiaeth Abadie a Gay; a daethant i'r casgliad ei bod yn astudiaeth gadarn ac nad oedd

²¹ Gweler troednodiadau 11 a 12.

²² Gweler troednodyn 10.

²³ [Key facts and figures on EU organ donation and transplantation](#), Council of Europe, Directorate-General for Health and Consumers, 2007.

²⁴ Ffigurau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

²⁵ Gweler troednodyn 16

ynddi unrhyw feiau methodolegol mawr.²⁶ Adolygwyd hefyd nifer o astudiaethau eraill a thystiolaeth o arolygon ac roedd y darlun cyffredinol yn awgrymu bod systemau optio allan yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell o ran rhoi organau.

105. Mae adolygiad Prifysgol Efrog, a wnaed ar ran y TRhO, yn cynnig crynodeb cytbwys o'r cefndir a'i wahaniaethau cynnil, sydd y tu ôl i'r ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chyflwyno ar gyfer system optio allan. Mae'r casgliadau wedi eu dyfynnu'n llawn yn y blwch isod.

"1) Presumed consent alone is unlikely to explain the variation in organ donation rates between different countries. A combination of legislation, availability of donors, transplantation system organisation and infrastructure, wealth and investment in healthcare, as well as underlying public attitudes to and awareness of organ donation and transplantation may all play a role, although their relative importance is unclear. The between country comparison studies overall point to presumed consent law being associated with increased organ donation rates (even when other factors are accounted for) though it cannot be inferred from this that the introduction of presumed consent legislation per se leads to an increase in donation rates. The before and after studies suggest an increase in donation rates following the introduction of presumed consent legislation, however it is not possible to rule out the influence of other factors on donation rates.

2) It is important to note that the survey evidence is incomplete and the variation in attitudes between surveys may reflect differences in methods and the phrasing of questions. Some surveys suggest a lack of public support for presumed consent, both in the UK and in other countries. However, more recent UK surveys provide evidence of support for presumed consent."²⁷

106. Yn gyffredinol felly, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, yr hyn sy'n glir yw bod newid i system optio allan o roi organau yng Nghymru yn llawer mwy tebygol na pheidio o arwain at gynyddu cyfraddau rhoi organau a thrawsblannu. Yn hynny o beth, ni allwn fod yn bendant yngl n â maint unrhyw gynnydd sy'n debygol o ddigwydd, yn rhannol oherwydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd i'r system gyfredol o optio i mewn (yr opsiwn o 'wneud dim'), ac yn ogystal, oherwydd diben yr AERh yw ceisio canfod effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig yn erbyn yr opsiwn o 'wneud dim'.

107. Fodd bynnag, mae'n bosibl amlinellu'r costau a'r manteision a fyddai'n deillio o wahanol newidiadau yng nghyfraddau rhoi organau/

²⁶ Rithalia A, McDaid C, Suekarran S, Norman G, Myers L, Sowden A. A systematic review of presumed consent systems for deceased organ donation. *Health Technol Assess* 2009;**13**(26).

²⁷ Gweler troednodyn 26.

trawsblannu, a allai ddigwydd o ganlyniad i newid y system gyfredol o optio i mewn i system feddal o optio allan o roi organau.

108. Byddai dull gweithredu o'r fath yn ei gwneud yn bosibl i amcangyfrif nifer yr organau ychwanegol y byddai eu hangen i gyfiawnhau'r costau a geid o gyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru.
109. Gan na ellir bod yn fanwl gywir yngl n â'r newidiadau i'r cyfraddau rhoi organau a allai ddigwydd o ganlyniad i gyflwyno system optio allan, mae'n hanfodol bod effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael ei monitro a'i gwerthuso. Yn sgil hynny, byddai'n ddefnyddiol iawn cymharu'r newidiadau yng nghyfraddau rhoi organau Cymru â'r rhai yn Lloegr, gan y bydd y system optio i mewn yn aros yn Lloegr, hyd y gellir rhagweld. Amlinellir cynigion gwerthuso yn yr Adolygiad Ôl-Weithredu yn Atodiad 5.
110. Mae paragraffau 111-119 yn disgrifio'r costau a'r manteision a fydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â chyflwyno system optio allan o roi organau. Caiff costau a manteision yr opsiwn optio allan eu hasesu yn erbyn yr opsiwn sylfaenol o 'wneud dim'. Ystyrir cael cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd, a rhoddir disgownt am gostau a manteision, gan ddefnyddio cyfradd ganolog disgownt Trysorlys ei Mawrhydi o 3.5%, ac eithrio wrth amcangyfrif manteision 'blwyddyn bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd' (BBAA). Cyfradd y disgownt a ddefnyddir ar gyfer y BBAAu yw 1.5%, yn ôl yr hyn a argymhellir gan Adran Iechyd y DU (gweler Atodiad 3 am eglurhad o'r hyn a olygir wrth BBAAu).

Costau a manteision

Costau system feddal o optio allan

111. Nodwyd bod dau gategori bras ar gyfer costau. Yn gyntaf, ceir costau sefydlu a chynnal a chadw'r seilwaith sydd ei angen i weithredu system feddal o optio allan o roi organau. Mae costau o'r fath yn cynnwys newidiadau busnes a newidiadau i systemau, prosesu ceisiadau i optio allan, cyfathrebu â'r cyhoedd, a gwerthuso. Rhoddir disgownt i'r costau hyn dros gyfnod o ddeng mlynedd. Costau o tua £7.5 miliwn yw'r rhain, ac fe'u rhestrir yn Atodiad 1. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r costau hyn. Dangosir bod rhai o'r costau parhaus hyn yn gostwng i sero cyn blwyddyn 10, oherwydd barnwyd y byddai'r costau'r un fath mewn blynyddoedd diweddarach os na fyddai'r ddeddfwriaeth yn newid. Er enghraifft, byddai costau trin ceisiadau i optio i mewn a cheisiadau i optio allan yn debyg i gostau optio i mewn yn unig, ymhen amser.
112. Mae'r ail gategori o gostau yn cyfeirio at y costau hynny a geir er mwyn tynnu organau gan y sawl a fu farw ac wedyn eu trawsblannu. Costau newidiol yw'r rhain, a byddant yn amrywio yn ôl y math o organ. Yn achos yr AERh, yr organau mwyaf cyffredin i'w trawsblannu a gaiff eu hystyried – sef yr arenau, yr afu/iau, y galon a'r ysgyfaint. Credir

bod hwn yn ddull priodol o weithredu mewn modd cymesur. Dangosir y manylion yn Atodiadau 2a-2d, fel a ganlyn:

£50,000 yw cost trawsblaniad aren yn ôl prisiau 2011/12, ac mae cost ddilynol o £8,000 bob blwyddyn wedi hynny. Bob blwyddyn ceir arbediad o £28,000 drwy osgoi dialysis arenol.

£59,000 yw cyfanswm costau llawdriniaeth a chostau cyn llawdriniaeth ar gyfer trawsblaniad yr iau/afu yn ôl prisiau 2011/12; yn y ddwy flynedd gyntaf yn dilyn llawdriniaeth bydd cost flynyddol o £12,000 ac yna costau blynyddol dilynol o £5,000. Bob blwyddyn ceir arbediad o £22,000 drwy osgoi rheolaeth feddygol.

£147,000 yw cost trawsblaniad y galon yn y flwyddyn gyntaf yn ôl prisiau 2011/12, ac mae cost ddilynol bob blwyddyn wedi hynny o £12,000. Bob blwyddyn ceir arbediad o £5,000 drwy osgoi rheolaeth feddygol.

£156,000 yw cost trawsblaniad yr ysgyfaint yn y flwyddyn gyntaf yn ôl prisiau 2011/12, ac mae costau dilynol ym mlynnyddoedd 2, 3, 4 a 5 o £22,000, £9,000, £8,000 a £4,000, yn y drefn honno. Yn y flwyddyn gyntaf ceir arbediad o £18,000 ac yn yr ail flwyddyn arbediad o £13,000 drwy osgoi rheolaeth feddygol.

Caiff y costau hyn eu hysgwyddo'n rhannol gan y GIG yng Nghymru gan ddefnyddio adnoddau cyfredol Byrddau Iechyd Lleol, ac yn rhannol gan grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. I egluro hyn, rhagwelir y byddai rhyw 26 aren, 10 afu/iau, 2 galon a 4 ysgyfaint yn cael eu trawsblannu, ar gyfartaledd, o gael 15 rhoddwr ychwanegol.

113. Caiff y gweithgareddau a'r costau sy'n gysylltiedig â chynnydd yn nifer y rhoddwyr eu rheoli o fewn adnoddau cyfredol y GIG. Yn yr un modd, dylai'r GIG dalu costau'r cynnydd yn nifer y trawsblaniadau, drwy ei drefniadau i ariannu gwasanaethau arbenigol.

Manteision system feddal o optio allan

114. Ar gyfartaledd, mae cleifion sy'n cael trawsblaniadau yn cael mantais bywyd estynedig ac yn mwynhau ansawdd bywyd gwell o'u cymharu â'r cleifion hynny y caiff eu cyflyrau eu rheoli drwy driniaeth feddygol.

115. Caiff gwelliannau o ran ansawdd bywyd eu mesur yn ôl nifer y blynyddoedd mewn bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (BBAAu), lle y byddai blwyddyn o iechyd perffaith yn gyfwerth ag 1 BBAA a'r gwerth sy'n cael ei roi arni yn £60,000 (gweler Atodiad 3 am eglurhad pellach o'r BBAAu). Mae'r BBAAu yn mesur manteision estyn bywyd hefyd.

116. Bu gwaith ymchwil a ymgwymerwyd gan Adran Iechyd y DU ym mlynnyddoedd canol degawd cyntaf y ganrif hon yn amcangyfrif nifer y

BBAAau sy'n ganlyniad i drawsblannu organau.²⁸ Cafodd y rhagdybiaethau hyn eu defnyddio ar gyfer yr AERh hwn, ac mae'r manylion amdanynt yn Atodiadau 2a-2d.

117. Mae yna ail gategori o fanteision i roi organau, sy'n deillio o'r arbedion sy'n cael eu gwneud am nad oes angen i gyflwr cleifion sydd wedi cael trawsblaniadau gael ei reoli'n feddygol. Amcangyfrifwyd yr arbedion hyn ym maes rheoli meddygol gan Adran Iechyd y DU ym mlynnyddoedd canol degawd cyntaf y ganrif hon²⁹. Mae'r arbedion hyn, yr ychwanegwyd gwerth y farchnad atynt yn y cyfamser oherwydd chwyddiant, wedi eu defnyddio at ddibenion yr AERh hwn, ac maent wedi eu cynnwys fel manteision.
118. Dim ond y costau sy'n gysylltiedig â thrawsblannu aren, afu/iau, calon ac ysgyfaint a ystyriwyd. Er mwyn amcangyfrif y manteision, dilynwyd yr un dull. Cydnabuwyd y caiff organau a meinweoedd eraill eu trawsblannu. Fodd bynnag, fe'n bodlonwyd bod y rhan fwyaf o'r manteision wedi eu cofnodi drwy gyfyngu'r dadansoddiadau i drawsblaniadau'r arenau, yr afu/iau, y galon a'r ysgyfaint.
119. Cydnabuwyd ei bod yn debygol iawn y gallai cyfran helaeth o unrhyw organau ychwanegol a roddir gan breswylwyr yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno system feddal o optio allan, gael eu trawsblannu i gyrff preswylwyr sy'n byw mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r un gwerth i organ ychwanegol a gaiff ei thrawsblannu, ni waeth pa le yn y DU y bydd y trawsblaniad hwnnw'n digwydd. Gan hynny, caiff y manteision eu hasesu ar lefel y DU, ac yn ychwanegol cânt eu hasesu drwy ddadansoddiad o sensitifrwydd (gweler paragraffau 125-132).

Effaith Net y System Feddal o Optio Allan

120. Nodir y costau a'r manteision a fyddai'n deillio o un trawsblaniad arenau, afu/iau, calon ac ysgyfaint **ychwanegol** y flwyddyn yn Atodiadau 2a-2d.
121. Yn y cyswllt hwn nid yw'n synhwyrol ychwanegu tebygolrwydd at unrhyw newid penodol yng nghyfraddau rhoi organau a allai ddeillio o fabwysiadu'r system feddal o optio allan.
122. Ar sail y rhagdybiaethau a nodir yn Atodiadau 1 a 2a-2d, mae'n glir y byddai hyd yn oed gynnydd bach yn nifer y rhoddwyr, a chynnydd cysylltiedig yn nifer y trawsblaniadau, yn ysgogi manteision sylweddol. Er enghraifft, mae gan gynnydd o un rhoddwr **ychwanegol bob**

²⁸ Defnyddiodd Adran Iechyd y DU nifer o ffononellau i amcangyfrif BBAAau sy'n ganlyniad i drawsblaniadau, a rhannwyd yr wybodaeth hon ag economegwyr Llywodraeth Cymru yn 2009.

²⁹ Gweler troednodyn 28.

blwyddyn, gan gynnwys cynnydd cysylltiedig yn nifer y trawsblaniadau organau y rhoddir disgownt iddynt dros gyfnod o ddeng mlynedd, werth presennol net (GPN) o oddeutu £3 miliwn.

123. Mae Atodiad 2e yn nodi'r GPN a fyddai'n deillio o amrywiaeth o newidiadau yng nghyfraddau rhoi a thrawsblannu organau a allai ddigwydd pe byddai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu system feddal o optio allan.

124. Byddai'n ddefnyddiol nodi'r effaith a fyddai'n dilyn pe byddai'r cynnydd o 25-30% yng nghyfraddau rhoi organau, y cafodd Abadie a Gay³⁰ eu bod yn gysylltiedig â chyflwyno systemau optio allan, yn digwydd yng Nghymru. Byddai cynnydd o 25% o sampl sylfaenol o 65 o roddwyr (dyma'r nifer o breswylwyr Cymru a fu farw yng Nghymru ac a roddodd eu horganau yn 2011/12) yn cyfateb i tua 15 o roddwyr ychwanegol. Byddai 15 o roddwyr ychwanegol, gan gynnwys cynnydd cysylltiedig yng nghyfraddau trawsblannu, yn cynhyrchu GPN o oddeutu £147 miliwn.

Dadansoddiad o Sensitifrwydd

125. Ar sail y rhagdybiaethau a nodir yn Atodiadau 1 a 2a-2d, byddai cynnydd o un rhoddwr y flwyddyn a'r cynnydd cysylltiedig yn nifer y trawsblaniadau, yn ysgogi manteision digon da i'r system feddal o optio allan fwy na thalu amdani'i hun.

126. Mae'r canlyniad hwn yn sensitif i'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r dadansoddiad. Felly, mae'n briodol amrywio rhai o'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r dadansoddiad, a chanfod sut mae'r canlyniadau yn amrywio yn ôl yr ymateb.

127. Mae'r canlyniadau yn arbennig o sensitif i'r gwerth ariannol sy'n gysylltiedig â BBAA. Mae Adran Iechyd y DU yn rhoi gwerth ariannol o £60,000 i BBAA³¹, sy'n rhagdybiaeth yr ydym wedi ei derbyn ar gyfer yr AERh hwn. Fodd bynnag, mae pennu'r gwerth priodol i'w roi i BBAA dan drafodaeth ym meysydd academiaidd a meddygol. Gan hynny, byddai'n synhwyrol gostwng gwerth BBAA a nodi sut y byddai hynny'n cael effaith ar y manteision net a ysgogwyd gan unrhyw newid sy'n ymwneud â rhoi organau a allai ddigwydd o ganlyniad i gyflwyno system optio allan o roi organau.

128. Dangoswn yn Atodiad 4 sut mae gwerth rhoi organau yn gallu newid, gan ddefnyddio gwahanol ragdybiaethau ar gyfer gwerth BBAA. Mae ein dadansoddiad o sensitifrwydd yn dangos, hyd yn oed pe byddai gwerth BBAA yn gostwng chwarter i £45,000, byddai'n dal yn wir y

³⁰ Gweler troednodyn 16.

³¹ [Quantifying health impacts of government policies](#), A how-to guide to quantifying the health impacts of government policies, Adran Iechyd y DU, 2010.

byddai un rhoddwr ychwanegol y flwyddyn yn creu manteision digon da i'r system optio allan adennill ei chostau.

129. Datganwyd ym mharagraff 119 fod y manteision yn cael eu hasesu ar lefel y DU, gan nodi y byddai cyfran o unrhyw drawsblaniadau ychwanegol yn digwydd y tu allan i Gymru. Mae'r ffigurau a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn dangos bod ychydig dros 30% o'r organau a roddwyd gan bobl Cymru dros gyfnod o bedair blynedd (2008-2011) wedi eu trawsblannu i gyrff pobl oedd yn byw yng Nghymru.
130. Os amcangyfrifwn y manteision ar sail Cymru yn unig (hynny yw, os arddelwn 30% yn unig), yna byddai hynny'n lleihau gwerth y manteision y gallwn eu priodoli i gynnydd yn nifer yr organau a roddir a allai ddigwydd o ganlyniad i gyflwyno system o optio allan. Yn yr un modd, mae rhannu'r manteision fel hyn hefyd yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol a fyddai'n digwydd pe byddai'r nifer o roddwyr yn disgyn. Nid yw cyfrifo'r manteision a'r costau yn y modd hwn yn cael effaith o bwys ar nifer y rhoddwyr sydd ei angen er mwyn i system optio allan allu adennill ei chostau. Yn ôl y senario hwn, byddai cynnydd o rhwng un a dau roddwr **ychwanegol bob** blwyddyn, a chynnydd cyfatebol mewn trawsblaniadau yn dal yn caniatáu i'r system optio allan adennill ei chostau (gweler Atodiad 4).
131. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch costau sefydlu a rhedeg system optio allan o roi organau; labelwyd y rhain fel costau sefydlog yn Atodiad 1. Yn yr achos sylfaenol amcangyfrifir mai £8 miliwn yw cyfanswm y costau sefydlog, yn gostwng dros ddeng mlynedd. O'r amrywiol eitemau costau sefydlog a nodir yn Atodiad 1, costau datblygu'r system (y newidiadau TG) sy'n peri'r ansicrwydd mwyaf. Mae cyfanswm y costau hyn oddeutu £2.5 miliwn.
132. Pe byddai costau'r system 100% yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd yn yr achos sylfaenol, a chan ganiatáu rhywfaint o lithriant o ran y costau eraill, byddai cyfanswm y costau sefydlog yn codi i £10 miliwn. Mewn amgylchiadau o'r fath, £0.3 miliwn yw'r amcangyfrif o werth presennol net (GPN) un rhoddwr ychwanegol **bob** blwyddyn, a'r cynnydd cysylltiedig mewn trawsblaniadau yn gostwng dros gyfnod o ddeng mlynedd, o gymharu â £3 miliwn yn yr achos sylfaenol. Byddai'n rhaid i'r gostyngiad mewn costau sefydlog fod oddeutu £2.7 miliwn (rhyw 36%) yn fwy nag yn yr achos sylfaenol er mwyn gwthio'r GPN i lawr i sero. Felly, mae'n rhesymol casglu bod y canlyniadau a gofnodwyd yn senario'r achos sylfaenol yn dangos y byddai modd ymdopi â chostau sefydlog uwch.

Y costau i Lywodraeth Cymru

133. Llywodraeth Cymru a fydd yn ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r seilwaith sydd eu hangen er mwyn gweithredu system feddal o optio allan o roi organau, ynghyd â chostau cyfathrebu â'r

cyhoedd, costau hyfforddi/cyflawni, a chostau gwerthuso. Caiff y costau hyn eu talu allan o arian Cyflawni Camau wedi eu Targeddu ar Wasanaethau GIG ("*Delivery of Targeted NHS Services Action*") o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodir y costau yn Atodiad 1.

Y costau ar gyfer Cyrff, Unigolion a Busnesau Eraill

134. Mae'r bwriad o gyflwyno system feddal o optio allan yn debygol o gynyddu nifer yr organau sydd ar gael, o ryw 25 y cant o bosibl. Mae'r ffaith na ellir rhagweld y gyfradd rhoi organau, hyd yn oed dan y trefniadau presennol, yn golygu bod rhaid i systemau fod yn barod, i raddau, i ymateb yn gyflym a delio â'r cyfnodau prysur a'r cyfnodau tawel. Mae'r hyblygrwydd hwn yn rhan o'r system gofal aciwt bresennol ac nid yw costau rhoi organau yn gostau ar wahân. Mae cynnydd o 25 y cant yn nifer y rhoddwyr organau yn trosi i 15 rhoddwr gwirioneddol ychwanegol y flwyddyn, neu ychydig dros un rhoddwr ychwanegol y mis. O ran yr o effaith ar ofal critigol, gwasanaethau llawfeddygol gan gynnwys amser yn y theatr a chostau staffio, credwn felly na fydd y cynnydd a ragwelir yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol. O ran cael cydsyniad i roi organau, a thynnu a chludo organau, darperir ar gyfer y rhain o nawdd Llywodraeth Cymru i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, sy'n cael ei amcangyfrif ar sail y boblogaeth. £2.88 miliwn y flwyddyn yw'r nawdd cyfredol, sy'n digwydd yn rheolaidd. Unwaith eto, credwn na fydd nifer y rhoddwyr a ragwelir gennym yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Yr Effaith ar Fusnesau Bach

135. Ni fydd unrhyw effeithiau uniongyrchol ar fusnesau bach.

Yr Effaith ar y Sector Gwirfoddol

136. Ni fydd unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y sector gwirfoddol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

137. Ceir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 6. Mae hyn yn cynnwys datganiad bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

138. Ceir Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn Atodiad 7.

Asesiad o'r Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy

139. Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran datblygu cynaliadwy.

Asesu'r Gystadleuaeth

140. Ni fydd unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y gystadleuaeth.

Yr Adolygiad Ôl-Weithredu


141. O ystyried yr anhawster penodol i ganfod effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig ar gyfraddau rhoi organau, mae'n hanfodol bod effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael ei monitro'n aml ac mewn modd trylwyr. Bwriedir cynnal adolygiad ôl-weithredu, ac mae'r manylion wedi eu hamlinellu yn Atodiad 5.

Datganiad y Prif Economegydd

Rwy'n fodlon bod y costau a'r manteision a fyddai'n deillio o newidiadau yng nghyfraddau rhoi organau yng Nghymru ac yn arwain at newidiadau yn nifer yr organau a gaiff eu trawsblannu yng nghyrff cleifion yn y DU, wedi eu hamcangyfrif mewn modd rhesymol a chymesur yn yr AERh hwn.

Mae ceisio pennu'r sefyllfa wrthffeithiol, er mwyn gallu asesu yn ei herbyn effaith bosibl deddfwriaeth i symud at ddefnyddio system optio allan yn gymhleth o ystyried y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn y system gyfredol o optio i mewn. O ganlyniad, mae'r llinell sylfaen yn dra annibynadwy. Mae'n gwbl glir y byddai'n well gan bobl Cymru ddefnyddio system optio allan, er bod diffyg tystiolaeth o'r arolwg cychwynnol sy'n dangos yn benodol sut y bydd pobl yn ymateb i ddeddfwriaeth ar optio allan. Yn gyffredinol, mae sylfaen y dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn rhesymol disgwyl y byddai deddfwriaeth ar optio allan yn gwella cyfraddau rhoi organau, er nad yw'n synhwyrol ychwanegu tebygolrwydd, yn y cyswllt hwn, at unrhyw ganlyniadau penodol.

Am y rhesymau hyn, caiff yr effeithiau eu disgrifio yn ôl dull "beth os", neu drwy ddefnyddio senarios. Gan na ellir bod yn benodol yngl n â'r canlyniadau posibl, mae monitro a gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig mewn modd trylwyr o'r pwys mwyaf.



Jonathan Price
Y Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru
Mehefin 2013

Atodiad 1 yr AERh

Y Costau Sefydlog a Ddisgwyllir yn sgil Mabwysiadu System Optio Allan o Roi Organau

	<u>£000</u> <u>oedd</u>										(Cyfradd y Disgownt =3.5%)
	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	<u>Cyfanswm y gost sefydlog</u>
Cyfathrebu	£143	£383	£808	£2,215	£150	£150	£150	£150	£150	£150	£3,986
Rheoli newid busnes	£91	£182	£273	£40							£557
Newidiadau TG	£134	£1,124	£553	£156	£156	£156	£156	£156			£2,394
Cyfraniadau'r gwledydd eraill at y gofrestr		-£653	-£413	-£98							-£1,105
Derbyn a phrosesu cofrestrïadau ychwanegol			£419	£328	£81	£81	£81	£81			£955
Rhoi gwybod i bobl 17 oed				£25	£50	£50	£50	£50	£50	£50	£263
Gwerthuso	£27	£65	£50	£0	£95						£219
Hyfforddi clinigwyr			£224	£100							£300
Cyfanswm	£395	£1,101	£1,915	£2,766	£532	£437	£437	£437	£200	£200	£7,569

Y Rhagdybiaethau ar gyfer Dadansoddi'r Arennau

Y cyfnod goroesi canolrifol ar gyfer cleifion sydd wedi cael trawsblaniadau	13 blynedd
Y cyfnod goroesi canolrifol ar gyfer cleifion ar ddialysis	11 mlynedd
Y cynnydd yn y BBAAu a geir o gael trawsblaniad (gweler Nodyn 1 o dan y tabl)	4
Gwerth ariannol un BBAA	£60,000
Cost llawdriniaeth drawsblannu (yn ôl prisiau 2011/12)	£50,000
Cost flynyddol yr ôl-driniaeth ar gyfer cleifion sydd wedi cael trawsblaniad aren	£8,000
Cost flynyddol dialysis arenol	£28,000

Nodyn 1: Cyfrifir nifer y BBAAu a geir o gael trawsblaniad drwy gymharu cyflwr iechyd claf sydd wedi cael trawsblaniad â chyflwr iechyd claf sy'n cael dialysis, yn ôl nifer o fesuriadau, fel symudedd, diffyg poen/anghysur, y gallu i ofalu amdano'i hun, gorbryder/iselder, a'r gallu i gyflawni 'gweithgareddau arferol'. Mae blwyddyn o iechyd 'perffaith' yn gyfwerth ag 1 BBAA. Drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau, mae Adran Iechyd y DU wedi amcangyfrif y byddai claf sydd wedi cael trawsblaniad aren, ar gyfartaledd, yn mwynhau gwell iechyd dros gyfnod o 13 blynedd o'i fywyd, sy'n gyfwerth â 4 BBAA, o'i gymharu â chlaf a gafodd driniaeth drwy ddialysis³².

Nodyn 2: Amcangyfrifwyd y costau hyn gan Adran Iechyd y DU yn ôl prisiau 2005/2006³³. Er mwyn cymryd y chwyddiant ers hynny i ystyriaeth, ychwanegwyd gwerth y farchnad at y costau, gan ddefnyddio datchwyddydd y cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC).

³² Gweler troednodyn 28.

³³ Gweler troednodyn 28.

Parhad Atodiad 2a yr AERh

**Dosbarthiad Blynyddol y Costau a'r Manteision ar gyfer 1 Trawsblaniad
Aren Ychwanegol y Flwyddyn
(£000oedd)**

	A	B	C	
Blwyddyn	Costau Cysylltiedig â Thrawsblaniadau	Manteision BBAA	Arbedion yn erbyn Dialysis	Mantais Net (B+C-A)
0	£152	£240	£306	£394
1	£152	£240	£306	£394
2	£152	£240	£306	£394
3	£152	£240	£306	£394
4	£152	£240	£306	£394
5	£152	£240	£306	£394
6	£152	£240	£306	£394
7	£152	£240	£306	£394
8	£152	£240	£306	£394
9	£152	£240	£306	£394
GPN (Cyfradd y disgownt = 3.5% ac eithrio'r BBAAau = 1.5%)	£1,307	£2,066	£2,633	£3,392

Nodyn 1: Cafodd y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â thrawsblannu eu cyfrifo yn erbyn dialysis gan Adran Iechyd y DU yn 2006. Defnyddiwyd y rhagdybiaethau hyn ar gyfer yr AERh; a chymryd chwyddiant i ystyriaeth, gan ddefnyddio datchwyddydd yr CMC³⁴.

Nodyn 2: Mae costau a manteision trawsblannu wedi eu prasio ar sail dull arwahanol yn hytrach nag ar sail dull di-dor. Felly, er enghraifft, bydd un claf ychwanegol ar gyfer trawsblaniad aren ym mlwyddyn sero (blwyddyn y trawsblaniad ychwanegol cyntaf) yn cynhyrchu costau o £152,000 dros y cyfnod o 13 blynedd y disgwylir i'r claf oroesi. Bydd un claf ychwanegol ar gyfer trawsblaniad aren ym mlwyddyn un yn cynhyrchu'r un costau, ac felly yn y blaen, ar gyfer un trawsblaniad ychwanegol ym mhob un o flynyddoedd 2-9. Yna, rhoddir disgownt i'r costau dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd. Defnyddiwyd yr un dull i amcangyfrif y manteision BBAA a'r arbedion yn erbyn dialysis³⁵.

³⁴ Gweler troednodyn 28.

³⁵ Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd gan Adran Iechyd y DU. Cliciwch ar y ddolen ganlynol i weld enghraifft:

http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsLegislation/DH_111386.

Y Rhagdybiaethau ar gyfer Dadansoddi'r Iau/Afu

Y cyfnod goroesi ar gyfer cleifion sydd wedi cael trawsblaniadau	18 mlynedd
Y cyfnod goroesi canolrifol ar gyfer cleifion dan reolaeth feddygol	1.5 flwyddyn
Y cynnydd yn y BBAAu a geir o gael trawsblaniad (gweler Nodyn 1 o dan y tabl)	13
Gwerth ariannol un BBAA	£60,000
Cost yr asesu	£9,000
Cost yr ymgeisyddiaeth	£7,000
Cost llawdriniaeth drawsblannu afu/iau	£43,000
Cost flynyddol yr ôl-driniaeth ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf	£12,000
Cost flynyddol yr ôl-driniaeth ar gyfer y drydedd flwyddyn a'r blynyddoedd dilynol	£5,000
Cost flynyddol rheolaeth feddygol	£22,000

Nodyn 1: Cyfrifir nifer y BBAAu a geir o gael trawsblaniad drwy gymharu cyflwr iechyd claf sydd wedi cael trawsblaniad â chyflwr iechyd claf y mae cyflwr ei afu/iau dan reolaeth feddygol, yn ôl nifer o fesuriadau, fel symudedd, diffyg poen/anghysur, y gallu i ofalu amdano'i hun, gorbryder/iselder, a'r gallu i gyflawni 'gweithgareddau arferol'. Mae blwyddyn o iechyd 'perffaith' yn gyfwerth ag 1 BBAA. Drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau, mae Adran Iechyd y DU wedi amcangyfrif y byddai claf sydd wedi cael trawsblaniad afu/iau, ar gyfartaledd, yn mwynhau gwell iechyd dros gyfnod o 18 mlynedd o'i fywyd, sy'n gyfwerth â 13 BBAA, o'i gymharu â chlaf sydd dan reolaeth feddygol³⁶.

Nodyn 2: Amcangyfrifwyd y costau hyn gan Adran Iechyd y DU yn ôl prisiau 2005/2006³⁷. Er mwyn cymryd y chwyddiant ers hynny i ystyriaeth, ychwanegwyd gwerth y farchnad at y costau, gan ddefnyddio datchwyddydd yr CMC.

³⁶ Gweler troednodyn 28.

³⁷ Gweler troednodyn 28.

Parhad Atodiad 2b yr AERh

Dosbarthiad Blynyddol y Costau a'r Manteision ar gyfer Un Trawsblaniad Afu/iau Ychwanegol y Flwyddyn (£000oedd)

	A	B	C	
<u>Blwyddyn</u>	<u>Costau Cysylltiedig â Thrawsblaniadau</u>	<u>Manteision BBAA</u>	<u>Arbedion yn erbyn Rheoli Meddygol</u>	<u>Mantais Net (B+C-A)</u>
0	£159	£780	£33	£653
1	£159	£780	£33	£653
2	£159	£780	£33	£653
3	£159	£780	£33	£653
4	£159	£780	£33	£653
5	£159	£780	£33	£653
6	£159	£780	£33	£653
7	£159	£780	£33	£653
8	£159	£780	£33	£653
9	£159	£780	£33	£653
GPN (Cyfradd y disgownt = 3.5% ac eithrio'r BBAAau = 1.5%)	£1,372	£6,714	£282	£5,624

Nodyn 1: Cafodd y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â thrawsblaniadau eu cyfrifo yn erbyn rheolaeth feddygol gan Adran Iechyd y DU yn 2006³⁸. Defnyddiwyd y rhagdybiaethau hyn ar gyfer yr AERh; a chymryd chwyddiant i ystyriaeth, gan ddefnyddio datchwyddydd yr CMC.

Nodyn 2: Mae costau a manteision y trawsblaniadau wedi eu priso ar sail dull arwahanol yn hytrach nag ar sail dull di-dor. Felly, er enghraifft, bydd un claf ychwanegol ar gyfer trawsblaniad afu/iau ym mlwyddyn sero (blwyddyn y trawsblaniad ychwanegol cyntaf) yn cynhyrchu costau o £159,000 dros y cyfnod o 18 mlynedd a ddisgwylir i'r claf oroesi. Bydd un claf ychwanegol ar gyfer trawsblaniad afu/iau ym mlwyddyn un yn cynhyrchu'r un costau, ac felly yn y blaen, ar gyfer un trawsblaniad ychwanegol ym mhob un o flynyddoedd 2–9. Yna, rhoddir disgownt i'r costau dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd. Defnyddiwyd yr un dull i amcangyfrif y manteision BBAA a'r arbedion yn erbyn cael triniaeth dan reolaeth feddygol.

³⁸ Gweler troednodyn 28.

Atodiad 2c yr AERh

Y Rhagdybiaethau ar gyfer Dadansoddi'r Galon

Y cyfnod goroesi canolrifol ar gyfer cleifion sydd wedi cael trawsblaniadau	10 mlynedd
Y cyfnod goroesi canolrifol ar gyfer cleifion dan reolaeth feddygol	4 blynedd
Y cynnydd yn y BBAAu a geir o gael trawsblaniad (gweler Nodyn 1 o dan y tabl)	7
Gwerth ariannol un BBAA	£60,000
Cost y flwyddyn gyntaf gan gynnwys y llawdriniaeth	£147,000
Cost flynyddol yr ôl-driniaeth	£12,000
Cost flynyddol rheolaeth feddygol	£5,000

Nodyn 1: Cyfrifir nifer y BBAAu a geir o gael trawsblaniad drwy gymharu cyflwr iechyd claf sydd wedi cael trawsblaniad â chyflwr iechyd claf y mae cyflwr ei galon dan reolaeth feddygol, yn ôl nifer o fesuriadau, fel symudedd, diffyg poen/anghysur, y gallu i ofalu amdano'i hun, gorbryder/iselder, a'r gallu i gyflawni 'gweithgareddau arferol'. Mae blwyddyn o iechyd 'perffaith' yn gyfwerth ag 1 BBAA. Drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau, mae Adran Iechyd y DU wedi amcangyfrif y byddai claf sydd wedi cael trawsblaniad calon, ar gyfartaledd, yn mwynhau gwell iechyd dros gyfnod o 10 mlynedd o'i fywyd, sy'n gyfwerth â 7 BBAA, o'i gymharu â chlaf y mae ei gyflwr dan reolaeth feddygol³⁹.

Nodyn 2: Amcangyfrifwyd y costau gan Adran Iechyd y DU yn ôl prisiau 2005/2006⁴⁰. Er mwyn cymryd y chwyddiant ers hynny i ystyriaeth, ychwanegwyd gwerth y farchnad at y costau, gan ddefnyddio datchwyddydd yr CMC.

³⁹ Gweler troednodyn 28.

⁴⁰ Gweler troednodyn 28.

Parhad Atodiad 2c yr AERh

**Dosbarthiad Blynyddol y Costau a'r Manteision ar gyfer 1 Trawsblaniad
Calon Ychwanegol y Flwyddyn
(£000oedd)**

	A	B	C	
<u>Blwyddyn</u>	<u>Costau Cysylltiedig â Thrawsblaniadau</u>	<u>Manteision BBAA</u>	<u>Arbedion yn erbyn Rheoli Meddygol</u>	<u>Mantais Net (B+C-A)</u>
0	£159	£420	£22	£283
1	£159	£420	£22	£283
2	£159	£420	£22	£283
3	£159	£420	£22	£283
4	£159	£420	£22	£283
5	£159	£420	£22	£283
6	£159	£420	£22	£283
7	£159	£420	£22	£283
8	£159	£420	£22	£283
9	£159	£420	£22	£283
GPN (Cyfradd y disgownt = 3.5% ac eithrio'r BBAAau = 1.5%)	£1,369	£3,615	£188	£2,434

Nodyn 1: Cafodd y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â thrawsblannu eu cyfrifo yn erbyn rheolaeth feddygol gan Adran Iechyd y DU yn 2006⁴¹. Defnyddiwyd y rhagdybiaethau hyn ar gyfer yr AERh; a chymryd chwyddiant i ystyriaeth, gan ddefnyddio datchwyddydd yr CMC.

Nodyn 2: Mae costau a manteision trawsblannu wedi eu priso ar sail dull arwahanol, yn hytrach nag ar sail dull di-dor. Felly, er enghraifft, bydd un claf ychwanegol ar gyfer trawsblaniad calon ym mlwyddyn sero (blwyddyn y trawsblaniad ychwanegol cyntaf) yn cynhyrchu costau o £159,000 dros y cyfnod o 10 mlynedd y disgwylir i'r claf oroesi. Bydd un claf ychwanegol ar gyfer trawsblaniad calon ym mlwyddyn un yn cynhyrchu'r un costau, ac felly yn y blaen, ar gyfer un trawsblaniad ychwanegol ym mhob un o flynyddoedd 2–9. Yna, rhoddir disgownt i'r costau dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd. Defnyddiwyd yr un dull i amcangyfrif y manteision BBAA a'r arbedion yn erbyn rheolaeth feddygol.

⁴¹ Gweler troednodyn 28.

Atodiad 2d yr AERh

Y Rhagdybiaethau ar gyfer Dadansoddi'r Ysgyfaint

Y cyfnod goroesi canolrifol ar gyfer cleifion sydd wedi cael trawsblaniadau	5.5 mlynedd
Y cyfnod goroesi canolrifol ar gyfer cleifion sydd dan reolaeth feddygol	2 flynedd
Y cynnydd yn y BBAAu a geir o gael trawsblaniad (gweler Nodyn 1 islaw'r tabl)	4
Gwerth ariannol un BBAA	£60,000
Cost y flwyddyn gyntaf gan gynnwys y llawdriniaeth	£156,000
Cost yr ôl-driniaeth yn yr ail flwyddyn	£22,000
Cost yr ôl-driniaeth yn y drydedd flwyddyn	£9,000
Cost yr ôl-driniaeth yn y bedwaredd flwyddyn	£8,000
Cost yr ôl-driniaeth yn y bumed flwyddyn	£4,000
Cost flynyddol rheolaeth feddygol yn y flwyddyn gyntaf	£18,000
Cost flynyddol rheolaeth feddygol yn yr ail flwyddyn	£13,000

Nodyn 1: Cyfrifir nifer y BBAAu a geir o drawsblaniad drwy gymharu cyflwr iechyd claf sydd wedi cael trawsblaniad â chyflwr iechyd claf y mae cyflwr ei ysgyfaint dan reolaeth feddygol, yn ôl nifer o fesuriadau, fel symudedd, diffyg poen/anghysur, y gallu i ofalu amdano'i hun, gorbryder/iselder, a'r gallu i gyflawni 'gweithgareddau arferol'. Mae blwyddyn o iechyd 'perffaith' yn gyfwerth ag 1 BBAA. Drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau, mae Adran Iechyd y DU wedi amcangyfrif y byddai claf sydd wedi cael trawsblaniad ysgyfaint, ar gyfartaledd, yn mwynhau gwell iechyd dros gyfnod 5.5 mlynedd o'i fywyd, sy'n gyfwerth â 4 BBAA, o'i gymharu â chlaf y mae ei gyflwr yn cael ei drin dan reolaeth feddygol⁴².

Nodyn 2: Amcangyfrifwyd y costau gan Adran Iechyd y DU yn ôl prisiau 2005/2006⁴³. Er mwyn cymryd y chwyddiant ers hynny i ystyriaeth, ychwanegwyd gwerth y farchnad at y costau, gan ddefnyddio datchwyddydd yr CMC.

⁴² Gweler troednodyn 28.

⁴³ Gweler troednodyn 28.

Parhad Atodiad 2d yr AERh

**Dosbarthiad Blynyddol y Costau a'r Manteision ar gyfer 1 Trawsblaniad
Ysgyfaint Ychwanegol y Flwyddyn
(£000oedd)**

	A	B	C	
<u>Blwyddyn</u>	<u>Costau Cysylltiedig â Thrawsblaniadau</u>	<u>Manteision BBAA</u>	<u>Arbedion yn erbyn Rheoli Meddygol</u>	<u>Mantais Net (B+C-A)</u>
0	£196	£240	£32	£75
1	£196	£240	£32	£75
2	£196	£240	£32	£75
3	£196	£240	£32	£75
4	£196	£240	£32	£75
5	£196	£240	£32	£75
6	£196	£240	£32	£75
7	£196	£240	£32	£75
8	£196	£240	£32	£75
9	£196	£240	£32	£75
GPN (Cyfradd y disgownt = 3.5% ac eithrio'r BBAAau = 1.5%)	£1,689	£2,066	£273	£650

Nodyn 1: Cafodd y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â thrawsblannu eu cyfrifo yn erbyn rheolaeth feddygol gan Adran Iechyd y DU yn 2006⁴⁴. Defnyddiwyd y rhagdybiaethau hyn ar gyfer yr AERh; a chymryd chwyddiant i ystyriaeth, gan ddefnyddio datchwyddydd yr CMC.

Nodyn 2: Mae costau a manteision trawsblannu wedi eu prasio ar sail dull arwahanol, yn hytrach nag ar sail dull di-dor. Felly, er enghraifft, bydd un claf ychwanegol ar gyfer trawsblaniad ysgyfaint ym mlwyddyn sero (blwyddyn y trawsblaniad ychwanegol cyntaf) yn cynhyrchu costau o £196,000 dros y cyfnod o 5.5 mlynedd y disgwylir i'r claf oroesi. Bydd un claf ychwanegol ar gyfer trawsblaniad ysgyfaint ym mlwyddyn un yn cynhyrchu'r un costau, ac felly yn y blaen, ar gyfer un trawsblaniad ychwanegol ym mhob un o flynyddoedd 2–9. Yna, rhoddir disgownt i'r costau dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd. Defnyddiwyd yr un dull i amcangyfrif y manteision BBAA a'r arbedion yn erbyn rheolaeth feddygol.

⁴⁴ Gweler troednodyn 28.

Crynodeb o'r Costau a'r Manteision o Weithredu System Optio Allan o Roi Organau

Crynodeb o Effeithiau Canlyniadau Posib Cyflwyno System Feddal o Optio Allan o Roi Organau												
Y senarios ar gyfer y newid yn nifer y rhoddwyr y flwyddyn	Y nifer yn newid - trawsblaniadau aren y flwyddyn	Y nifer yn newid - trawsblaniadau iauafu y flwyddyn	Y nifer yn newid - trawsblaniadau calon y flwyddyn	Y nifer yn newid - trawsblaniadau ysgyfaint y flwyddyn	Gwerth y newid yn nifer y trawsblaniadau aren £Milliynau	Gwerth y newid yn nifer y trawsblaniadau iauafu £Milliynau	Gwerth y newid yn nifer y trawsblaniadau calon £Milliynau	Gwerth y newid yn nifer y trawsblaniadau ysgyfaint £Milliynau	Gwerth y newid yn nifer y trawsblaniadau o organau £Milliynau	Sefydlog CRhO £Milliynau	Costau	Gwerth Presennol Net (GPN) y newid yn nifer y trawsblaniadau £Milliynau
0	0.00	0.00	0.00	0.00	£0	£0	£0	£0	£0		£8	-£8
1	1.76	0.67	0.14	0.29	£6	£4	£0	£0	£10		£8	£3
2	3.52	1.34	0.29	0.58	£12	£8	£1	£0	£21		£8	£13
3	5.28	2.01	0.43	0.86	£18	£11	£1	£1	£31		£8	£23
4	7.05	2.69	0.57	1.15	£24	£15	£1	£1	£41		£8	£34
5	8.81	3.36	0.71	1.44	£30	£19	£2	£1	£51		£8	£44
10	17.62	6.72	1.43	2.88	£60	£38	£3	£2	£103		£8	£95
15	26.42	10.07	2.14	4.32	£90	£57	£5	£3	£154		£8	£147
20	35.23	13.43	2.86	5.76	£120	£76	£7	£4	£206		£8	£198
25	44.04	16.79	3.57	7.20	£149	£94	£9	£5	£257		£8	£250
-1	-1.76	-0.67	-0.14	-0.29	-£6	-£4	-£0	-£0	-£10		£8	-£18
-2	-3.52	-1.34	-0.29	-0.58	-£12	-£8	-£1	-£0	-£21		£8	-£28
-3	-5.28	-2.01	-0.43	-0.86	-£18	-£11	-£1	-£1	-£31		£8	-£38
-4	-7.05	-2.69	-0.57	-1.15	-£24	-£15	-£1	-£1	-£41		£8	-£49
-5	-8.81	-3.36	-0.71	-1.44	-£30	-£19	-£2	-£1	-£51		£8	-£59
-10	-17.62	-6.72	-1.43	-2.88	-£60	-£38	-£3	-£2	-£103		£8	-£110
-15	-26.42	-10.07	-2.14	-4.32	-£90	-£57	-£5	-£3	-£154		£8	-£162
-20	-35.23	-13.43	-2.86	-5.76	-£120	-£76	-£7	-£4	-£206		£8	-£213
-25	-44.04	-16.79	-3.57	-7.20	-£149	-£94	-£9	-£5	-£257		£8	-£265

Nodyn 1: Cyfrifwyd nifer y trawsblaniadau organau y gellir ei ddisgwyf dan amodau gwahanol ragdybiaethau ar gyfer nifer y rhoddwyr organau, gan ddefnyddio data sydd wedi'i gyfarateddu dros y pum mlynedd diwethaf. Er enghraifft, rhwng 2006 a 2011, trawsblamwyd 1.76 o arenau o bob rhoddwr organau. Rhagdybiryd bydd pob rhoddwr organau ychwanegol yn anwain at 1.76 o drawsblaniadau arenau.

Nodyn 2: Mae'r gwerthoedd wedi eu talgynnu i'r filiwn agosaf.

Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd (BBAA)

Mae cysyniad y BBAAu yn un sydd â chryn dystiolaeth iddo ac yn un a ddefnyddir yn helaeth wrth ddyrannu adnoddau prin y gwasanaethau iechyd sy'n cael eu hariannu gan y sector cyhoeddus. Yn gyffredinol, mae polisïau iechyd wedi eu llunio i estyn a gwella bywydau. Mae'r BBAAu yn cyfuno'r ddwy agwedd hon yn un mesur unigol.

Mae Adran Iechyd y DU yn disgrifio'r BBAAu [QALYs] fel a ganlyn: "*The measure Quality Adjusted Life Year ("QALY") allows the health impact on both life years and quality of life to be expressed in a single measure. The QALY approach weights life years (saved or lost) by the quality of life experienced in those years. Years of good health are more desirable than years of poor health. Poor health is described in terms of the mix of effects on the individual. This mix may include, for example, not only pain and disability but also other dimensions such as anxiety or the ability to carry out usual activities. All these different dimensions are then summarised in a weight, which is applied for the duration of the poor health or until death.*"⁴⁵

Yn ystod blynyddoedd canol degawd cyntaf y ganrif hon, bu Adran Iechyd y DU, drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth⁴⁶, yn cyfrifo BBAAu ar gyfer mathau gwahanol o drawsblaniadau organau. Defnyddiwyd yr amcangyfrifon hyn gennym yn 2009 wrth wneud dadansoddiad o gost a budd y gwasanaethau a ddarperir gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Y pryd hwnnw, roeddem yn cysylltu ag economegwyr Adran Iechyd y DU. Ar gyfer yr AERh hwn, ystyriwyd ei bod yn rhesymol ac yn briodol defnyddio rhagdybiaethau Adran Iechyd y DU eto. Amlinellir y rhagdybiaethau am y BBAAu a geir o drawsblannu organau yn Atodiadau 2a–2d.

Mae Adran Iechyd y DU yn amcangyfrif bod gan BBAA werth ariannol o £60,000⁴⁷.

⁴⁵ Gweler troednodyn 31.

⁴⁶ Gweler troednodyn 28.

⁴⁷ Gweler troednodyn 31.

Atodiad 4 yr AERh

Dadansoddiad o Sensitifrwydd

Gwerth Effaith Net y Newidiadau yn Nifer y Rhoddwyr Organau, gan ddefnyddio Rhagdybiaethau Gwahanol ar gyfer y BBAAu

Senarios ar gyfer y Newid yn Nifer y Rhoddwyr y flwyddyn	Y Senarios ar gyfer y Gwerth BBAA								
	£60,000	£55,000	£50,000	£45,000	£40,000	£35,000	£30,000	£25,000	£20,000
	£ Miliynau	£ Miliynau	£ Miliynau	£ Miliynau	£ Miliynau	£ Miliynau	£ Miliynau	£ Miliynau	£ Miliynau
0	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8
1	£3	£2	£1	£0	£0	£0	£0	£0	£0
2	£13	£11	£10	£8	£7	£5	£4	£2	£1
3	£23	£21	£19	£16	£14	£12	£9	£7	£5
4	£34	£30	£27	£24	£21	£18	£15	£12	£9
5	£44	£40	£36	£32	£28	£25	£21	£17	£13
10	£95	£88	£80	£72	£64	£57	£49	£41	£34
15	£147	£135	£124	£112	£100	£89	£77	£66	£54
20	£198	£183	£167	£152	£136	£121	£106	£90	£75
25	£250	£230	£211	£192	£172	£153	£134	£115	£95
-1	-£18	-£17	-£16	-£16	-£15	-£14	-£13	-£12	-£12
-2	-£28	-£27	-£25	-£24	-£22	-£20	-£19	-£17	-£16
-3	-£38	-£36	-£34	-£31	-£29	-£27	-£25	-£22	-£20
-4	-£49	-£46	-£43	-£39	-£36	-£33	-£30	-£27	-£24
-5	-£59	-£55	-£51	-£47	-£44	-£40	-£36	-£32	-£28
-10	-£110	-£103	-£95	-£87	-£80	-£72	-£64	-£56	-£49
-15	-£162	-£150	-£139	-£127	-£116	-£104	-£92	-£81	-£69
-20	-£213	-£198	-£182	-£167	-£152	-£136	-£121	-£105	-£90
-25	-£265	-£245	-£226	-£207	-£188	-£168	-£149	-£130	-£110

Gwerth Effaith Net y Newidiadau yn Nifer y Rhoddwyr Organau, gan Ddefnyddio Rhagdybiaethau Gwahanol ar gyfer y BBAAu, a chan Ragdybio y bydd 30% o'r Manteision yn dod yn Eiddo i Ddinasyddion Cymru

Senarios ar gyfer y Newid yn Nifer y Rhoddwyr y flwyddyn	Y Senarios ar gyfer y Gwerth BBAA								
	£60,000	£55,000	£50,000	£45,000	£40,000	£35,000	£30,000	£25,000	£20,000
	£ Mils	£ Mils	£ Mils	£ Mils	£ Mils	£ Mils	£ Mils	£ Mils	£ Mils
0	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8	-£8
1	-£4	-£5	-£5	-£5	-£5	-£6	-£6	-£6	-£6
2	-£1	-£2	-£2	-£3	-£3	-£4	-£4	-£5	-£5
3	£2	£1	£0	-£0	-£1	-£2	-£2	-£3	-£4
4	£5	£4	£3	£2	£1	£0	-£1	-£2	-£3
5	£8	£7	£6	£4	£3	£2	£1	-£0	-£1
10	£23	£21	£19	£16	£14	£12	£9	£7	£5
15	£39	£35	£32	£28	£25	£21	£18	£14	£11
20	£54	£50	£45	£40	£36	£31	£26	£22	£17
25	£70	£64	£58	£52	£46	£41	£35	£29	£23
-1	-£11	-£10	-£10	-£10	-£10	-£9	-£9	-£9	-£9
-2	-£14	-£13	-£13	-£12	-£12	-£11	-£11	-£11	-£10
-3	-£17	-£16	-£15	-£15	-£14	-£13	-£13	-£12	-£11
-4	-£20	-£19	-£18	-£17	-£16	-£15	-£14	-£13	-£13
-5	-£23	-£22	-£21	-£20	-£18	-£17	-£16	-£15	-£14
-10	-£38	-£36	-£34	-£31	-£29	-£27	-£25	-£22	-£20
-15	-£54	-£50	-£47	-£43	-£40	-£37	-£33	-£30	-£26
-20	-£69	-£65	-£60	-£55	-£51	-£46	-£42	-£37	-£32
-25	-£85	-£79	-£73	-£67	-£62	-£56	-£50	-£44	-£38

Yr Adolygiad Ôl-Weithredu

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro a gwerthuso effaith cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Cychwynwyd ar waith ymchwil er mwyn gallu pennu'r llinellau sylfaen yn 2012-13. Yn dilyn hynny, bydd gwerthusiad annibynnol yn dechrau yn 2013-14, a fydd yn:

Monitro'r ystadegau, megis nifer y rhoddwyr organau a chyfraddau cydsyniad teuluoedd, a'u cymharu â rhannau eraill o'r DU;
Defnyddio arolygon cynrychiadol i olrhain agweddau'r cyhoedd ar y polisi, eu hymwybyddiaeth o gyfathrebu cyhoeddus, a'u bwriad i optio i mewn neu i optio allan;
Gwneud ymchwil ansoddol gyda staff y GIG sy'n ymwneud â rhoi organau, cyn ac ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Rhagwelwn y bydd y gwerthusiad hwn yn cyhoeddi adroddiadau yn ôl amserlen y cytunir arni, ac fel y bo'n briodol, drwy gydol hyd y gwaith, gan gyhoeddi'r adroddiad terfynol erbyn mis Mawrth 2017.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad llawn o effaith y ddeddfwriaeth ar sail y gwerthusiad hwn cyn pen pum mlynedd o weithredu'r ddeddfwriaeth. Cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol rhaglen werthuso fanwl i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod Cyfnod 2 o ystyried y Bil.

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd yng Nghymru

Cyflwyniad

142. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella cyfraddau rhoi organau yng Nghymru. Mae prinder organau dynol yn parhau i achosi marwolaethau a dioddefaint diangen, i'r cleifion hynny sy'n aros am drawsblaniad ac i'w perthnasau. Ar unrhyw adeg mae tua 300 o bobl ar y rhestr aros am drawsblaniad, a bu farw 41 o breswylwyr Cymru yn 2011/12 wrth iddynt aros am organau.
143. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig ar gydraddoldeb mewn sawl maes. Daw'r dystiolaeth yn bennaf o'r ddogfen ymgynghori ar y Papur Gwyn, "Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd", a'r ymgynghoriad ar y Bil drafft a ddilynodd hynny⁴⁸. Cafwyd hyd i dystiolaeth ychwanegol er mwyn cefnogi unrhyw bryderon a godwyd gan yr ymatebwyr, yn ôl yr angen.
144. Dim ond ar sut y bydd y Bil arfaethedig yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cydsynio i roi organau a meinweoedd y mae cwmpas yr adroddiad hwn yn canolbwyntio. Ni chaiff materion sy'n ymwneud â derbynwyr organau neu feinweoedd eu trafod yn yr adroddiad hwn oni bai eu bod yn berthnasol.
145. Rhoddodd nifer o sefydliadau wybodaeth a gyfrannodd at yr asesiad hwn, gan gynnwys Sefydliad Aren Cymru, Anabledd Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon, a BMA Cymru.
146. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn dangos bod effaith wahaniaethol bosibl i'r system feddal o optio allan, oni bai bod pawb yn y gymdeithas yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn deall sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt, a hynny er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb o ran cyfle i optio i mewn neu i optio allan o roi organau.
147. Awgrymodd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori nad yw'r Bil yn effeithio ar bynciau beichiogrwydd a mamolaeth, rhywedd neu drawsrywedd.
148. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bawb yr opsiwn i gofnodi eu dymuniadau o blaid neu yn erbyn rhoi organau. Bydd hyn yn gwella cyfraddau rhoi organau, a bydd hefyd yn rhoi sicrwydd pellach i deuluoedd eu bod yn gwybod yr hyn yr oedd y sawl a fu farw yn ei ddymuno, a hynny ar adeg drawmatig.

⁴⁸ Gweler troednodiadau 18 a 19.

Anabledd

149. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau y caiff pobl anabl eu trin yn gyfartal yn sgil cyflwyno'r gyfraith newydd, ac y caiff unrhyw driniaeth wahanol ei chyfiawnhau.
150. Mae yna ddau faes lle y gwelir bod risgiau'n codi o driniaeth wahanol – sef y dull a ddefnyddir ar gyfer pobl nad yw'r galluedd meddyliol ganddynt, a'r cyfle a roddir i bob rhan o'r gymdeithas gael hyd i wybodaeth am y gyfraith newydd.

Galluedd meddyliol

151. Mae paragraff 38 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi y dylid gwneud pob ymdrech i hwyluso pethau i'r rhai nad yw'r galluedd ganddynt i ddeall y gyfraith newydd ac i wneud penderfyniad yng ngoleuni'r trefniadau newydd honno.
152. Bydd y strategaeth gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth yn ceisio annog cynifer o bobl â phosibl, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl, i gofnodi eu dymuniadau o blaid neu yn erbyn rhoi organau, a sicrhau bod eu perthynas agosaf yn gwybod am y dymuniadau hynny.
153. Os nad oes cofnod o ddymuniad clir, ystyrir fel rheol bod cydsyniad i roi organau. Felly mae'n ganolog i system feddal o optio allan fod y rhai hynny sy'n rhwym i'r system yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth, yn ei deall hi ac yn cael cyfle i optio allan. Felly er mwyn diogelu'r rheini sydd heb alluedd meddyliol, mae'r Bil yn dweud nad ystyrir bod caniatâd wedi'i roi os oedd oedolyn a fu farw heb alluedd meddyliol am gyfnod digon hir cyn marw i ddeall yr ystyrir bod cydsyniad wedi'i roi os na roddwyd cydsyniad pendant.
154. Bernir mai cynnal trafodaeth gyda theulu'r unigolyn er mwyn cyfeirio'n sensitif at y materion hyn, gan ategu hwnnw â'r cyfarwyddyd a amlinellir yng nghod ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, yw'r dull mwyaf ymarferol o sefydlu a oedd rhywun heb alluedd meddyliol am y cyfnod angenrheidiol.

Mynediad at wybodaeth

155. Bydd cyfathrebu effeithiol yn hanfodol yn sgil y Bil. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd fesul camau

dros y ddwy flynedd cyn i'r gyfraith newydd ddod i rym, er mwyn rhoi gwybod i bawb sy'n byw yng Nghymru am y newidiadau. Nod y strategaeth gyfathrebu fydd ceisio bod mor gynhwysol ag sy'n bosibl, gan sicrhau y defnyddir ieithoedd priodol a dulliau cyfathrebu sy'n hygyrch, ac y ceir gwared ar unrhyw rwystrau rhag cael gafael ar wybodaeth. Fel rhan o'r strategaeth gyfathrebu, targedir y grwpiau canlynol yn benodol:

Pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain

Pobl fyddar a phobl drwm eu clyw sy'n dewis defnyddio Saesneg neu Gymraeg

Pobl ddall neu bobl sydd â nam ar eu golwg

Pobl sy'n fyddar a dall

Pobl sydd ag anableddau dysgu

156. O ran dewis fformat priodol, bydd angen ystyried hefyd oedran y defnyddiwr a'i ddewisiadau personol.

157. Bydd ymchwilio i'r gynulleidfa, a thrafodaethau â sefydliadau ar ran yr anabl, cysylltu â rhwydweithiau pobl anabl, yn ogystal â chyngor gan y Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl, yn helpu i sicrhau bod y dulliau iawn yn cael eu defnyddio i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl, ynghyd â sicrhau bod y deunyddiau a ddatblygir mor hawdd eu defnyddio a'u deall â phosibl. Darperir adnoddau i'r rheini sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i'w galluogi i ddeall y gyfraith newydd a dewis o blaid neu yn erbyn rhoi organau.

Camau gweithredu

Sicrhau bod y codau ymarfer HTA yn cael eu diwygio i gefnogi'r Bil, ac yn cynnwys cyfarwyddyd ar alluedd meddyliol.

Sicrhau bod yr ymgyrch gyfathrebu yn cynnwys darparu fersiynau hygyrch o'r holl ddeunyddiau ac adnoddau er mwyn cynorthwyo'r rheini sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu a phroblemau cyfathrebu eraill.

Cysylltu â rhanddeiliaid i brofi'r deunyddiau hyn gyda grwpiau ffocws cynrychiadol cyn i'r deunyddiau gael eu dosbarthu.

Hil

158. Yn ôl data Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG nid oes gan gymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gynrychiolaeth ddigonol ar yr CRhO ar hyn o bryd. Dim ond 1.4% o bobl o darddiad Asiaidd a 0.4% o bobl dduon sydd wedi eu cynrychioli ar y Gofrestr, er gwaethaf

y ffaith eu bod deirgwaith yn fwy tebygol o fod angen trawsblaniad. Y rheswm am hynny yw eu bod yn fwy tebygol o ddatblygu cyflyrau fel diabetes a phwysedd gwaed uchel, sy'n gallu arwain at fethiant yr arennau neu glefyd y galon. Mae dod o hyd i organau sy'n cydweddu yn gallu cymryd mwy o amser. Mae hyn yn golygu bod pobl o'r cymunedau hyn, ar gyfartaledd, yn aros draean yn hwy nag eraill sy'n aros am drawsblaniad. Mae'r gyfradd lwyddo yn llawer gwell hefyd pan fydd trawsblannu'n digwydd o fewn yr un grŵp ethnig⁴⁹.

159. Dengys astudiaethau⁵⁰ yn gyson, er bod pobl o darddiad Affricanaidd Garibiaidd ac o darddiad De Asiaidd yn cefnogi rhoi organau a thrawsblannu, nid ydynt yn ymwybodol o anghenion penodol eu cymunedau am organau. Awgrymodd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori gynharach⁵¹ mai'r gred yw y bydd grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn elwa o'r cynnydd yn nifer y rhoddwyr.

160. Ar hyn o bryd, mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli tua 4% o'r boblogaeth, sy'n cyfateb i tua 124,000 o bobl⁵². Mae'n bosibl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ac na allant ddarllen Saesneg. Yn yr un modd ag y gwneir ar gyfer grwpiau o bobl anabl, dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn gwahanol ieithoedd sy'n sensitif i anghenion y diwylliannau penodol.

161. I nifer o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig bydd eu ffydd yn arwyddocaol iddynt wrth wneud penderfyniad am roi organau, a chaiff yr agwedd hon ei hystyried yn yr adran isod am Grefydd, Credoau ac Anghred.

Camau gweithredu

Cydweithio â'r priod gymunedau i lunio gwybodaeth sy'n sensitif i anghenion diwylliannau gwahanol, a hynny mewn nifer o wahanol ieithoedd, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw grŵp lleiafrifol yn cael ei allgáu.

Defnyddio rhwydweithiau sydd eisoes mewn bodolaeth ac asiantaethau y gellir ymddiried ynddynt ar gyfer y gwaith hwn.

⁴⁹ http://www.organdonation.nhs.uk/ukt/newsroom/news_releases/article.asp?releaseld=304 .

⁵⁰ Cyfeiriadau sy'n ymddangos yn Randahawa G. (2011), Achieving equality in organ donation and transplantation in the UK: challenges and solutions. Ar gael yn: <http://www.better-health.org.uk/briefings/achieving-equality-organ-donation-and-transplantation-uk-challenges-and-solutions> .

⁵¹ Gweler troednodyn 18.

⁵² Population estimates by ethnic group 2009, Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Profi'r deunyddiau hyn gyda grwpiau ffocws cynrychiadol cyn i'r deunyddiau gael eu dosbarthu.

Dilyn y strategaeth gyfathrebu er mwyn ceisio gwneud y gorau o ran codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau ar gyfer grwpiau lleiafrifol, os nad Saesneg yw'r iaith gyntaf na'r iaith ddewisol.

Crefydd, Credoau ac Anghred

162. Nid oes un ffydd grefyddol yn gwrthwynebu'r egwyddor o roi organau yn gyfan gwbl, er bod gwahaniaeth barn ymhlith y rhai hynny sy'n dilyn y grefydd Islam. Er hynny, yn aml bydd perthnasau'n datgan mai safbwyntiau crefyddol yw'r rheswm dros beidio â chydsynio i roi organau. Yr hyn nad yw'n cael ei ddeall yn iawn yw a oes gan y teuluoedd hynny farn ddeallus am safbwynt eu ffydd yngl n â rhoi organau, un sy'n seiliedig ar drafodaeth helaeth a chryn bwysu a mesur gyda'u mentor yn y ffydd, neu a ydynt yn mynegi barn reddfol sy'n seiliedig ar eu dehongliad personol eu hunain. Mae'r ddwy agwedd hon yn ddilys. Fodd bynnag, maent yn tanlinellu'r angen i sicrhau y dylai arweinwyr ffydd a'r cyhoedd, ill dau, gael eu hannog i drafod eu barn am roi organau yng nghyd-destun eu ffydd.⁵³

163. Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG wedi cyhoeddi amrywiaeth o daflenni sy'n amlinellu safbwynt pob un o'r prif grefyddau yn y DU am roi organau.⁵⁴ Cafwyd llawer iawn o ymatebion (dros 2,300) i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft gan aelodau o gymunedau Mwslimaidd Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Roedd y llythyrau safonol a lofnodwyd gan aelodau'r cymunedau yn cyfeirio at amryw o faterion, yn enwedig pryderon y bobl Fwslimaidd ynghylch a yw marwolaeth yr ymennydd yn farwolaeth mewn gwirionedd, ac a all dilynwyr y gred Islamaidd gefnogi rhoi organau yn dilyn marwolaeth yr ymennydd (DBD neu "heart-beating donation"). Er nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y mater hwn a'r cynigion ar gyfer cydsyniad a ystyrir, fel rhan o'r broses gydnabod, anfonodd swyddogion Llywodraeth Cymru gopi o'r daflen a baratowyd gan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ar safbwynt Islam o ran rhoi organau, at bob un a ymatebodd. Bydd angen rhagor o waith penodol er mwyn sicrhau bod aelodau'r cymunedau Mwslimaidd yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol am y cynigion newydd.

164. Mae'r system optio allan yn caniatáu i bobl fynegi eu dymuniadau yn glir drwy optio i mewn neu optio allan, gan gynnwys y rheini sydd â chredoau crefyddol cryf. Ceir yr opsiwn hefyd o enwebu

⁵³ Gweler troednodyn 50.

⁵⁴

http://www.organdonation.nhs.uk/ukt/how_to_become_a_donor/religious_perspectives/religious_perspectives.asp.

rhywun i benderfynu ynghylch cydsyniad, a allai ganiatáu i'r rheini sydd â gofynion penodol ynghlwm wrth eu ffydd pan fyddant farw, sicrhau bod y gofynion hynny'n cael eu diwallu a rhoi eu horganau ar yr un pryd. Nid yw'n fwriad i'r system newydd newid y trefniadau ar gyfer dyrannu a chydweddu organau a meinweoedd. Os bydd unigolyn yn optio allan, nid oes dim a fyddai'n atal yr unigolyn hwnnw rhag derbyn organ, ac ni fyddai hynny'n newid blaenoriaethau'r rhestr aros, gan fod pob penderfyniad yn seiliedig ar ddod o hyd i'r organ sy'n cydweddu orau.⁵⁵

Camau gweithredu

Sicrhau bod unrhyw gyfathrebu â'r cyhoedd yn cyfleu:

- Bod gan unigolion hawl i fynegi eu credoau crefyddol o ran rhoi organau drwy optio i mewn, drwy optio allan, drwy benodi cynrychiolydd neu'n wir drwy beidio â gwneud unrhyw beth, gan wybod yr ystyrir bod cydsyniad wedi'i roi.
- Nad oes unrhyw ofyniad gorfodol i gofrestru eu safbwyntiau'r naill ffordd na'r llall.

Cydweithio ag amrywiaeth o gymunedau ffydd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod trafodaeth gynhwysfawr o'r materion sy'n berthnasol i grefyddau gwahanol am roi organau, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n ymwneud â rhoi organau, ac egluro'r ddeddfwriaeth newydd.

Cyfeiriadedd Rhywiol

165. Nid oes unrhyw effaith ar gyfeiriadedd rhywiol o ganlyniad i'r Bil hwn.

Oedran

166. Mae'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori yn awgrymu y gallai'r Bil effeithio ar ddwy elfen ddemograffig, sef pobl hŷn a phobl ifanc.

167. Ar hyn o bryd, nid oes terfyn oedran ar gyfer rhoi organau; os yw'r organau yn iach, yn addas, ac yn cydweddu â phobl ar y rhestr aros, yna gallent gael eu defnyddio ar gyfer trawsblannu. Y prif fater o ran pobl hŷn yw y gallant fod yn grŵp sy'n debygol o fod mewn mwy o risg o beidio â meddu ar y galluedd meddyliol i ddeall y gyfraith newydd. Trafodir hyn yn yr adran ar anabledd uchod.

⁵⁵

http://www.organdonation.nhs.uk/ukt/about_transplants/organ_allocation/organ_allocation.asp

168. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn bryderus y gallai gorddibynnu ar gofrestru ar-lein roi rhai sectorau o'r gymuned dan anfantais. Yn benodol, mae'n bosibl na fydd gan y boblogaeth h'n fynediad at y rhyngwrwyd. Mae adroddiad o'r enw 'Digital Wales: Delivery Plan'⁵⁶ (yn Saesneg yn unig) yn datgan bod tua 49% o bobl h'n (50 oed ac yn h'n) wedi eu hallgáu'n ddigidol yn 2010, ac o ganlyniad gallai'r bobl hyn golli'r cyfle i gofnodi eu dymuniadau, os mai'r unig ffordd o wneud hynny yn y dyfodol fydd drwy ddefnyddio'r rhyngwrwyd. Felly, dylid sicrhau bod amrywiaeth o ffyrdd ar gael i bobl h'n ac eraill allu cofnodi eu dymuniadau.
169. Mae'r system o gydsyniad a ystyrir yn berthnasol i bobl dros 18 oed ac ni fydd yn berthnasol i blant na phobl ifanc. Ond nid yw'r Bil yn newid gallu person o dan 18 oed (a elwir yma'n blant neu bobl ifanc) i fynegi dymuniad, yn ystod ei oes, i fod yn rhoddwr neu i beidio â bod yn rhoddwr. Bydd y cynigion yn caniatáu i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r trefniadau cofrestru newydd i gofnodi eu dymuniad.
170. Yn ymarferol, os bydd plentyn neu berson ifanc yn marw mewn amgylchiadau sy'n golygu bod rhoi organau yn bosibilrwydd, yna rhoddir gwybod i'w deulu am ei ddymuniad i gydsynio i roi organau neu i beidio â chydsynio i roi organau, fel rhan o'r drafodaeth ar roi organau. Byddai'n arferol cysylltu â'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant er mwyn sefydlu a oedd y plentyn yn gymwys ar sail achos "Gillick" i wneud y penderfyniad. Golyga hyn y dylai'r plentyn fod yn ddigon aeddfed i fod wedi gallu deall natur a chanlyniadau ei benderfyniad. Os nad yw plentyn neu berson ifanc wedi mynegi dymuniad i roi organau neu beidio â rhoi organau, yna nid ystyrir iddo gydsynio a gofynnir i'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sydd mewn perthynas gymhwys benderfynu ynghylch rhoi organau.
171. Bydd systemau'r GIG yn nodi pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ac sy'n agosáu at eu pen-blwydd yn 18, a chysylltir â hwy chwe mis cyn hynny. Cânt wybod am y trefniadau a fydd yn berthnasol iddynt pan fyddant yn 18 oed, h.y. oni bai eu bod yn mynegi dymuniad i beidio rhoi organau, ystyrir eu bod wedi cydsynio i hynny. Rhoddir digon o amser iddynt benderfynu a ydynt am optio allan neu beidio. Atgoffir pobl ifanc sydd eisoes wedi mynegi dymuniad i roi organau neu beidio o'u penderfyniad, a dywedir wrthynt nad oes angen iddynt wneud unrhyw beth arall, oni bai eu bod yn newid eu meddwl.
172. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried effaith y cynigion wrth weithredu'n unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r

⁵⁶ <http://wales.gov.uk/docs/det/publications/110427deliveryplan.pdf> .

Plentyn. Mae'r cynigion naill ai'n cydymffurfio ag Erthyglau perthnasol y Confensiwn, neu'n rhoi mwy o rym i'r Erthyglau hynny sy'n berthnasol. Darperir datganiad, os gofynnir amdano, ar y modd y mae'r Gweinidogion wedi rhoi sylw priodol i'r cynigion hynny.

Camau gweithredu

Sicrhau bod pobl h n yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn gallu rhoi organau, ac nad oes terfyn oedran ar roi organau.

Cydweithio â grwpiau ffocws priodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bobl h n, a'u bod yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd y gallant optio allan, er enghraifft, drwy lenwi ffurflen bapur, dros y ffôn, etc.

Cydweithio â phobl ifanc i ddatblygu'r ffordd orau o hysbysu pobl ifanc am y penderfyniadau y mae'n bosibl y bydd angen iddynt eu gwneud pan fyddant yn cyrraedd oedran 18.

Priodasau a Phartneriaethau Sifil

173. Nid yw'r gyfraith newydd yn cael unrhyw effaith ar briodasau na phartneriaethau sifil. Mae'r Bil yn nodi'n benodol y rhai hynny sydd mewn perthynas gymhwyso â'r sawl a fu farw – sef priod, partner sifil, partner, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, mam-gu (nain), tad-cu (taid), yr, wyres, plentyn i frawd neu i chwaer, llystad, llysfam, hanner-brawd, hanner-chwaer, cyfaill ers amser maith.

Cam gweithredu

Esbonio'r fframwaith i'r cyhoedd yngl n â'r rhai hynny sydd â'r berthynas agosaf i'r sawl a fu farw, a'u rôl yn achos penderfynu am roi organau.

Hawliau Dynol

174. Ni fydd y Bil arfaethedig yn torri hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

175. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys mesurau diogelwch yn ymwneud â chydsyniad a ystyrir. Ni fydd cydsyniad a ystyrir yn berthnasol i rai o dan 18 oed, pobl sydd heb fyw yng Nghymru am 12 mis o leiaf cyn iddynt farw a phobl nad ydynt yn meddu ar alluedd meddyliol i ddeall y gellid ystyried eu bod yn cydsynio oni bai eu bod wedi cymryd camau pendant.

176. At hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu bod perthnasau neu gyfeillion ers amser maith yn gallu gwrthwynebu cydsyniad ar sail y ffaith eu bod yn gwybod am ddymuniadau'r sawl a fu farw.
177. Yn ogystal, yn ymarferol ni fydd y bobl hynny nad yw'n bosibl eu hadnabod, ac/neu nad oes modd cysylltu â'r perthynas agosaf, yn ddarostyngedig i gydsyniad a ystyrir, gan na fydd hi'n bosibl bodloni'r gofynion ynghylch preswylad, na'r gofynion eraill, yn yr achosion hynny.
178. Bydd cyfnod o ddwy flynedd o leiaf rhwng hynt y ddeddfwriaeth a'i gweithredu'n llawn. Cynhelir ymgyrch gyfathrebu eang yn ystod y cyfnod hwnnw.

Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd: Casglu Gwybodaeth Bersonol ar gyfer Cofrestr newydd Organau a Meinweoedd yng Nghymru

Cyflwyniad

179. Nod yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Breifatrwydd yw ymdrin â phryderon sy'n ymwneud â thrin data personol a phennu unrhyw risgiau neu broblemau a allai effeithio ar gynnal a chadw'r gofrestr newydd arfaethedig.

Y Cynnig

180. Yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004, a'r cod ymarfer cysylltiedig, ni all organau gael eu rhoi heb y "cydsyniad priodol". Ar hyn o bryd, mae hynny'n golygu naill ai:
- bod y rhoddwr wedi rhoi cydsyniad datganedig pan oedd yn fyw, er enghraifft, drwy ymuno â'r CRhO; neu
 - bod cynrychiolydd a enwebwyd yn rhoi cydsyniad datganedig ar ôl i'r unigolyn farw; neu
 - bod y rhoddwr wedi marw heb roi unrhyw gyfarwyddiadau o blaid neu yn erbyn rhoi organau, a bod yn rhaid gofyn i'r berthynas agosaf i roi cydsyniad datganedig ar ran y rhoddwr, yn seiliedig ar beth, yn ei farn ef, oedd dymuniad y sawl a fu farw.
181. Nid yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr CRhO. Mekanwaith yw'r CRhO i gofnodi cydsyniad tra bo'r person dan sylw yn fyw o hyd.
182. Yn fras, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig os nad yw'r sawl a fu farw wedi rhoi gwybod beth yw ei ddymuniad, yna ystyrir bod y sawl a fu farw wedi cydsynio i roi organau a meinweoedd. Felly, caiff cofrestr newydd ei rhoi ar waith, a fydd yn cynnwys opsiynau i unigolion gydsynio'n llawn neu'n rhannol i roi organau a meinweoedd, neu i optio allan yn rhannol neu'n gyfan gwbl o roi organau. Ni fydd unrhyw ofyniad gorfodol i gofrestru, ond os na fydd unigolyn yn dewis y cyfle i optio allan, yn amodol ar y cafeatau yn y ddeddfwriaeth, ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi.
183. I'r cynnig hwn allu llwyddo, rhaid i'r systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) fod yn rhai diogel a chadarn, er mwyn ennyn ffydd y cyhoedd.

Amlinelliad o'r system arfaethedig

184. Mae'r prif ofynion wedi eu llunio drwy gysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Eir ati i ymgymryd â'r gofynion manwl ar y cyd â'r cyflenwr y cytunwyd arno ar gyfer y system, yn ddiweddarach.

185. Prif ofynion y system newydd yw'r hyn a ganlyn.

Caiff y system ei chynnal gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, sy'n cynnal y Gofrestr Rhoddwyr Organau presennol.

Dylai pobl allu cofrestru eu cydsyniad (optio i mewn) i roi rhai neu bob un o'u horganau ym mhob un o'r ffyrdd y gallant wneud hynny ar hyn o bryd:

- Gwefan rhoi organau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
- Llinell ffôn cofrestru Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
- Taflenni Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
- Porthiadau partneriaid:
 - Trwyddedu gyrwyr a cherbydau
 - Ffurflenni cofrestru meddygon teulu
 - Ffurflen gofrestru cynllun cerdyn 'Advantage' Boots
 - Drwy Facebook

Rhoddir ystyriaeth i'r modd y dylid trin unrhyw gofnodion sydd eisoes ar yr CRhO presennol ar gyfer preswylwyr Cymru sydd wedi cofrestru i roi organau.

Dylai unigolion allu cofnodi nad ydynt yn dymuno rhoi unrhyw rai o'u horganau na'u meinweoedd (optio allan):

- drwy ffonio
- ar y we
- drwy lenwi ffurflen a'i dychwelyd drwy'r post
- drwy ffurflen gofrestru ddiwygiedig meddygon teulu yng Nghymru

Dylai pob un o'r dulliau hyn drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Dylai'r dulliau hyn fod yn hawdd i bawb gael hyd iddynt a'u defnyddio, a dylid ystyried darparu deunyddiau mewn fformatau eraill hefyd, er enghraifft Braille, Iaith Arwyddion Prydain a fersiynau Hawdd eu Darllen.

Gellir casglu cofnodion o ddymuniadau o ran rhoi organau gan bobl o bob oed a heb unrhyw ystyriaeth i'w galluedd meddyliol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r prosesau sydd i'w dilyn yn achos y rhai sydd o dan 18 oed, neu ar gyfer y rhai hynny nad yw'r galluedd ganddynt.

Pan fydd unigolyn yn cofrestru ei ddymuniad, mae angen cadarnhau wrtho fod ei ddymuniadau wedi eu cofnodi, a bod y system yn gallu cofnodi unrhyw newidiadau y rhoddir gwybod amdanynt ar ôl hynny.

Os caiff claf ei gyfeirio at Nyrs Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau⁵⁷, gan ei fod ar fin marw a chan y gallai fod yn rhoddwr organau posibl, dylai'r nyrs wirio'r cofnodion i gael gwybod a yw'r claf wedi optio i mewn neu wedi optio allan, neu a oes unrhyw gofnod o farn ddatganedig. Dylid gwirio hefyd a yw'r claf yn 18 oed neu'n h n ac a yw'n byw yng Nghymru, yn seiliedig ar wirio ei gyfeiriad. Gellid gwneud y gwirio hwn drwy ffonio'r swyddog ar ddyletswydd yn swyddfa Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, sy'n gallu gwirio'r cofnodion ar ran y nyrs. Gallai'r gwiriadau hyn lywio'r trafodaethau a gynhelir â'r teulu, yn ôl yr hyn a nodir yn y Memorandwm Esboniadol.

Rhaid i'r system sicrhau nad yw pobl yn gallu cofnodi dymuniadau sy'n groes i'w gilydd, fel optio i mewn ac optio allan. Dylai'r system ymdopi â newid cofnodion am ddymuniadau pobl ar adegau gwahanol, a dylid cymryd mai'r cofnod diweddaraf yw dymuniad y person dan sylw.

Dylai'r system gael ei gwirio'n awtomatig pan fydd rhoddwr posibl yn dod i'r amlwg rywle yn y DU, er mwyn cael gwybod a yw'r sawl a fu farw yn preswyllo yng Nghymru, ac os ydyw, a yw wedi cofrestru dymuniad.

Os bydd unigolyn yn symud o Gymru i fyw rywle arall yn y DU, dylai unrhyw gofnod o'i ddymuniadau aros yn ddilys a dylai fod yn hawdd cael gafael arno.

Dylai'r system ddefnyddio cofnodion GIG Cymru er mwyn cysylltu â phobl ifanc sy'n nesáu at eu pen-blwydd yn 18 oed, er mwyn rhoi gwybod iddynt am y ffordd y mae'r gyfraith yn gymwys iddynt pan fyddant yn 18 oed. Dylid eu hysgogi i wneud penderfyniad am eu dymuniadau os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny.

Dylid rhoi ystyriaeth i systemau sy'n rhoi gwybod i bobl sy'n symud i Gymru am y system o roi organau a meinweoedd sydd ar waith yng Nghymru. Un ffordd o wneud hynny fyddai wrth gofrestru â meddyg teulu.

⁵⁷ Caiff Nyrsys Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau eu cyflogi gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG i hwyluso tynnu a thrawsblannu organau, gan gynnwys cysylltu â theulu'r sawl a fu farw.

186. Disgwylir i'r gofrestr gasglu'r manylion canlynol am yr unigolion fel bod modd eu hadnabod, a hynny yn ystod cyfnod dilysu'r broses, mae'n debyg:

Rhif adnabod unigryw (gorfodol)
Rhif GIG (dewisol)
Rhif Trwydded Yrru (dewisol)

Bydd y manylion personol a gedwir yn cynnwys:

Enw llawn (gorfodol)
Cyfeiriad (gorfodol)
Cod post (gorfodol)
Rhyw (gorfodol)
Dyddiad geni (gorfodol)
Dewisiadau yngl n â rhoi organau a meinweoedd (gorfodol)

Bydd y data ychwanegol y gellid ei gofnodi yn cynnwys:

Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn
Rhif ffôn symudol
Dosbarthiad ethnigrwydd
Y ffynhonnell gofrestru
Rhif adnabod yr ymgyrch farchnata
Fflag sy'n dynodi cydsynio neu beidio i rannu data
Data yngl n â chynrychiolydd penodedig

187. Bydd angen ymgorffori'r porthiadau cyfredol sy'n diweddarau'r cyfeiriadau. Fodd bynnag, nid yw'r porthiadau hyn yn gwarantu y bydd yr wybodaeth am gyfeiriadau yn gwbl gywir.

188. Nid yw'r manylion uchod yn ffurfio'r rhestr derfynol, ac mae'n bosibl y caiff y manylion eu diwygio wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

189. Caiff yr wybodaeth a gedwir ei defnyddio at y dibenion canlynol yn unig:

Canfod beth yw dymuniadau unigolion yngl n â'u horganau;
Monitro pa mor effeithiol oedd unrhyw ymgyrch farchnata;
Monitro faint o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n cofrestru.

190. Caiff gwybodaeth ei hychwanegu at y system drwy'r ffynonellau a ganlyn:

Cofrestru dros y ffôn drwy'r ganolfan alwadau;

Ffurflenni papur a ychwanegir at y system gan staff Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG neu gan eu hisgontractwyr;
Ffurflenni ar-lein drwy gofrestru dymuniadau ar y rhynggrwyd. Fodd bynnag, ni all unigolion adolygu na golygu eu cofnod ar lein;
Porthiadau drwy gofrestru â meddyg teulu;
Ceisiadau am drwydded yrru drwy DVLA; neu
Gerdyn 'Advantage' Boots.

191. Nid yw'r rhestr uchod yn un derfynol ac fe allai gael ei diwygio.
192. Dim ond y bobl ganlynol fydd yn cael gweld cofnodion y gofrestr ar ôl iddynt gael yr hyfforddiant priodol:
- Staff canolfan alwadau'r CRhO er mwyn ychwanegu gwybodaeth a roddir gan unigolyn dros y ffôn, neu er mwyn cadarnhau'r manylion a gedwir;
Is-gontractwyr Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sy'n ymdrin â'r ffurflenni papur ac yn bwydo'r data i'r system;
Swyddogion ar Ddyletswydd i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sy'n defnyddio'r system ar ran Nyrsys Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau; a
Nyrsys Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau ar adegau priodol yn ystod gofal diwedd oes, os ydynt yn dymuno defnyddio'r system yn uniongyrchol, yn hytrach na chael yr wybodaeth drwy ffonio'r Swyddog ar Ddyletswydd.
193. Oherwydd yr wybodaeth bersonol sydd ar gael ar y gofrestr, disgwylir y bydd fetio sylfaenol at ddibenion diogelwch yn gymwys. Rhagwelir y bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gyfrifol am y trefniadau diogelwch ar gyfer eu staff sy'n defnyddio'r gofrestr.
194. Bydd yr holl ddata'n cael ei amgryptio a chedwir ffeiliau wrth gefn gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG.

Cyfiawnhad

195. Mae'r cyfiawnhad am y polisi hwn, sy'n peri bod angen systemau newydd, wedi ei egluro yn adrannau cynharach y Memorandwm Esboniadol hwn.

Mesurau Diogelwch

196. Mae adolygiad yr Athro Syr Gordon Duff o'r enw "The Review of the Organ Donor Register"⁵⁸ yn tanlinellu'r angen am system gadarn i sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yn y system. Nododd ei adroddiad naw argymhelliad ar gyfer yr CRhO bresennol. Dylai'r argymhellion hyn, sy'n cael eu gweithredu gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gael eu hystyried wrth lunio'r system newydd, fel a lle y bo'n briodol.

197. Yr argymhellion allweddol o adroddiad Duff y dylid eu hystyried yw'r rhai canlynol:

Mae argymhellion 2, 3 a 4 yn anelu at leihau'r risg o wallau ac yn gallu sicrhau, hyd y gellir, bod y system yn fanwl gywir.

Mae argymhelliad 7 yn awgrymu darparu gwybodaeth ychwanegol i unigolion pan fyddant yn cofrestru eu dymuniadau, naill ai drwy'r rhyngrwyd neu drwy ddeunyddiau print. Gall hyn helpu i sicrhau bod unigolion wedi gwneud penderfyniad deallus.

Mae argymhelliad 8 yn un pwysig, oherwydd ei fod yn awgrymu annog unigolion i roi gwybod i'w teuluoedd am eu dymuniadau, gan ei bod yn debyg y bydd gofyn i'r teulu gadarnhau eu dymuniadau.

Mae argymhelliad 9 yn annog bod yn glir er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamddealltwriaeth, yn ôl yr hyn a ofynnir gan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

198. Caiff Polisi Diogelu Data ei ddatblygu i sicrhau bod mesurau diogelwch addas ar gyfer trin data personol, a bod atebolrwydd clir er mwyn cynnal y lefelau priodol o ddiogelwch.

Deddfwriaeth

199. Bydd angen ystyried y ddeddfwriaeth ganlynol:

Deddf Hawliau Dynol 1998

58

http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_120563

Deddf Diogelu Data 1998

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Rheoliadau Arfer Busnes Cyfreithlon 2000

Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003

Rheoliadau Cadw Data (Cyfarwyddeb CE) 2007

200. I gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data dylid sicrhau bod copi o gofnod pob unigolyn ar gael ar gais a'i fod yn cael ei ddiwygio os nad yw'n gywir.

Risgiau/Materion

201. Y risg fwyaf sylweddol yn achos y ddeddfwriaeth arfaethedig yw'r risg o gamddeall dymuniad unigolyn i wrthwynebu rhoi organau, gan feddwl ar gam fod yr unigolyn wedi cydsynio i roi ei organau.

202. Bydd rhaid sicrhau bod y system newydd mor gadarn a diogel ag sy'n ymarferol bosibl. Wrth sefydlu trefniadau'r gofrestru newydd, dylid mabwysiadu argymhellion adolygiad Duff, a dylid cynnal dadansoddiad llawn o'r diffygion diogelwch.

Atodiad 1

Nodiadau Esboniadol

Cyflwyniad

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru). Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn helpu'r sawl sy'n darllen y Bil i'w ddeall. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Bil.
2. Mae angen darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ac ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil.

Cefndir a chrynodeb

3. Mae'r gyfraith gyfredol ynghylch cydsynio i ddefnyddio cyrff a deunyddiau perthnasol wedi ei nodi yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae Deddf 2004 yn awdurdodi gweithgareddau penodol, gan gynnwys tynnu a defnyddio organau a meinweoedd, at nifer o ddibenion sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno. Un o'r rhain yw defnydd at ddiben trawsblannu. Y sefyllfa bresennol, fel y'i nodir yn Neddf 2004, yw bod cydsyniad priodol ("*appropriate consent*") yn ofynnol er mwyn defnyddio organau a meinweoedd at y dibenion a restrir yn yr Atodlen. Mae ystyr cydsyniad priodol yn amrywio gan ddibynnu ar b'un a yw'r deunydd perthnasol yn cael ei dynnu o oedolyn neu blentyn, ond yr egwyddor gyffredin yw bod rhaid i'r cydsyniad gael ei roi yn ddatganedig.
4. Diben y Bil yw newid y ffordd y mae cydsyniad i gael ei roi o ran rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru, at ddibenion trawsblannu. Mae'r Bil yn darparu, yn absenoldeb darpariaeth ddatganedig mewn perthynas â chydsynio, yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi yn y rhan fwyaf o achosion. Mae hyn yn golygu, ar ôl i berson farw, yr ystyrir ei fod wedi cydsynio, os nad oedd wedi datgan dymuniad o blaid neu yn erbyn rhoi organau a meinweoedd. Fodd bynnag, nid yw cydsyniad a ystyrir yn gymwys i bobl ifanc o dan 18 oed, i bobl nad ydynt wedi bod yn byw yng Nghymru am gyfnod o 12 mis o leiaf yn union cyn marw, nac i bobl nad yw'r galluedd ganddynt i ddeall y gellid ystyried bod cydsyniad wedi ei roi, yn absenoldeb camau datganedig. Yn ogystal, yn ymarferol, ni fydd pobl na ellir eu hadnabod neu na ellir dod o hyd i'w perthynas agosaf, yn ddarostyngedig i gydsyniad a ystyrir.
5. Mae'r Bil felly'n creu sefyllfa ddiodyn sy'n darparu bod cydsyniad wedi ei roi, gan osod y cyfrifoldeb ar unigolion i optio allan os ydynt yn gwrthwynebu. Fodd bynnag, gall cydsyniad a ystyrir gael ei wrthdroi pan fydd perthynas neu gyfaill ers amser maith yn gwrthwynebu'r cydsyniad ar sail y ffaith eu bod gwybod na fyddai'r ymadawedig wedi cydsynio i roi ei organau a'i feinweoedd at ddibenion trawsblannu. Gelwir hyn yn aml yn "system feddal o optio allan" ar gyfer rhoi organau a meinweoedd. Felly,

caiff y cysyniad o gydsyniad priodol a geir yn Neddf 2004 ei ddisodli gan ddau gydsyniad, sef “cydsyniad datganedig”, (sy’n atgynhyrchu “cydsyniad priodol”), a “cydsyniad a ystyrir”.

6. Ar gyfer y bobl hynny na fydd cydsyniad a ystyrir yn gymwys iddynt, mae'r Bil yn dal ystyr y cysyniad o gydsyniad priodol fel y'i nodir yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae hyn yn golygu y bydd y sefyllfa bresennol yn parhau i fod yn gymwys i berson sy'n marw yng Nghymru ond nad yw'n ddarostyngedig i gydsyniad a ystyrir. I grynhoi, felly, mae'r systemau yng Nghymru a Lloegr yn aros yr un peth, ac eithrio bod cydsyniad a ystyrir yn gymwys yng Nghymru.

Cymhwysiad tiriogaethol

7. Mae deddfwriaeth Cymru yn gymwys mewn perthynas â chydsyniad pan gyflawnir gweithgaredd trawsblannu yng Nghymru. Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn gymwys i bob achos sy'n ymwneud â chydsyniad at ddibenion trawsblannu pan gyflawnir y gweithgaredd yn Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon.
8. Mae'r Bil yn nodi mewn un ddogfen y prif ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydsyniad ar gyfer gweithgareddau trawsblannu yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r Bil yn ailddatgan rhai adrannau o Ddeddf 2004 sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chydsyniad at ddibenion trawsblannu. Fodd bynnag, er mwyn cynnal trefn drawsffiniol effeithiol yn nhermau gweithredu rhaglen trawsblannu organau ledled y DU, mae'n anochel y bydd cyswllt â Deddf 2004. Nid yw rhai darpariaethau eraill yn Neddf 2004 nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chydsyniad ond sy'n gymwys i drawsblannu, wedi eu hailddatgan ond maent yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ac adrannau 8 (cyfyngu ar weithgareddau mewn perthynas â deunydd wedi ei roi), 33 (cyfyngu ar drawsblaniadau sy'n ymwneud â rhoddwyr byw) a 34 (gwybodaeth am lawdriniaethau trawsblannu) yn Neddf 2004.

Sylwebaeth ar yr adrannau

Adran 1: Trosolwg

9. Mae'r adran hon yn crynhoi prif ddarpariaethau'r Bil. Bwriedir iddi nodi ymhle i ddod o hyd i wybodaeth a chyflwyno cysyniadau allweddol.

Adran 2: Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu

10. Er bod y ddarpariaeth hon yn rhannol gyffredinol o ran ei chymhwysiad (hyrwyddo trawsblannu fel modd i wella iechyd), mae hefyd yn gosod dyletswydd benodol bwysig ar Weinidogion Cymru yn ymwneud ag addysgu'r bobl hynny sy'n preswyllo yng Nghymru (ac o bosibl y bobl hynny sy'n debygol o ddod i breswyllo yng Nghymru) ynghylch yr

amgylchiadau lle y gellir ystyried bod cydsyniad wedi ei roi. Mae hyn yn bwysig am fod anweithred, mewn gwirionedd, yn gyfystyr â rhoi cydsyniad. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi ei chyfyngu'n ddatganedig i Gymru (fel cysyniad daearyddol) am fod angen bod yn hyblyg mewn perthynas ag ymhle y cynhelir gweithgareddau hyrwyddo ac addysgu.

Adran 3: Awdurdodi gweithgareddau trawsblannu

11. Hon yw'r ddarpariaeth allweddol sy'n darparu bod cydsyniad yn ofynnol er mwyn cyflawni gweithgaredd trawsblannu. Mae'n cyflwyno'r cysyniadau o gydsyniad a ystyrir a chydsyniad datganedig. Mae hefyd yn nodi'r gweithgareddau trawsblannu y mae'r cydsyniad yn gymwys iddynt. Mae'n dilyn strwythur tebyg i Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 gan ei bod yn darparu bod gweithgareddau penodol yn gyfreithlon os cânt eu gwneud â chydsyniad, ac mae'r modd y mae cydsyniad wedi ei roi mewn amrywiol amgylchiadau yn cael ei nodi mewn adrannau dilynol.
12. Mae'r adran hon yn darparu bod gweithgareddau penodol yr ymgymmerir â hwy at ddiben trawsblannu yn gyfreithlon os oes cydsyniad wedi ei roi ar eu cyfer, a hynny'n gydsyniad datganedig neu'n gydsyniad a ystyrir, ac mae'n nodi'r adrannau perthnasol sy'n darparu ar gyfer yr hyn y mae hyn yn ei olygu mewn gwahanol amgylchiadau. Mae'r adrannau dilynol yn nodi'r hyn y mae cydsyniad datganedig a chydsyniad a ystyrir yn ei olygu gan ddibynnu ar a yw'r person y mae'r cydsyniad yn ymwneud ag ef yn oedolyn, yn oedolyn a eithrir (oedolyn na all cydsyniad a ystyrir fod yn gymwys iddo) neu'n blentyn.
13. Mae'r gweithgareddau eu hunain unwaith eto wedi eu seilio ar y rheini yn adran 1 o Ddeddf 2004, ac eithrio mai dim ond y rhai sy'n berthnasol i drawsblannu sydd wedi eu cynnwys.
14. Mae is-adran (3) yn gwneud gweithgareddau penodol yn gyfreithlon pan fo organau a meinweoedd wedi cael eu mewnfario i Gymru o'r tu allan i Gymru. Mewn achosion o'r fath, nid yw cydsyniad yn ofynnol, sy'n golygu mai'r unig beth y mae angen i bersonau sy'n defnyddio organau fod wedi eu bodloni yn ei gylch yw bod yr organ wedi ei mewnfario. Mae hyn yn atgynhyrchu'r sefyllfa o dan Ddeddf 2004 pan fo organ wedi dod i Gymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon o'r tu allan (er enghraifft o'r Alban).

Adran 4: Cydsynio: oedolion

15. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r cysyniad o gydsyniad a ystyrir. Cydsyniad a ystyrir yw'r sefyllfa ddiodyfyn ymhob achos ar wahân i oedolion a eithrir (gweler adran 5). Mae plant hefyd wedi eu heithrio o'r drefn cydsyniad a ystyrir (gweler adran 6).
16. Ar gyfer y bobl hynny y gall cydsyniad a ystyrir fod yn gymwys iddynt, mae eithriadau posibl pellach, sef:

Eithriad 1:

17. Pan fo achos a nodir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 yn gymwys, ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r cydsyniad gael ei roi'n ddatganedig. Yr achosion hyn yw:
- a) pan fo oedolyn yn fyw: mewn achos o'r fath yr oedolyn sydd i roi cydsyniad (sy'n golygu na all cydsyniad a ystyrir byth fod yn gymwys pan fo oedolyn yn fyw – er bod eithriad i hyn yn adran 8 mewn achosion pan na fo gan berson y galluedd i gydsynio);
 - b) pan fo'r oedolyn wedi marw ond roedd ei benderfyniad ynghylch cydsyniad i drawsblannu mewn grym yn union cyn ei farwolaeth – mewn achosion o'r fath y penderfyniad hwnnw sy'n drech;
 - c) pan fo oedolyn wedi marw, nid oes unrhyw benderfyniad ganddo mewn grym, ond mae'r oedolyn wedi penodi person arall i wneud y penderfyniad (o dan adran 7 o'r Bil) – yn yr achos hwnnw y person sydd wedi ei benodi sy'n penderfynu.
 - d) pan fo'r oedolyn wedi marw ac wedi penodi person arall i wneud y penderfyniad (o dan adran 7 o'r Bil) ond nad oes neb yn gallu rhoi'r cydsyniad o dan y penodiad – yn yr achos hwnnw y perthnasau cymhwysol yn ôl eu trefn benodol fydd yn penderfynu ar y cydsyniad, yn unol â Deddf 2004.
18. Mae'r cysyniadau ffeithiol y tu ôl i gydsynio yr un peth ym Mil Cymru ac yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004 ac maent yn adlewyrchu'r cyswllt bwriadol sydd rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae'r cwestiwn ffeithiol ynghylch p'un a oes "penderfyniad gan berson i gydsynio, neu i beidio â chydsynio, i weithgaredd [trawsblannu] mewn grym yn union cyn ei farwolaeth" yr un peth p'un ai deddfwriaeth Cymru neu Ddeddf 2004 yw'r fframwaith cyfreithiol. Yn hynny o beth, bwriedir i'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth eistedd ochr yn ochr â'i gilydd.
19. Os yw person yn fyw ac fel arfer yn byw, er enghraifft, yn Lloegr ac yn ymgymryd â gweithgaredd trawsblannu yng Nghymru, fel mater cyfreithiol, bydd Bil Cymru yn gymwys. Fodd bynnag mae'r effaith yr un peth â phe bai Deddf 2004 yn gymwys (h.y. mae angen cydsyniad y person hwnnw).
20. Os yw person y byddai'r ddarpariaeth yn yr adran hon fel arfer yn gymwys iddo yn marw yn Lloegr, ni ellir ystyried ei fod wedi cydsynio i weithgaredd trawsblannu a gynhelir yn Lloegr. Byddai Deddf 2004 yn gymwys ac felly, cyfrifoldeb person mewn perthynas gymhwysol fyddai gwneud penderfyniad yn absenoldeb cydsyniad datganedig. Cyflawnir hyn mewn dwy ffordd. Y ffordd gyntaf yw bod Deddf 2004 yn parhau i fod yn gymwys pan fo gweithgaredd trawsblannu yn cael ei gynnal yn Lloegr (neu yng Ngogledd Iwerddon) ac o dan y Ddeddf honno yr un cwestiwn ffeithiol sydd, yn ymwneud ag a oedd penderfyniad yr ymadawedig ynghylch cydsyniad (yn ymarferol, bod ei enw ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau) mewn grym pan fu farw.

21. Caiff penodiadau cynrychiolwyr a enwebir i wneud penderfyniad mewn perthynas â chydsynio ar ôl marwolaeth a wneir o dan Ddeddf 2004, neu ddeddfwriaeth Cymru eu cydnabod mewn sefyllfa drawsffiniol. Gwneir hyn drwy ddarpariaeth yn y ddau ddarn o ddeddfwriaeth (adran 7(11) o'r Bil hwn ac adran 4(11), sef adran newydd, o Ddeddf 2004 sydd i'w mewnosod drwy orchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) sy'n golygu y gellir trin penodiadau a wneir o dan y naill Ddeddf yn benodiadau a wneir o dan y llall.

Eithriad 2:

22. Mae perthynas neu gyfaill yn gwrthwynebu ar sail y ffaith eu bod yn gwybod bod yr ymadawedig yn dymuno gwrthwynebu rhoi organau. Gall gwrthwynebiad o'r fath i ystyried bod cydsyniad wedi ei roi gael ei wneud gan unrhyw berthynas neu gyfaill ers amser maith i'r ymadawedig. Nid oes rhaid i'r person sy'n gwrthwynebu fod yn berthynas cymhwysol fel y'i diffinnir yn Adran 17 o'r Bil. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw wrthwynebiad fod yn seiliedig ar farn hysbys yr ymadawedig ac nid ar farn y perthynas neu'r cyfaill.

23. Felly, rhaid i wrthwynebiad-

(a) cael ei ddarparu gan berthynas neu gyfaill ers amser maith a oedd yn gwybod beth oedd barn yr ymadawedig yngl n â chydsynio i weithgareddau trawsblannu, a

(b) bod yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd am ddymuniadau'r ymadawedig sy'n dynodi na fyddai'r ymadawedig wedi cydsynio i weithgareddau trawsblannu. Dylai hyn arwain person rhesymol i gasglu bod y person sy'n gwrthwynebu yn gwybod am ddymuniadau diweddaraf yr ymadawedig.

Eithriad 3:

24. Mae'r gweithgareddau trawsblannu yn cynnwys deunydd perthnasol o'r math a bennir gan Weinidogion mewn rheoliadau.

Adran 5: Cydsynio: oedolion a eithrir

25. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer ystyr cydsyniad mewn perthynas â gweithgaredd trawsblannu ar gyfer oedolion a eithrir. Yn achos oedolyn a eithrir, bydd angen cydsyniad datganedig bob amser ac nid yw cydsyniad a ystyrir yn gymwys. Mae'r adran hon yn atgynhyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bresennol o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 gan ei gwneud yn ofynnol cael naill ai cydsyniad datganedig yr unigolyn, neu gydsyniad datganedig perthynas sy'n gymhwysol neu gydsyniad datganedig y cynrychiolydd penodedig. Dim ond i roddwyr marw, ac nid i roddwyr byw,

y mae'n gymwys. Y rheswm dros hyn yw am mai dim ond pan fo person wedi marw y gellir ystyried bod cydsyniad wedi ei roi (oni bai bod adran 8 ynghylch personau byw nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio yn gymwys).

26. Caiff perthynas gymhwysol ei diffinio yn yr adran dehongli (gweler adran 17). Mae'r rhestr o berthnasau cymhwysol wedi ei rhancio yn unol â'r hyn a nodir yn adran 27(4) o Ddeddf 2004.

27. Ystyr oedolyn a eithrir yw:

Oedolyn sydd wedi marw ac nad oedd wedi bod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am gyfnod o 12 mis o leiaf yn union cyn marw; neu Oedolyn sydd wedi marw ac nad oedd ganddo am gyfnod sylweddol cyn marw y galluedd i ddeall yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi yn absenoldeb cydsyniad datganedig.

28. Nid yw'r term "preswyllo fel arfer" wedi ei ddiffinio ond mae wedi bod yn destun cyfraith achosion helaeth. Yn anad dim mae'n fater o raddau a ffeithiau ac mae'n dynodi rhyw arferiad bywyd ac mae i'w gyferbynnu â phreswyllo anarferol, achlysurol neu dros dro. Mae'r cysyniad yn golygu preswylfa person mewn lle neu wlad arbennig y mae wedi ei mabwysiadu'n wirfoddol at ddiben sefydlog ac sy'n rhan o drefn reolaidd bywyd am y tro, am gyfnod hir neu fyr. Gallai diben sefydlog gynnwys addysg, busnes, cyflogaeth, iechyd neu'r teulu. Y cyfan sy'n angenrheidiol yw bod parhad digonol yn sail i ddiben byw mewn lle er mwyn iddo gael ei ddisgrifio'n sefydlog, ac ar wahân i absenoldebau damweiniol neu dros dro.

29. Yn nhermau person nad oedd ganddo'r galluedd i ddeall y gellid ystyried bod cydsyniad wedi ei roi, nid yw'r union gyfnod y mae'n rhaid iddo fod heb y galluedd i gydsynio wedi ei bennu. Rhaid i'r cyfnod, fodd bynnag, fod yn sylweddol. Os oedd gan berson y galluedd am gyfnod estynedig hyd at bwynt diweddar cyn iddo farw, yna dylid ystyried bod cydsyniad wedi ei roi. Mae'n bwysig nodi bod y mater o ran galluedd yma (diffyg galluedd i ddeall y gellir ystyried bod cydsyniad wedi ei roi) ychydig yn wahanol i'r mater o ran galluedd yn adran 8 (ac yn adran 6 o Ddeddf 2004).

30. O dan yr adran hon os nad oes darpariaeth ddatganedig (yr achosion yn Nhabl 2, gan gynnwys cynrychiolwyr penodedig) yn cael ei gwneud, yna perthynas sy'n gymhwysol sydd i wneud y penderfyniad mewn perthynas â chydsyniad. Mae hyn yr un peth â'r sefyllfa o dan Ddeddf 2004. Mae perthnasau sy'n gymhwysol wedi eu diffinio yn y Bil hwn ond y mae'r rhanc a roddir iddynt (h.y. pa berthynas sydd i wneud y penderfyniad) yn cael ei wneud (o hyd) o dan Ddeddf 2004. O dan adran 26 o Ddeddf 2004 rhaid i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ddyroddi cod ymarfer at ddiben rhoi canllawiau ymarferol a gosod y safonau a ddisgwylir wrth gyflawni gweithgareddau gyda chyrff ac organau (gan gynnwys trawsblannu). Mae adran 26(3) o Ddeddf 2004 yn cynnwys darpariaeth benodol i ddweud bod

rhaid i'r Cod ymdrin â chydsyniad. Mae adran 27 yn darparu bod rhaid i'r cod gynnwys darpariaeth at yr effaith a nodir yn is-adrannau (4) i (8), sy'n cynnwys rhancio a materion ymarferol cysylltiedig eraill, er y caiff yr Awdurdod yn rhinwedd is-adran (3) gynnwys darpariaeth ag effaith wahanol mewn achosion eithriadol. Bydd y darpariaethau hyn yn Neddf 2004 yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru mewn cysylltiad â chydsyniad datganedig a roddir gan berthnasau sy'n gymhwysol, ond bydd y cod ymarfer yn ei gwneud yn glir na fydd perthnasau a chyfeillion ers amser maith yn cael eu rhancio at ddibenion gwybodaeth a ddarperir o dan adran 4(4)(b) o'r Bil.

31. O ran yr effaith drawsffiniol, bwriedir i'r adran hon olygu, os yw rhywun sydd fel arfer yn byw yn Lloegr yn marw yng Nghymru, ac felly cyflawnir y gweithgaredd trawsblannu yng Nghymru, fod y sefyllfa gyfreithiol yr un peth. Deuir i'r casgliad hwn oherwydd yr un cwestiwn o ffaith sydd, sef a oedd penderfyniad yr ymadawedig mewn perthynas â chydsynio (yn ymarferol, bod ei enw ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau) mewn grym pan fu farw yr un fath.

Adran 6: Cydsynio: plant

32. Mae adran 6 yn nodi'r trefniadau sy'n gymwys i blant a phobl ifanc sy'n marw yng Nghymru. Mae'r rhain yn ailddatgan y darpariaethau yn adran 2 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Ar gyfer plant a phobl ifanc, bydd naill ai eu cydsyniad datganedig eu hunain neu, os nad yw hynny wedi ei roi, gydsyniad person sydd â chyfrifoldeb rhiant, yn gymwys. Pan na fo person o'r fath yn bodoli yna rhaid cael cydsyniad person sydd mewn perthynas gymhwysol wedi ei rhancio â hwy, fel y darparwyd ar ei gyfer yn adran 27(4) o Ddeddf 2004.

Adran 7: Cynrychiolwyr penodedig

33. Mae'r adran hon yn darparu y caiff oedolyn benodi cynrychiolydd/cynrychiolwyr i roi cydsyniad i unrhyw un neu rai o'r gweithgareddau a nodir yn adran 3. Mae'r adran hon yn atgynhyrchu adran 4 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 ond mae dau beth yn wahanol. Un o'r rhain yw bod darpariaeth newydd wedi ei hychwanegu fel bod deddfwriaeth Cymru yn cydnabod penodiad a wneir o dan Ddeddf 2004. Yr ail beth yw mai Gweinidogion Cymru fydd â'r pŵer i ragnodi mewn rheoliadau na all personau o ddisgrifiad penodol weithredu o dan benodiad mewn perthynas â rhywun sy'n marw yng Nghymru (nid yw'r pŵer cyfatebol sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf 2004 erioed wedi cael ei ddefnyddio).
34. Bydd penodiad a wneir o dan y Bil hwn yn cael ei gydnabod gan Ddeddf 2004 (cyn gynted ag y bydd diwygiadau perthnasol yn cael eu gwneud i'r Ddeddf honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), ac yn yr un modd, mae penodiad a wneir o dan Ddeddf 2004 yn cael ei gydnabod gan y Bil hwn. Nid yw o

bwys felly p'un a fyddai'r gweithgarwch yn digwydd yng Nghymru, yn Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon.

35. Mae adran 7(12) yn pennu, os nad yw'n rhesymol ymarferol i gyfathrebu â chynrychiolydd penodedig mewn da bryd i allu gweithredu ar gydsyniad, yr ymdrinnir â'r cynrychiolydd penodedig fel pe na bai'n gallu rhoi cydsyniad. Byddai hynny'n golygu y byddai'r penderfyniad ynghylch cydsyniad yn trosglwyddo i'r perthnasau cymhwysol, os na ellir cysylltu â chynrychiolydd penodedig mewn pryd.

Adran 8: Gweithgareddau sy'n ymwneud â deunydd o oedolion (byw) nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio

36. Mae'r adran hon yn gymwys pan na fo gan oedolyn byw y galluedd i gydsynio i roi ei organau a'i feinweoedd a phan na fo unrhyw benderfyniad mewn grym. Mae'r adran hon yn cael yr un effaith ag adran 6 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, ac eithrio mai gan Weinidogion Cymru y bydd y p e'r i ragnodi mewn rheoliadau pryd y gall cydsyniad a ystyrir fod yn gymwys, mewn perthynas â gweithgaredd trawsblannu yng Nghymru. Gallai'r p e'r hwn gael ei ddefnyddio i ragnodi mai dim ond pan fydd hynny er lles pennaf yr oedolyn byw y gellir ystyried cydsyniad. Er enghraifft, gallai fod er lles pennaf y person nad oes ganddo'r galluedd i gydsynio i roi deunydd perthnasol i berthynas agos. Mae cydsyniad a ystyrir yn y cyddestun hwn yn wahanol i ddarpariaethau cydsyniad a ystyrir a nodir yn adran 4, sy'n ymwneud â rhoddwyr ymadawedig. Fodd bynnag, mae'r cysyniad sylfaenol o gymryd camau heb gydsyniad datganedig yr unigolyn yr un peth.

Adran 9: Gwahardd gweithgareddau heb gydsyniad

37. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd yng Nghymru os yw'n ymgymryd â'r gweithgareddau trawsblannu a nodir yn adran 3 heb gydsyniad. Mae gan berson esgus dilys, fodd bynnag, os oedd y person o dan sylw yn credu'n rhesymol fod cydsyniad wedi ei roi. Dyma'r brif ddarpariaeth orfodi yn y Bil ac mae wedi ei seilio ar adran 5 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Gan fod y ddarpariaeth wedi ei seilio ar sylfaen ychydig yn wahanol i Ddeddf 2004 (gan nad oes term sy'n hollol gyfatebol i gydsyniad priodol yn y Bil) mae angen eithrio'n ddatganedig ddarpariaethau eraill yn y Bil sy'n gwneud gweithgareddau trawsblannu yn gyfreithlon heb gydsyniad. Mae hyn yn esbonio adran gyfeirio 3(3) ac adran 12(1).
38. Mae is-adran (5) yn pennu ystyr y cydsyniad sy'n ofynnol. Mae hyn yn gwestiwn o ffaith ac mae'n cynnwys cydsyniad a roddir neu a geir cyn i'r Bil hwn ddod i rym.

Adran 10: Troseddau gan gyrff corfforaethol

39. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth debyg yn adran 49 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Adran 11: Erlyn

40. Mae'r adran hon yn ymwneud â'r troseddau y gellir eu cyflawni o dan y Bil hwn ac mae'n atgynhychu effaith adran 50 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Adran 12: Preserfio deunydd at ei drawsblannu

41. Mae'r adran hon yn atgynhychu effaith adran 43 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn gyfreithlon cadw corff person ymadawedig a phreserfio organau o'r corff a all fod yn addas ar gyfer eu trawsblannu, tra bo'r mater o gydsyniad (p'un ai cydsyniad datganedig neu gydsyniad a ystyrir) i ddefnyddio organau'n cael ei ddatrys. Rhaid i'r camau a gymerir ar gyfer preserfio gynnwys y lleiafswm o gamau angenrheidiol a'r dulliau lleiaf mewnwthiol. Er nad yw hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â chydsyniad mae'n gynhenid i sut y mae'r system yn gweithio cyn cadarnhau a yw cydsyniad yn bodoli ac mae felly wedi ei ailddatgan yn y Bil hwn. Mae'r adran gyfatebol yn Neddf 2004, sef adran 43, wedi ei diwygio i'w gwneud yn glir pa ddarpariaeth sy'n gymwys (h.y. yr un yn y Bil).

Adran 13: Crwneriaid

42. Er mwyn cynnal y sefyllfa gyfreithiol gyfredol o ran crwneriaid, mae'r adran hon yn esemptio o ofynion y Bil unrhyw beth a wneir at ddibenion swyddogaethau crwner, neu o dan ei awdurdod. Mae'r adran hon yn darparu bod angen cydsyniad y crwner cyn gweithredu ar awdurdod o dan adran 3 neu adran 12, os oes angen neu y gall fod angen corff neu ddeunydd perthnasol at ddibenion swyddogaethau'r crwner. Mae'r adran hon yn atgynhychu effaith adran 11 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Adran 14: Codau Ymarfer

43. Fel y cyfeirir ato uchod mae'n ofynnol i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ddyroddi cod ymarfer sy'n cynnwys canllawiau a safonau ymarferol. Nid yw'r darpariaethau hyn wedi eu hatgynhychu nac eu hailddatgan yn y Bil gan mai dim ond un Awdurdod ac un Cod sydd. Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 felly wedi ei diwygio i adlewyrchu deddfwriaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys p eir i Weinidogion Cymru ddiwygio drwy offeryn statudol ranc y rhai hynny sydd mewn perthynas gymhwysol â'r ymadawedig, a gofyniad bod y Cod yn rhoi canllawiau ar sut y gall perthynas neu gyfaill i'r ymadawedig wrthwynebu cydsyniad a ystyrir ar sail dymuniadau'r ymadawedig.

44. Mae'r diwygiadau i Ddeddf 2004 hefyd yn darparu na chaiff yr Awdurdod ddyroddi cod sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n dod o dan ddeddfwriaeth Cymru oni bai bod drafft wedi ei gymeradwyo gan

Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddarostyngedig i benderfyniad cadarnhaol).

Adran 15: Diwygiadau canlyniadol a chysylltiedig i Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004

45. Mae'r adran hon yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 sy'n ganlyniadol i'r Bil hwn neu'n gysylltiedig ag ef. Mae adran 1(1) o Ddeddf 2004 wedi ei diwygio, gan gael yr effaith o ddatgymhwyso'r darpariaethau ar gyfer cydsyniad priodol ar gyfer gweithgareddau trawsblannu yn Neddf 2004 mewn perthynas â gweithgareddau trawsblannu a wneir yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na fydd adran 1(1) o Ddeddf 2004 yn gymwys mwyach i gydsyniad ar gyfer gweithgareddau trawsblannu a gyflawnir yng Nghymru.
46. Mae diwygiadau eraill yn datgymhwyso adrannau o Ddeddf 2004 sydd wedi eu hailddatgan ar gyfer Cymru yn y Bil hwn (er enghraifft, adran 6 (oedolion nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio), ac adran 43 (preserfio deunydd at ei drawsblannu)).
47. Mae diwygiadau hefyd wedi eu gwneud er mwyn i'r Bil hwn gael ei gydnabod gan swyddogaethau cyffredinol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'i adroddiad blynyddol. Mae pwerau arolygu, mynediad, chwilio ac ymafael hefyd wedi eu diwygio er mwyn ymgorffori sefyllfaoedd sydd wedi eu cynnwys yn y Bil.
48. Mae cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru sydd (yn rhinwedd effaith Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) mewn gwirionedd yn golygu Gweinidogion Cymru wedi eu diwygio yn y testun er lles y darllenydd. Mae gofynion newydd i Weinidogion Cymru osod dogfennau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi eu hychwanegu i adlewyrchu'r trefniadau cyfansoddiadol newydd yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel eu bod yn atgynhyrchu'r darpariaethau ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd y DU).

Adran 16: Deunydd perthnasol

49. Mae'r adran hon yn diffinio'r hyn a olygir gan y deunydd a dynnir o'r coff at ddiben trawsblannu. Mae'r diffiniad yr un peth â'r un hynny yn adran 53 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Adran 17: Dehongli

50. Mae'r adran hon yn cynnwys diffiniad o berthynas gymhwysol yn ogystal â'r cyfeiriad at ranc y perthnasoedd hynny yn adran 27(4) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae Deddf 2004 yn diffinio'r term (yn adran 54(9)) yn ogystal â rhancio'r gwahanol berthnasoedd sy'n ffurfio'r diffiniad, drwy adran 27(4) a'r Cod Ymarfer a ddyroddir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. Ni chaiff perthnasau a chyfeillion ers amser maith eu rhancio at ddibenion adran 4(4)(b) o'r Bil hwn (gwybodaeth a all atal

cydsyniad a ystyrir), ond bydd perthnasau cymhwysol yn cael eu rhancio at bob diben arall.

Adran 18: Gorchmynion a rheoliadau

51. Mae'r adran hon yn darparu y defnyddir y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil hwn (ac eithrio gorchmynion cychwyn). Mae hyn yn golygu na chaniateir i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a bod drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo.

Adran 19: Cychwyn

52. Mae'r adran hon yn ymdrin â chychwyn y Bil hwn ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol. Bydd adran 2, sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu a darparu gwybodaeth amdano, yn cychwyn pan fydd y Bil hwn yn cael y Cydsyniad Brenhinol, a bydd adran 1 (Trosolwg); adran 19 (Cychwyn) ac adran 20 (Enw byr) yn cychwyn yr un pryd. Ni fydd y darpariaethau sydd ar ôl yn cael eu cychwyn yn gynt na dwy flynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

Adran 20: Enw byr

53. Enw byr y Bil yw Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013.